

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 57/2019

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/19

Gwerthuso Gweithredu Cynnar Cynnig Gofal Plant Cymru: yr Ail Flwyddyn

Gwerthuso Gweithredu Cynnar Cynnig Gofal Plant Cymru: yr Ail Flwyddyn

Awduron:

Eluned Glyn, Stuart Harries, Jennifer Lane a Sioned Lewis,
Arad Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Glyn, E., Harries, S., Lane, J., Lewis, S.; (2019)
Gwerthuso Gweithredu Cynnar Cynnig Gofal Plant Cymru: yr Ail Flwyddyn.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 57/2019.
Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/gwerthusor-cynnig-gofal-plant-i-gymru-blwyddyn-2>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Katrina Morrison

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 8528

E-bost: Katrina.Morrison@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau	2
Rhestr o ffigurau	3
Geirfa	4
1. Cyflwyniad	6
2. Methodoleg	14
3. Gweithredu'r Cynnig	23
4. Dylanwad y Cynnig ar ddarparwyr	36
Cymwysterau'r gweithlu gofal plant	52
Hyfywedd masnachol y Cynnig	55
5. Dylanwad y Cynnig ar rieni	58
6. Casgliadau	82
7. Argymhellion	88
Atodiad 1: Cwestiynau a chanfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf	90

Rhestr o dablau

Tabl 1.1. Nifer y darparwyr gofal plant sy'n darparu'r Cynnig ym mhob awdurdod lleol, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o ddarparwr gofal plant (mis Medi 2018 i fis Awst 2019)	11
Tabl 1.2 Nifer y plant a fanteisiodd ar y Cynnig ym mhob awdurdod lleol yn ystod mis Gorffennaf 2019.	12
Tabl 1.3. Nifer gyfartalog yr oriau a archebwyd ac a fynychwyd bob mis am bob plentyn.....	13
Tabl 2.2. Trosolwg o'r fethodoleg	16
Tabl 2.3. Ymatebion i arolwg y rhieni yn ôl awdurdod lleol	19
Tabl 2.4. Cyfraddau ymateb i arolwg y darparwyr yn seiliedig ar yr awdurdodau lleol mae darparwyr wedi cofrestru â nhw.....	21
Tabl 5.1. Cyfran y rhieni sy'n cymryd rhan yn y Cynnig o fewn pob band cyflog gros blyneddol yn ystod tymor yr haf 2019	69
Tabl A.1. Cwestiynau ymchwil a gynhwyswyd yng ngwerthusiad y flwyddyn gyntaf o weithrediad cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru	90
Tabl A.2: Cwestiynau gwerthuso'r ail flwyddyn.....	95

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1.1: Awdurdodau Lleol Darparu ac Ymgysylltu.....	9
Ffigur 1.2. Amserlen cyflwyno	10
Ffigur 4.1: Prif iaith y lleoliadau gofal plant a holwyd.....	46
Ffigur 4.2: I ba raddau y mae darparwyr yn cytuno neu'n anghytuno gyda datganiadau'n ymwneud â recriwtio, dargadw a lefel cymhwyster staff yn eu lleoliad.	53
Ffigur 5.1 Sut clywodd rhieni am y Cynnig (%).....	60
Ffigur 5.2: Rhesymau pam fod y rhieni'n gweld y broses o ymgeisio am y Cynnig yn anodd.	64
Ffigur 5.3: Newid mewn oriau gwaith yn ôl rhywedd	78

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Cynnig Gofal Plant (y Cynnig)	30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru – rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.
Cwlwm	Gofal Plant Cymru'n Dysgu a Gweithio ar y Cyd – consortiwm o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru. Mae sefydliadau Cwlwm yn cynnwys Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a PACEY Cymru.
Cylch Meithrin	Cylch chwarae cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin (lluosog: Cylchoedd).
Awdurdod Darparu	Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am brosesu ceisiadau am y Cynnig gan rieni, gan benderfynu a ydynt yn gymwys a'u hysbysu o'r canlyniad. Maent hefyd yn prosesu ac yn gwneud taliadau i ddarparwyr gofal plant ar gyfer darparu'r Cynnig.
Awdurdod Ymgysylltu	Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni a darparwyr gofal plant yn eu hardaloedd, ac ymdrin ag ymholiadau ar y Cynnig.
Dechrau'n Deg	Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ar gyfer plant (0-3 oed) a'u teuluoedd. Mae elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn berthnasol i blant rhwng dwy a thair oed.
FIS	Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd – man cyswllt ar gyfer cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol ar gyfer teuluoedd a gofalwyr sy'n darparu gwybodaeth am ofal plant.
Cyfnod Sylfaen	Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru.
FPN	Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen – o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar a ariennir ar gyfer plant tair a phedair oed yn ystod y tymor, gan ddechrau yn y tymor ar ôl i blentyn droi'n dair oed. Cyfeirir at y ddarpariaeth hon weithiau fel hawl i addysg gynnar ac addysg gynnar a ariennir.
FPN1	Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen 1 - carfan cyn feithrinfa Codi'n Dair.

FPN2	Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen 2 - carfan meithrinfa Codi'n Bedair.
Darparwr a gynhelir	Meithrinfa a ariennir gan awdurdod lleol; gall fod yn ysgol feithrin ar wahân neu'n rhan o ysgol gynradd neu ysgol fabanod.
Darparwr nas cynhelir	Lleoliad gofal plant a gynhelir gan ddarparwr gofal plant preifat, gwirfoddol neu annibynnol.
Plant sy'n codi'n dair	Plant sy'n mynd i droi'n dair oed rywbryd yn ystod y flwyddyn ysgol (cyfeirir atynt fel FPN1 weithiau).
Plant sy'n codi'n bedair	Plant sy'n codi'n bedair yw plant a fydd yn troi'n bedair oed rywbryd yn ystod y flwyddyn ysgol (FPN2).
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig. Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n gofyn am i ddarpariaeth addysgol arbennig gael ei gwneud ar eu cyfer.
Gofal Plant Di-dreth	Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn talu £2 o bob £8 a delir am ofal plant ar gyfer plant o dan 11 oed, os yw'r rhieni'n gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Medi 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru weithredu'r Cynnig Gofal Plant er mwyn profi darpariaeth 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed.
- 1.2 Mae'r 'Cynnig', fel y cyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn, yn cyfuno'r cynnig addysg gynnar cyffredinol a gyflwynwyd yn 2008, a adnabyddir fel darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN), gyda gofal plant a ariennir gan y llywodraeth.
- 1.3 Gofal plant a ariennir gan y llywodraeth yw'r unig elfen o'r 'Cynnig' y mae'r adroddiad hwn yn ei gwerthuso. Ar hyn o bryd, caiff yr elfen FPN ei darparu drwy fecanwaith ar wahân, ac ni chaiff ei hystyried mewn manylder yn y gwerthusiad hwn.
- 1.4 Yn ystod y flwyddyn gyntaf, darparwyd y Cynnig mewn ardaloedd peilot un ai ledled y saith awdurdod lleol gweithredu cynnar canlynol neu mewn rhan ohonynt: Ynys Môn a Gwynedd (cydweithio), Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Comisiynwyd Ymchwil Arad i gynnal gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf o weithredu cynnar Cynnig Cymru, a chyflwynwyd y canfyddiadau yn yr adroddiad gwerthuso a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018¹. Mae'r adroddiad cyfredol hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad o'r ail flwyddyn o weithredu cynnar y Cynnig.
- 1.5 Prif nodau'r gwerthusiad o'r ail flwyddyn oedd gwerthuso:
 - Pa mor effeithiol mae'r Cynnig yn cael ei ddarparu i blant a rhieni ac yn cynnig gwersi i lywio darpariaeth yn y dyfodol.
 - Yr effaith y mae'r Cynnig yn ei chael ar gyflogadwyedd, llesiant ac incwm gwario rhieni.
 - Effaith y Cynnig ar y sector gofal plant, gan edrych ar yr effaith ar wahanol fathau o ddarparwyr gofal plant i gyflawni, newidiadau i arferion busnes ac effaith ymyrraeth yn y farchnad gofal plant.
- 1.6 Llywiwyd y gwerthusiad gan y canlynol:
 - ymchwil ddesg a dadansoddiad o ddata monitro'r Cynnig;

¹ Glover, A., Harries, S., Lane, J. a Lewis, S. (2018). [Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 61/2018. [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2019]

- cyfweiliadau gyda thimau Cynnig Gofal Plant Awdurdodau Lleol, swyddogion Llywodraeth Cymru yn y tîm gofal plant, darparwyr gofal plant, a rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig; ac
- arolwg o ddarparwyr gofal plant a rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig.

1.7 Cyflwynir manylion pellach ynghylch dulliau'r gwerthusiad yn adran 2 yr adroddiad hwn.

Beth yw'r Cynnig?

1.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar a ariennir gan y llywodraeth yn ystod y tymor, a mynediad at 30 awr o ofal plant a ariennir yn ystod naw o'r 13 wythnos o wyliau ysgol ar gyfer rhieni plant tair a phedair oed yng Nghymru.

1.9 Mae'r Cynnig yn cynnwys addysg gynnar, a ddarperir drwy ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN) a gofal plant a ariennir i blant tair a phedair oed yn ystod y tymor. Ers 2008, mae gofyn i bob awdurdod lleol ddarparu o leiaf 10 awr yr wythnos o FPN i rieni plant tair a phedair oed yng Nghymru. Mae hyn yn dal i fod yn wir. Fodd bynnag, erbyn hyn mae gan rieni sy'n gweithio hawl i hyd at 20 awr o ofal plant a ariennir, ynghyd â'r lleiafswm o 10 awr o FPN bob wythnos – sy'n dod i 30 awr o ddarpariaeth a ariennir sydd ar gael drwy'r Cynnig.

Mae'r oriau darpariaeth FPN sydd ar gael ar hyn o bryd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol (ac mewn rhai achosion rhwng darparwyr FPN yn yr un awdurdod lleol). Felly, mae nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i gyflawni 30 awr y Cynnig hefyd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac oddi mewn iddynt.

1.10 Mae'r Cynnig ar gael i blant tair a phedair oed y mae eu rhieni, ar gyfartaledd, yn ennill lleiafswm wythnosol sydd gyfwerth ag 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu gyflog byw cenedlaethol, ond sy'n ennill llai na £100,000 y flwyddyn. Mae pob rhiant, gwarcheidwad, llys-riant, a phartneriaid hirdymor sy'n byw yn yr un tŷ yn gymwys ar gyfer y Cynnig os oes ganddynt blentyn yn yr ystod oedran ac os ydynt yn bodloni diffiniad rhiant sy'n gweithio. Mae'r Cynnig yn diffinio rhieni sy'n gweithio fel rhai sy'n gyflogedig, yn hunangyflogedig, neu ar gontract dim oriau. Mae'n rhaid i'r ddau riant mewn teulu dau riant, a'r unig riant mewn teulu un rhiant, fod yn gweithio er

mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i hyn, er enghraifft, os yw un rhiant yn gweithio a bod gan y rhiant arall gyfrifoldebau gofal (ac eithrio ar gyfer eu plant eu hunain) neu os yw un rhiant yn gweithio a bod y rhiant arall yn anabl neu'n methu gweithio. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r rhiant sy'n gweithio yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

Cyd-destun a'i gyflwyno yn yr ail flwyddyn

- 1.11 Ym mis Medi 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru weithredu'r Cynllun yn gynnar er mwyn profi darpariaeth y Cynnig. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o'i weithredu cynnar (mis Medi 2017 i fis Awst 2018), darparwyd y Cynnig i blant â rhieni cymwys mewn saith awdurdod lleol dethol. Yr ardaloedd hyn oedd:
- Cyngorau Gwynedd ac Ynys Môn (gweithio ar y cyd)
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 - Cyngor Sir y Fflint
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
 - Dinas a Sir Abertawe.
- 1.12 Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, Blaenau Gwent oedd yr unig awdurdod lleol lle profwyd y Cynnig ar draws yr awdurdod lleol cyfan. Dewisodd yr awdurdodau lleol eraill gymysgedd o ardaloedd i brofi'r Cynnig, er enghraifft ardaloedd gwledig a dinesig.
- 1.13 Ym mis Medi 2018, wrth i'r gwaith o gyflwyno'r Cynnig gam wrth gam barhau, cyflwynwyd model cyflenwi newydd. Roedd y model newydd hwn yn cynnwys cydweithio mewn clystyrau o awdurdodau lleol mewn dau gategori: awdurdodau darparu, a oedd yn gyfrifol am brosesu ceisiadau a thaliadau rhieni i ddarparwyr; ac awdurdodau ymgysylltu, a oedd yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni cymwys yn eu hawdurdodau lleol. Cyflwynir trosolwg o'r trefniadau partneriaeth hyn rhwng y gwahanol awdurdodau lleol yn Ffigur 1.1, a chyflwynir amserlen gyflwyno ar gyfer pob awdurdod lleol yn Ffigur 1.2.

Ffigur 1.1: Awdurdodau Lleol Darparu ac Ymgysylltu

Awdurdodau Darparu	Awdurdodau Ymgysylltu
Ynys Môn a Gwynedd*	Conwy
Blaenau Gwent*	Torfaen
Sir y Fflint*	Wrecsam
	Sir Ddinbych
Rhondda Cynon Taf*	Merthyr Tudful
	Pen-y-bont ar Ogwr
Casnewydd	Sir Fynwy
	Bro Morgannwg
Ceredigion	Sir Gaerfyrddin
	Sir Benfro
	Powys
Caerdydd	
Castell-nedd Port Talbot	
Abertawe*	
Caerffili*	

* Rhan o weithredu cynnar y peilot yn y flwyddyn gyntaf, 2018-2019.

Ffigur 1.2. Amserlen cyflwyno

	2017	2018				2019	
Awdurdod lleol	Medi	Ebrill	Medi	Hydref	Tachwedd	Ion	Ebrill
RhCT							
Merthyr							
Pen-y-bont ar Ogwr							
Caerdydd							
Blaenau Gwent							
Tor faen							
Bro Morgannwg							
Casnewydd							
Sir Fynwy							
Caerffili							
Fflint							
Wrecsam							
Sir Ddinbych							
Ynys Môn/Gwynedd							
Conwy							
Abertawe							
Castell Nedd Port Talbot							
Ceredigion							
Sir Gaerfyrddin							
Powys							
Sir Benfro							

Allwedd

Awdurdodau Darparu

Cyflwyno'n rhannol

Cyflwyno llawn

Cyflwyno graddol

Print trwm



Trosolwg o'r Cynnig Gofal Plant

- 1.14 Mae'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r Cynnig yn ystod blwyddyn ariannol (mis Ebrill i fis Mawrth) yn rhedeg dros fwy nag un flwyddyn academaidd. Yn ystod y flwyddyn ariannol (2018 – 2019), gwariwyd £18.6 miliwn ar y Cynnig. Ariannodd hyn ddarpariaeth blwyddyn gyntaf y Cynnig ar gyfer mis Ebrill i fis Awst 2018, a mis Medi 2018 i fis Mawrth 2019 yr ail flwyddyn.

- 1.15 Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu nifer y darparwyr gofal plant a'r rhieni sy'n cymryd rhan yn y Cynnig, ynghyd â gwybodaeth am nifer gyfartalog yr oriau gofal plant a archebwyd ac a ddefnyddiwyd bob mis.
- 1.16 Cofrestrodd cyfanswm o 2,260 o ddarparwyr gofal plant, ac roeddent yn rhan o ddarparu'r Cynnig yn ystod ail flwyddyn ei weithredu. Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr a oedd yn darparu elfen gofal plant y Cynnig yn unig a'r rhai a oedd yn darparu'r 30 awr gyfan (hynny yw, gofal plant ac FPN). Mae Tabl 1.1 isod yn cyflwyno dadansoddiad o'r darparwyr hyn yn ôl y math o ddarparwr.

Tabl 1.1. Nifer y darparwyr gofal plant sy'n darparu'r Cynnig ym mhob awdurdod lleol, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o ddarparwr gofal plant (mis Medi 2018 i fis Awst 2019)²

Ardaloedd partneriaethau awdurdodau lleol	Gofal y tu allan i'r ysgol	Gofal drwy'r dydd	Gofal dydd sesiynol	Gwarchodwyr plant	Arall e.e. crèche / lleoliad chwarae mynediad agored	Cyfanswm nifer y darparwyr
Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy	22	101	73	119	2	317
Sir y Fflint - Sir Ddinbych a Wrecsam	45	151	45	108	2	351
Ceredigion – Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys	27	161	55	94		337
Rhondda Cynon Taf – Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful	15	77	32	91	1	216
Blaenau Gwent a Thorfaen	8	45	9	45	1	108
Casnewydd – Sir Fynwy a Bro Morgannwg	22	103	23	153	1	302
Caerffili	8	37	27	76		148
Caerdydd	19	56	25	150	1	251
Castell-nedd Port Talbot	6	30	8	49		93
Abertawe	7	41	14	52		114
Eraill (y tu allan i Gymru)		19		4		23
Cyfanswm	179	821	311	941	8	2260

Ffynhonnell: Ffurflenni darparwyr yr Awdurdodau Lleol.

² Roedd modd cyfateb manylion 2,320 o'r darparwyr a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol gyda chofrestr AGC. Cafodd 235 o ddarparwyr eu categorioeddio â llaw. Erbyn tynnu'r rhai a ddyblygwyd, roedd cyfanswm o 2,292 o ddarparwyr. Roedd modd nodi 32 lleoliad fel rhai nad oeddent yn weithredol, ac fe'u tynnwyd o'r dadansoddiad, gan adael cyfanswm o 2,260 darparwr.

1.17 Mae Tabl 1.2 isod yn cyflwyno'r niferoedd cyffredinol a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ystod mis Gorffennaf 2019, wedi'u dadansoddi yn ôl awdurdod lleol. Ym mis Gorffennaf 2019, defnyddiodd bron i 16,000 o blant y Cynnig. Ers ei gyflwyno'n llawn ledled Cymru (mis Ebrill 2019), mae'r Cynnig wedi'i ddarparu i dros 13,500 o blant ar gyfartaledd bob mis. Nid oes manylion defnydd unigol ar gyfer blwyddyn academiaidd mis Medi 2018 - mis Awst 2019, oherwydd problemau casglu data tymhorol ar lefel awdurdodau lleol.

Tabl 1.2 Nifer y plant a fanteisiodd ar y Cynnig ym mhob awdurdod lleol yn ystod mis Gorffennaf 2019.

Awdurdod lleol	Nifer y plant a fanteisiodd ar y Cynnig
Ynys Môn a Gwynedd	1522
Blaenau Gwent	333
Pen-y-bont ar Ogwr	322
Caerffili	1107
Caerdydd	1779
Sir Gaerfyrddin	496
Ceredigion	298
Conwy	668
Sir Ddinbych	708
Sir y Fflint	1180
Merthyr Tudful	229
Sir Fynwy	581
Castell-nedd Port Talbot	705
Casnewydd	964
Sir Benfro	250
Powys	751
Rhondda Cynon Taf	883
Abertawe	942
Torfaen	608
Bro Morgannwg	614
Wrecsam	989
Cymru	15929

Ffynhonnell: Ffurflenni monitro data misol Cynnig Gofal Plant Cymru:

- 1.18 Ar gyfer pob mis, mae awdurdodau lleol wedi casglu gwybodaeth am nifer yr oriau o ofal plant mae pob rhiant wedi'i archebu, a nifer yr oriau mae pob plentyn wedi mynychu. Cyflwynir nifer gyfartalog yr oriau a archebwyd ac a fynychwyd gan bob plentyn bob mis, o fis Medi 2018 i fis Awst 2019, yn Nhabl 1.3 isod.


Tabl 1.3. Nifer gyfartalog yr oriau a archebwyd ac a fynychwyd bob mis am bob plentyn

Mis	Nifer gyfartalog yr oriau a archebwyd y mis	Nifer gyfartalog yr oriau a fynychwyd y mis
Medi-18	57	52
Hyd-18	73	65
Tach-18	62	57
Rhag-18	54	46
Ion-19	61	54
Chwe-19	61	52
Maw-19	62	55
Ebrill-19	56	47
Mai-19	62	52
Meh-19	64	55
Gorff-19	75	59
Awst-19	42	36
Cyfartaledd Blwyddyn		
Academaidd 2018-2019	61	53

Ffynhonnell: Ffurflenni monitro data misol Cynnig Gofal Plant Cymru

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif gwestiynau ymchwil yr oedd yr ymchwil yn ceisio eu harchwilio, a throsolwg o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.



Cwestiynau ymchwil

2.2 Prif nodau'r gwerthusiad o'r ail flwyddyn oedd gwerthuso:

- Pa mor effeithiol mae'r Cynnig yn cael ei ddarparu i blant a rhieni ac yn cynnig gwersi i lywio darpariaeth yn y dyfodol.
- Yr effaith y mae'r Cynnig yn ei chael ar gyflogadwyedd, llesiant ac incwm gwario rhieni.
- Effaith y Cynnig ar y sector gofal plant, gan edrych ar yr effaith ar wahanol fathau o ddarparwyr gofal plant i gyflawni, newidiadau i arferion busnes ac effaith ymyrraeth yn y farchnad gofal plant.

2.3 Roedd y gwerthusiad hefyd yn ceisio cael dealltwriaeth well o'r prosesau a chwestiynau ymchwil y gwerthusiad sydd wedi'u categorreiddio o dan y penawdau a nodwyd yn Nhabl 2.1. Darperir rhestr lawn yn Atodiad 1.

Tabl 2.1. Crynodeb o'r cwestiynau Ymchwil

Proses: Darparu:
• Cwestiynau'n ymwneud â gweithlu a chapasiti gofodau corfforol darparwyr gofal plant i gyflawni; mecanweithiau talu i ddarparwyr, a rôl cynlluniau grant cysylltiedig. • Cwestiynau'n ymwneud â pha mor hygyrch a hawdd yw hi i rieni gael mynediad at y Cynnig, a ph'un a gaiff gofynion rhieni eu diwallu.
Proses: Alinio
• Cwestiynau'n ymwneud ag aliniad rhwng darpariaeth gofal plant a darpariaeth Cyfnod Sylfaen y blynyddoedd cynnar.
Effaith: Canlyniadau anfwriadol
• Beth, os o gwbl, oedd canlyniadau anfwriadol y Cynnig i ddarparwyr, gan gynnwys ar broffidoldeb a chynaliadwyedd a darpariaeth FPN? • Beth, os o gwbl, oedd canlyniadau anfwriadol y Cynnig i rieni, gan gynnwys ar argaeledd gofal plant yn gyffredinol a'r ffioedd a godir?
Effaith: Cyflogaeth ac incwm
• A oes unrhyw effaith ar gyflogaeth rhieni wedi deillio o'r Cynnig, gan gynnwys dychwelyd i'r gwaith ac oriau a weithir?
Effaith: Tlodi
• A oes gan deuluoedd fwy o incwm gwario o ganlyniad i'r Cynnig?
Themâu ychwanegol
• Proffidoldeb a chynaliadwyedd darparwyr. • Gweithlu a chymwysterau. • Defnydd o'r ddarpariaeth gwyliau.

- 2.4 Yn ystod y gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf, dim ond mewn wardiau peilot ar draws chwe ardal (sef 7 awdurdod lleol yng Nghymru) yr oedd y Cynllun wedi'i gyflwyno. Yn ystod yr ail flwyddyn, cyflwynwyd y cynnig ar draws pob awdurdod lleol, ac roedd wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn mis Ebrill 2019.
- 2.5 Mae rhestr lawn o gwestiynau ymchwil y gwerthusiad o'r ail flwyddyn, ynghyd â rhestr o ganfyddiadau ymchwil y flwyddyn gyntaf, ar gael yn Atodiad A. Mae cwestiynau'r gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf hefyd yn cynnwys canfyddiadau cryno yn ymwneud â phob cwestiwn a gododd o werthusiad y flwyddyn gyntaf a'r dylanwad a gafodd y rhain ar gwestiynau ymchwil yr ail flwyddyn.

Trosolwg o fethodoleg

- 2.6 Defnyddiwyd dull cymysg ar gyfer y gwerthusiad, a oedd yn cynnwys sawl maes ymchwil. Mae'r Tabl isod yn cyflwyno trosolwg o wahanol feysydd o'r ymchwil.

Tabl 2.2. Trosolwg o'r fethodoleg

Cyfranogwr	Dull	Nifer yr ymatebwyr	Pryd
Cynrychiolwyr o bob awdurdod darparu ac awdurdod ymgysylltu sy'n cymryd rhan	Cymysgedd o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a ffôn (dwyrond)	22 awdurdod lleol	Mis Mawrth i fis Mai 2019 a mis Medi i fis Hydref 2019
Darparwyr Gofal Plant sy'n darparu'r Cynnig	Arolwg ar-lein	869	Mis Gorffennaf i fis Medi 2019
Darparwyr Gofal Plant sy'n darparu'r Cynnig	Cyfweiliadau ffôn	46	Mis Awst i fis Medi 2019
Rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig	Arolwg ar-lein	3,890	Mis Gorffennaf i fis Medi 2019
Rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig	Cyfweiliadau ffôn	18	Mis Awst i fis Hydref 2019

Cyfweiliadau gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru

- 2.7 Bu i Swyddogion Llywodraeth Cymru o'r tîm Gofal Plant aros mewn cysylltiad â'r tîm gwerthuso drwy gydol cyfnod gwerthuso'r ail flwyddyn. Rhoddodd y trafodaethau gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru gyfle i'r tîm gwerthuso roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y diweddaraf o ran canfyddiadau a datblygiadau gwerthuso, ac i

Lywodraeth Cymru roi gwybod i'r tîm gwerthuso am unrhyw ddatblygiadau'n ymwneud â chyflwyno'r Cynnig.

Cyfweliadau gyda chynrychiolwyr timau Cynnig yr awdurdodau lleol

- 2.8 Cynhaliwyd dwy rownd unigol o gyfweliadau gyda chynrychiolwyr timau Cynnig pob awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd y rownd gyntaf rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mai 2019, ac roedd yn cynnwys cymysgedd o gyfweliadau wyneb yn wyneb a chyfweliadau ffôn. Ar gyfer y rownd gyntaf hon, cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb gydag awdurdodau lleol newydd a oedd hefyd yn awdurdodau darparu. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda phob awdurdod lleol arall un ai wyneb yn wyneb neu ar y ffôn, yn ddibynnol ar yr hyn oedd fwyaf cyfleus i'r awdurdod lleol. Cynhaliwyd yr ail rownd o gyfweliadau dros y ffôn gydag awdurdodau lleol yn ystod mis Medi a mis Hydref 2019. Diben yr ail rownd hon oedd adrodd ar unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau a allai fod wedi digwydd ers y rownd gyntaf o gyfweliadau, ynghyd â rhoi cyfle i gynrychiolwyr awdurdodau lleol ddarparu safbwynt myfyriol ar unrhyw gyfleoedd neu faterion yn ymwneud â'u darpariaeth o'r Cynnig a oedd wedi codi yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol

Arolwg o rieni sy'n manteisio ar y Cynnig

- 2.9 Anfonwyd arolwg ar-lein i rieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig ar 16 Gorffennaf 2019, ac arhosodd ar agor i'w gwblhau tan 17 Medi 2019. Ar y pwynt hwnnw, caewyd mynediad at yr arolwg drwy'r dolenni cyhoeddus, a dechreuodd y gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau. Diben yr arolwg oedd casglu safbwyntiau rhieni ar y Cynnig, p'un a oedd wedi dylanwadu ar weithgarwch gwaith rhieni, a'i effaith ganfyddedig ar deuluoedd a phlant.
- 2.10 Anfonwyd e-bost gyda dolen at yr arolwg at gyfanswm o 15,919 o rieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig, a gafwyd o restr gysylltiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi'i seilio ar restr o rieni cofrestredig pob awdurdod lleol. Bu i 312 o e-byst fownsio'n ôl (gan fod y cyfeiriadau e-bost yn annilys neu'n hen), ac felly anfonwyd y ddolen at yr arolwg i 15,607 o rieni drwy e-bost. Yn ogystal, anfonwyd neges destun gyda dolen at yr arolwg i'r rhieni a oedd wedi rhoi rhifau ffôn symudol (14,711 o rieni). Anfonwyd dau e-bost atgoffa ar ôl y gwahoddiad cyntaf, er mwyn annog y gyfradd ymateb uchaf bosib. Cwblhaodd cyfanswm o 3,890 o rieni yr arolwg,

sy'n gyfwerth â chyfradd ymateb o 25 y cant. Mae'r gyfradd ymateb hon yn uwch na'r nifer ofynnol o 638 ymateb er mwyn cael cyfwng hyder o 5 y cant a lefel hyder o 99 y cant (yn seiliedig ar nifer yr arolygon a ddosbarthwyd).

Dadansoddiad o'r data ansoddol a meintiol a gasglwyd yn ystod y gwaith maes

- 2.11 Cafodd y data ansoddol a gasglwyd yn ystod y cyfweiliadau â rhieni, darparwyr a thimau Cynnig yr awdurdodau lleol eu hadolygu a'u codio'n wreiddiol yn unol â'r themâu cytunedig a nodwyd o'r cwestiynau ymchwil gwerthuso. Lluniwyd y codau hyn i ddarparu fframwaith dadansoddol ar gyfer yr ymchwil. Wedi hynny, trefnwyd y data a gasglwyd a'i grwpio o dan godau data cyfatebol yn y fframwaith. Defnyddiwyd y codau hyn i ffurfio themâu sy'n codi o'r data, ac yna fe aeth y tîm gwerthuso ati i'w dadansoddi a'u dehongli.
- 2.12 Lluniwyd holiaduron yr arolwg a ddosbarthwyd i rieni a darparwyr yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil cytunedig. Yna, cynhyrchwyd ystadegau disgrifiadol, a lle bo'n berthnasol, croes-dabliadau o'r data ansoddol a gasglwyd o'r arolygon. Cafodd y data ansoddol a gasglwyd o'r arolygon eu codio a'u dadansoddi gan ddefnyddio'r un dull â'r un a amlinellir uchod ar gyfer data ansoddol.

Dadansoddiad o ddata monitro

- 2.13 Caiff data monitro ar deuluoedd sy'n manteisio ar y Cynnig ei gyflwyno gan bob awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad o'r data hwn i archwilio nifer y plant sy'n manteisio ar y Cynnig, proffil cyflog y teuluoedd, a'r oriau o ofal plant sy'n cael eu harchebu a'u defnyddio o dan y Cynnig.

Tabl 2.3. Ymatebion i arolwg y rhieni yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer yr ymatebion	Canran y sail ymateb (%)
Blaenau Gwent	76	2
Pen-y-bont ar Ogwr	71	2
Caerffili	291	7
Caerdydd	424	11
Sir Gaerfyrddin	122	3
Ceredigion	84	2
Conwy	197	5
Sir Ddinbych	177	5
Sir y Fflint	356	9
Gwynedd ac Ynys Môn	352	9
Merthyr Tudful	56	1
Sir Fynwy	99	3
Castell-nedd Port Talbot	142	4
Casnewydd	257	7
Sir Benfro	73	2
Powys	161	4
Rhondda Cynon Taf	224	6
Abertawe	174	4
Torfaen	124	3
Bro Morgannwg	163	4
Wrecsam	267	7
Cyfanswm	3,890	100

Ffynhonnell: Arolwg y rhieni 2019

Cyfweliadau gyda rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig

- 2.14 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 18 o rieni a oedd wedi manteisio ar y Cynnig. Dewiswyd sampl o rieni ar hap o restrau cyswllt rhieni awdurdodau lleol, ac fe'u haenwyd yn ôl yr awdurdod lleol, gyda'r nod o gyflawni lledaeniad daearyddol da. Dewiswyd cyfanswm o 126 o rieni a'u gwahodd am gyfweliad, a arweiniodd at drefnu a chynnal 18 cyfweliad dros y ffôn. Anfonwyd neges i atgoffa pob rhiant drwy neges destun wythnos ar ôl y cyswllt cyntaf os na dderbyniwyd ateb. Cynhaliwyd yr elfen hon o'r gwaith maes rhwng canol mis Awst a chanol mis Hydref 2019. Cynhaliwyd cyfweliad gydag o leiaf un rhiant o 17 awdurdod lleol ledled Cymru. Roedd y

cyfweiliadau'n dilyn strwythur a chynnwys tebyg i'r arolwg ar-lein, ac fe'u defnyddiwyd fel cyfle i archwilio ymhellach y themâu amrywiol a gododd o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein.

Arolwg o'r darparwyr gofal plant a oedd yn darparu'r Cynnig

- 2.15 Anfonwyd arolwg ar-lein i ddarparwyr a oedd yn darparu'r Cynnig ar 10 Gorffennaf 2019, ac roedd yn agored i'w lenwi tan 17 Medi. Ar y pwynt hwnnw, caewyd mynediad at yr arolwg drwy'r dolenni cyhoeddus, a dechreuodd y gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau. Roedd cwestiynau'r arolwg yn canolbwyntio ar y gyfathrebiaeth a dderbyniodd darparwyr gan awdurdodau lleol a hyrwyddo'r Cynnig, dylanwad y Cynnig ar ddarpariaeth y darparwr, ac unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth a gynigir, ynghyd ag effaith y Cynnig ar gynaliadwyedd darparwyr a'r gwersi a ddysgwyd.
- 2.16 Anfonwyd yr arolwg drwy e-bost at 2,473 o ddarparwyr a oedd yn darparu'r Cynnig, a gafwyd o restr gysylltiadau o ddarparwyr cofrestredig yr oedd awdurdodau lleol wedi'u llunio a'u rhoi i Lywodraeth Cymru. Bu i 41 o e-byst fownsio'n ôl (gan fod y cyfeiriadau e-bost yn annilys neu'n hen), ac felly anfonwyd y ddolen at yr arolwg at 2,432 o ddarparwyr drwy e-byst. Yn ogystal, anfonwyd neges destun gyda dolen at yr arolwg at y darparwyr a oedd wedi rhoi rhifau ffôn symudol (1,271 o ddarparwyr). Anfonwyd dau e-bost atgoffa ar ôl y gwahoddiad cyntaf, er mwyn annog y gyfradd ymateb uchaf bosib. Drwy hyn, cwblhaodd cyfanswm o 869 o ddarparwyr yr arolwg, sy'n gyfwerth â chyfradd ymateb o 36 y cant. Mae'r gyfradd ymateb hon yn uwch na'r nifer ofynnol o 523 ymateb er mwyn cael cyfwng hyder o 5 y cant a lefel hyder o 99 y cant (yn seiliedig ar nifer yr arolygon a ddosbarthwyd). Mae dadansoddiad o nifer yr ymatebion a gafwyd gan y darparwyr yn erbyn yr awdurdod lleol maent wedi cofrestru â nhw i ddarparu'r Cynnig i'w weld yn Nhabl 2.4

Tabl 2.4. Cyfraddau ymateb i arolwg y darparwyr yn seiliedig ar yr awdurdodau lleol mae darparwyr wedi cofrestru â nhw.

Awdurdod lleol	Nifer yr ymatebion	Canran y sail ymateb (%)
Blaenau Gwent (sydd hefyd yn darparu ar ran Torfaen)	52	6
Caerffili	57	7
Caerdydd	79	9
Ceredigion (sydd hefyd yn darparu ar ran Sir Gaerfyrddin, Powys a Sir Benfro)	138	16
Sir y Fflint (sydd hefyd yn darparu ar ran Wrecsam a Sir Ddinbych)	183	21
Gwynedd/Ynys Môn (sydd hefyd yn darparu ar ran Conwy)	144	17
Castell-nedd Port Talbot	38	4
Casnewydd (sydd hefyd yn darparu ar ran Bro Morgannwg a Sir Fynwy)	136	16
Rhondda Cynon Taf (sydd hefyd yn darparu ar ran Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr)	85	10
Abertawe	26	3
Cyfanswm	869*	

**Gan fod rhai darparwyr wedi'u cofrestru â mwy nag un awdurdod lleol, mae llawer o'r ymatebwyr wedi ticio sawl opsiwn.*

Ffynhonnell: Arolwg y darparwyr 2019

Cyfweliadau gyda darparwyr gofal plant


- 2.17 Cynhaliwyd cyfanswm o 46 cyfweliad ffôn gyda darparwyr gofal plant a oedd wedi'u cofrestru ar y pryd ac a oedd yn darparu'r Cynnig. Roedd chwech ohonynt yn gyfweliadau dilynol gyda darparwyr a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad o flwyddyn gyntaf y Cynnig, ac roedd y 40 darparwr arall yn gyfweliadau newydd ar gyfer y gwerthusiad o'r ail flwyddyn. Roedd 11 o'r rhain yn warchodwyr plant; 16 yn lleoliadau gofal diwrnod llawn; 10 yn lleoliadau sesiynol, a 3 yn ddarparwyr y tu allan i'r ysgol.
- 2.18 Deilliodd 40 o'r darparwyr y cysylltwyd â nhw o'r newydd o sampl o 183 o ddarparwyr a ddewiswyd ar hap o restrau cyswllt darparwyr yr awdurdodau lleol. Gwnaed y cyswllt cyntaf drwy e-bost, ac yna anfonwyd neges destun ac e-bost i atgoffa (yn ddibynnol ar p'un a ddarparwyd rhif symudol ai peidio) yr wythnos ganlynol i'r rhai nad oeddent wedi ymateb. Roedd y cyfweliadau'n dilyn fformat cwestiynau tebyg i'r arolwg

o'r darparwyr, ond y tro hwn roedd cyfle i archwilio ymhellach rai o'r themâu a gododd o ganlyniadau'r arolwg.

- 2.19 Dewiswyd sampl o 20 darparwr a oedd wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad o flwyddyn gyntaf y Cynnig er mwyn cysylltu â nhw am gyfweliad, gan eu bod wedi crybwyll materion yn ystod eu cyfweliad yn y flwyddyn gyntaf yr ystyriwyd bod werth ail-gysylltu â nhw yn eu cylch. Mae enghraifft o'r materion hyn yn cynnwys eu bod wedi gwneud newidiadau yn ddiweddar/yn bwriadu gwneud newidiadau i ddarpariaeth ar adeg y cyfweliad blwyddyn gyntaf. O'r 20 darparwr y cysylltwyd â nhw i'w cyfweld, ymatebodd chwe darparwr i gymryd rhan.
- 2.20 Aeth Arad hefyd i ddigwyddiadau, er mwyn arsylwi yn bennaf, ond hefyd i roi diweddariad i'r rhai a oedd yn bresennol am gynlluniau a chynnydd yn ymwneud â'r broses werthuso. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod Cymru gyfan i dimau Cynnig awdurdodau lleol, ynghyd â chynhadledd i ddarparwyr gofal plant mewn un awdurdod lleol.

3. Gweithredu'r Cynnig

- 3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ynghylch sut mae'r Cynnig yn cael ei weithredu gan yr awdurdodau lleol, ac yn archwilio'r materion allweddol o ran gweinyddu elfen gofal plant y Cynnig. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar gyfweiliadau ansoddol gyda phartneriaethau'r Cynnig Gofal Plant o bob un o'r 22 awdurdod lleol (gweler Adran 2 am ragor o fanylion am y fethodoleg).



Gweithredu'r Cynnig yn yr ail flwyddyn gan awdurdodau lleol

- 3.2 Mae'r broses barhaus o gyflwyno'r Cynnig yn yr ail flwyddyn wedi bod yn gymharol ddiraffferth heb unrhyw broblemau mawr. Talwyd teyrnged gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle cyflwynwyd y Cynnig am y tro cyntaf yn ystod yr ail flwyddyn i waith yr awdurdodau a fu'n gweithredu'r Cynnig yn gynnar yn y flwyddyn gyntaf am y wybodaeth a'r cymorth a gynigiwyd ganddynt i awdurdodau newydd.
- 3.3 Mae'n ymddangos bod y broses o weithio fel partneriaethau sy'n cynnwys un awdurdod darparu yn cefnogi un neu fwy o awdurdodau ymgysylltu eraill hefyd yn gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, cafwyd rhai problemau cychwynnol wrth sefydlu perthynas waith newydd rhwng awdurdodau lleol darparu ac ymgysylltu, yn enwedig o ran cydnawsedd systemau a threfniadau rhannu data. Mewn rhai ardaloedd, arweiniodd hyn at ddefnydd tymor byr o brosesau casglu a rhannu gwybodaeth ar bapur tra bod systemau cydnaws yn cael eu datblygu.
- 3.4 Mae'r gydberthynas rhwng rhai awdurdodau lleol darparu ac ymgysylltu wedi bod yn araf yn datblygu mewn rhai ardaloedd, yn enwedig rhwng awdurdodau nad oeddent wedi gweithio'n agos â'i gilydd yn y gorffennol. Mae rhai enghreifftiau hefyd o ddiffyg eglurder o ran lle mae'r ffin rhwng awdurdodau darparu a chyflenwi o ran tasgau a chyfrifoldebau. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â thasgau a chyfrifoldebau o ran ymdrin ag ymholiadau gan rieni a darparwyr gofal plant. Nododd rhai awdurdodau ymgysylltu fod hyn yn aml wedi arwain at lwythi gwaith uwch nag a ragwelwyd ar y dechrau. Er enghraifft, nododd awdurdodau ymgysylltu mai eu disgwyliad nhw oedd na fyddent ond yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig a darparu gwybodaeth i ddarparwyr a rhieni hyd nes cyrraedd y pwynt lle byddent yn cytuno, naill ai i ddarparu elfen gofal plant y Cynnig (darparwyr) neu i fanteisio ar ofal plant wedi'i ariannu a gefnogir gan y Cynnig (rhieni). Fodd bynnag, nododd rhai o'r awdurdodau ymgysylltu bod darparwyr yn cysylltu â nhw'n aml gydag ymholiadau yn ymwneud â thaliadau ariannu ac ymholiadau gan rieni am eu cais am gyllid. Roedd awdurdodau ymgysylltu a oedd wedi profi hyn yn ymwybodol bod rhieni a darparwyr yn awyddus i gysylltu â rhywun o'r awdurdod lleol lle roeddent wedi'u lleoli i drafod unrhyw faterion a allai fod ganddynt. Fodd bynnag, yr her i awdurdodau ymgysylltu yn y sefyllfa hon oedd nad oeddent yn gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth angenrheidiol i ateb pryderon ynghylch prosesau cais unigol neu sefyllfaoedd ariannu unigol, gan mai'r awdurdod

darparu oedd â'r wybodaeth hon ar gyfer yr ardal. Mewn llawer o achosion, roedd yr awdurdodau ymgysylltu yn cysylltu â'r awdurdod darparu ar ran y rhiant neu'r darparwr er mwyn datrys y mater – a dyma oedd yn ychwanegu at y baich gweinyddol.

- 3.5 Cydnabuwyd hefyd nad oedd pob ymholiad a dderbyniwyd gan bartneriaid ymgysylltu neu ddarparu yn canolbwyntio'n benodol ar faterion ymgysylltu neu ddarparu. Er enghraifft, gallai ymholiad cychwynnol gan riant yn ymwneud ag argaeledd darpariaeth gofal plant lleol (ymholiad ymgysylltu) arwain at ymholiadau pellach yn ystod yr un drafodaeth am bwyntiau penodol yn ymwneud â'u proses ymgeisio (ymholiad darparu). Roedd awdurdodau ymgysylltu'n cydnabod bod delio ag ymholiadau aml-bwnc fel hyn yn rhywbeth anochel i raddau helaeth, er ei fod yn gallu bod yn rhwystredig ar brydiau.
- 3.6 Mae rhai awdurdodau ymgysylltu (e.e. Conwy) wedi diweddarau eu systemau i fod yn gydnaws â'r system a ddefnyddir gan yr awdurdod darparu (Ynys Môn a Gwynedd), tra bod tri awdurdod darparu arall wedi prynu'r system a ddefnyddiwyd gan un o'r awdurdodau gweithredu yn y flwyddyn gyntaf.
- 3.7 Mae'r baich gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig yn dal i beri pryder i rai awdurdodau. Fodd bynnag, croesawyd y cyhoeddiad y bydd y Cynnig yn cael ei weinyddu a'i weithredu ar lefel Cymru gyfan, yn enwedig gan ei fod yn cael ei weld fel ffordd o gynnal arbenigedd lleol a chysylltiadau â'r sector gofal plant.

Ymgysylltu â darparwyr gofal plant

- 3.8 Mae pob awdurdod yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i ddarparwyr gofal plant yn eu hardaloedd ac, yn gyffredinol, ni nododd awdurdodau lleol unrhyw broblemau sylweddol o ran ymgysylltu â darparwyr. Roedd hon yn dasg allweddol ar gyfer yr awdurdod darparu a'r awdurdod ymgysylltu, ac roeddent yn adeiladu ar gysylltiadau gwaith hirsefydlog â'r sector. Adroddodd cyfweleion eu bod bellach mewn cysylltiad â nifer fwy o ddarparwyr gofal plant yn eu hardal o ganlyniad i'r grantiau bach, cyfarfodydd rhwydweithio ac ymholiadau'r Cynnig.
- 3.9 Cyn i'r Cynnig fynd yn fyw yn eu hardal yn ystod yr ail flwyddyn, canolbwyntiodd yr awdurdodau lleol newydd ar godi ymwybyddiaeth ac annog darparwyr (a rhieni) i

gofrestru. Roedd rhywfaint o hyn ar ffurf cyfathrebu cyffredinol am y Cynnig drwy ddatganiadau i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol a stondinau mewn digwyddiadau, tra bod cyswllt â darparwyr wedi digwydd yn bennaf drwy gyfarfodydd rhwydweithio.

- 3.10 Mae rhai awdurdodau wedi cyflogi swyddog ymgysylltu penodedig sydd â'r cyfrifoldeb o gadw mewn cysylltiad â'r holl ddarparwyr gofal plant yn eu hardal sy'n delio'n uniongyrchol ag ymholiadau ac yn annog cyfranogiad. Mae'n ymddangos bod hyn wedi gweithio'n dda. Nododd un awdurdod lleol darparu, lle roedd y Cynnig yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn ystod 2018-19, eu bod yn ymwybodol bod ardaloedd awdurdodau darparu ac ymgysylltu eraill a oedd wedi gwahodd darparwyr i ddigwyddiadau rhwydweithio lleol yn dweud bod hyn wedi bod yn ffordd lwyddiannus o annog darparwyr lleol i ymrwmo i ddarparu'r Cynnig. Fodd bynnag, o gofio bod ardal eu hawdurdod lleol yn un wledig yn bennaf a bod y boblogaeth ar wasgar, roedd hi'n anodd trefnu digwyddiadau mewn lleoliadau oedd yn gyfleus i bawb, neu hyd yn oed lle roedd hi'n bosib i lawer o ddarparwyr ddod i ddigwyddiad ar yr un pryd. Roeddent yn pryderu felly y gallent wynebu heriau o ran ymgysylltu â darparwyr er mwyn eu hannog i gofrestru. Fodd bynnag, mae penodi swyddog ymgysylltu penodedig wedi galluogi'r tîm ymgysylltu yn yr awdurdod i gynnal cysylltiad agos un i un gyda'r holl ddarparwyr gofal plant yn yr ardal drwy neilltuo amser ac adnoddau'r swyddog i ymweld â darparwyr yn eu lleoliadau eu hunain yn hytrach na'u hannog i ddod i ddigwyddiadau. Yn eu barn nhw, mae hyn wedi bod yn ffactor allweddol o ran sicrhau bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn yr ardal bellach wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig.
- 3.11 Er i'r rhan fwyaf o leoliadau gofrestru i ddarparu'r Cynnig yn ystod cyfarfodydd rhwydweithio, cofrestrai darparwyr eraill pan fyddai rhieni'n dod atynt neu pan fyddai'r plant yn eu gofal yn agosáu at gyrraedd tair oed.
- 3.12 Roedd nifer fach o'r lleoliadau'n amharod i gofrestru yn y cyfnod cyn y Cynnig am un o ddau reswm; naill ai am fod yr ad-daliad o £4.50 yr awr am elfen gofal plant y Cynnig yn is na'u ffi arferol fesul awr neu, yn enwedig yn achos gwarchodwyr plant, bod y syniad o drefniadau gweinyddu a chyllido ffurfiol yn eu rhwystro rhag cofrestru. Bu awdurdodau lleol yn cysylltu â'r darparwyr hyn yn ystod y cyfnod cyn y Cynnig, gan eu helpu gyda gwaith papur neu ddarparu cymorth busnes. Yn ogystal, roedd yr

awdurdodau'n dueddol o esbonio wrth leoliadau a oedd yn ystyried peidio â chofrestru, y gallai hyn fod yn risg busnes posib ac y gallai cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid ddewis defnyddio lleoliadau eraill lle'r oedd gofal plant wedi'i ariannu ar gael. Yn ystod y cyfweiliadau ar gyfer y gwerthusiad hwn, ac yn dilyn lansio'r Cynnig yn lleol, nid oedd yr un o'r awdurdodau lleol yn ymwybodol o unrhyw leoliadau gyda phlant cymwys a ddewisodd beidio â derbyn llefydd gofal plant wedi'u hariannu.

- 3.13 Nodwyd rhai heriau o ran cael darparwyr i ddeall bod angen iddynt ymgysylltu ag awdurdod lleol arall heblaw eu hawdurdod nhw er mwyn darparu'r Cynnig. Adroddodd awdurdodau lleol ymgysylltu y byddent yn cael ymholiadau'n rheolaidd ynglŷn â'r Cynnig yn ystod cyswllt arferol gyda lleoliadau gofal plant, er enghraifft wrth ddarparu cymorth busnes. Fel arfer, ni fyddai'r awdurdod ymgysylltu yn gallu ateb ymholiadau o'r fath, hyd yn oed rhai hawdd, gan nad oeddent yn gyfarwydd â'r trefniadau adrodd rhwng y lleoliad a'r awdurdod darparu.
- 3.14 Roedd ymholiadau'n codi'n aml ynghylch strwythurau ffioedd, gan gynnwys taliadau ychwanegol, ac esboniodd yr awdurdodau lleol darparu eu bod wedi gorfod gofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar sawl agwedd ar daliadau a ffioedd.
- 3.15 Mae awdurdodau lleol yn adrodd bod eu lleoliadau yn fodlon, ar y cyfan, gyda'r gyfradd gofal plant o £4.50 yr awr, ond bod disgwyliad y bydd y gyfradd honno'n codi'n fuan, ac y bydd rhai darparwyr yn dewis peidio â chymryd rhan yn y Cynnig os nad yw hynny'n digwydd.

'Rydyn ni bellach wedi cyrraedd pwynt lle, os nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd i adolygu a chodi'r cyfraddau, ein bod yn mynd i ddechrau gweld darparwyr yn dweud nad ydyn nhw'n gallu fforddio gwneud hynny. Rwy'n credu eu bod wedi bod yn barod hyd yma, ond mae pen draw ar eu parodrwydd a'u gallu i gymryd ergyd ariannol'. (Awdurdod darparu)

Ymgysylltu â rhieni

- 3.16 Mae ymateb i ymholiadau rhieni, cyfleu'r Cynnig i rieni, a chefnogi'r lleoliadau gofal plant i wneud hynny, yn dasg allweddol i bob awdurdod. Fel arfer, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol lle roedd y rhiant yn byw oedd yn ymdrin

ag ymholiadau cychwynnol am y Cynnig, megis cymhwysedd neu argaeledd, cyn cael eu trosglwyddo i dimau Gofal Plant y Cynnig ar gyfer ymholiadau manylach yn ymwneud â'r ceisiadau eu hunain. Roedd nifer fawr o'r ymholiadau cyffredinol a manylach a gafwyd yn ymwneud â chymhwysedd, yn enwedig gan rieni hunangyflogedig, busnesau teuluol neu rieni nad ydynt wedi derbyn slipiau cyflog.

- 3.17 Mae gwirio cymhwysedd rhieni yn dal i fod mor llafurus ag yr oedd yn y flwyddyn gyntaf. Sicrhau tystiolaeth o gymhwysedd cyflogaeth ar gyfer unigolion hunangyflogedig yw'r brif her yn dal i fod. Mewn rhai ardaloedd gwledig lle mae cyfran gymharol fawr o rieni yn hunangyflogedig, gall hyn fod yn arbennig o heriol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar gymhwysedd, ond byddai awdurdodau lleol a rhieni yn croesawu mwy o arweiniad a hyfforddiant.
- 3.18 Os ydynt yn gymwys i gael y Cynnig, mae rhieni fel arfer yn gwneud cais ar-lein (er bod rhai awdurdodau darparu hefyd yn delio â cheisiadau papur), a'r awdurdod darparu sy'n prosesu'r cais. Rhaid i geisiadau gael eu hategu gan dystiolaeth o gymhwysedd ar ffurf copi wedi'i sganio o dystysgrif geni a slipiau cyflog, a gallai hyn fod yn rhwystr i rai rhieni sydd heb y gallu i wneud hyn. Dau faes arall o ddryswch a welwyd gan awdurdodau lleol oedd, deall sut yr oedd y Cynnig yn effeithio ar ofal plant di-dreth a chymorth ariannol gofal plant arall, e.e. credydau treth, a'r ail oedd deall y gwahaniaeth rhwng elfen addysg gynnar ac elfen gofal plant y Cynnig a faint o oriau y gellid eu defnyddio ac ym mhle. Yn fwy sylfaenol, roedd rhai awdurdodau wedi gweld enghreifftiau o rieni a oedd wedi cael trafferth i wneud cais am y Cynnig gan eu bod wedi ceisio defnyddio'r wefan ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn Lloegr.
- 3.19 Ar ôl cael y Cynnig, yr ardal a berodd y mwyaf o ddryswch i rieni (a rhai darparwyr) oedd yr hawl i ofal plant yn ystod y gwyliau. Mae gan blant sy'n dechrau manteisio ar y Cynnig yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd (rhwng mis Medi a mis Rhagfyr) yr hawl i gael 30 awr o ofal plant yn ystod naw o'r 13 wythnos o wyliau ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol honno. Mae gan blant sy'n dechrau manteisio ar y Cynnig yn ystod tymor y gwanwyn (rhwng mis Ionawr a mis Mawrth/Ebrill) hawl i gael 30 awr o ddarpariaeth gofal plant am chwe wythnos o'r gwyliau ysgol sy'n weddill hyd at fis Medi y flwyddyn honno. Mae gan blant sy'n dechrau manteisio ar y Cynnig yn ystod tymor yr haf (rhwng mis Ebrill/Mai a mis Gorffennaf) hawl i gael 30 awr o ofal plant a

ariennir am dair o'r wythnosau sy'n weddill o wyliau ysgol hyd at fis Medi y flwyddyn honno.

- 3.20 Mae rhieni'n dal i fod yn ddryslyd ynglŷn â'r lwfans naw, chwe a thair wythnos yn dibynnu ar pryd mae eu plentyn yn dechrau'r Cynnig ac mae 'esbonio'r polisi a'r broses i rieni wedi bod yn heriol'. Y brif broblem a nodwyd gan awdurdodau lleol yw y gall diffyg dealltwriaeth darparwyr a rhieni ynghylch hawl yn ystod y gwyliau arwain at hawliadau ac archebion anghywir, sy'n ychwanegu at faich gweinyddol awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol wedi mireinio eu gohebiaeth i rieni er mwyn egluro sut a phryd i ddefnyddio'r wythnosau gwyliau, ond maent wedi sylwi ei bod yn bosib bod tuedd ymysg rhieni i gynllunio dros gyfnod byrrach yn hytrach na thros y flwyddyn academiaidd gyfan, sy'n golygu bod rhieni yn defnyddio eu hwythnosau gwyliau yn gynnar ac yn synnu pan mae'n rhaid iddynt dalu am ofal plant yn ystod gwyliau'r haf tuag at ddiwedd y flwyddyn academiaidd.
- 3.21 Mae awdurdodau lleol wedi defnyddio nifer o lwyfannau gwahanol er mwyn hysbysu rhieni am y Cynnig, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, eu gwefannau, digwyddiadau, a rhannu gwybodaeth drwy ddarparwyr addysg. Nododd y rhan fwyaf o'r awdurdodau fod mwy o ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymhlith rhieni wrth iddynt siarad â'i gilydd. Mae ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol wedi cael ei lansio o'r newydd (Hydref 2019) gan Lywodraeth Cymru i annog pobl i fanteisio ar y Cynnig, ac mae'n cynnwys hysbysebion radio, teledu, ar-lein a phecyn cymorth er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyfathrebu. Fodd bynnag, ar adeg cynnal cyfweiliadau â'r awdurdodau lleol, nid oedd yr ymgyrch farchnata Cymru-gyfan wedi'i lansio eto. Er hynny, roedd cyfweleion o'r farn y byddai hyn yn ychwanegiad defnyddiol i'w dulliau cyfathrebu lleol nhw ac yn cyrraedd y rhieni hynny nad ydynt yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd.
- 3.22 Roedd rhai awdurdodau lleol yn mynd ati'n gynyddol i dargedu eu hymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu â rhieni, er enghraifft gwnaed gwaith ymchwil i nodi codau post lle'r oedd llai o blant na'r disgwyl yn manteisio ar y Cynnig a buddsoddwyd amser i fynd i ddigwyddiadau neu i dargedu marchnata yn yr ardaloedd hynny. Roedd rhai awdurdodau lleol yn cysylltu ag ymgynghorwyr rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), canolfannau gwaith a chydweithwyr cyflogadwyedd awdurdodau

lleol. Fodd bynnag, camau cynnar y broses o gefnogi'r daith ehangach i gyflogaeth a gofal plant oedd yr ymdrechion hyn gan mai lansio'r Cynnig a chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol oedd eu prif ffocws.

Grant Cynhaliaeth Ychwanegol

- 3.23 Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn Grant Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gwerth £670,000³ i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn gynhwysol i blant cymwys sydd ag AAA. Y bwriad yw y bydd yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i gael gwared ar y rhwystrau posib sy'n atal rhieni â phlant sydd, yn eu barn nhw, ag AAA neu sydd wedi'u hadnabod fel plant ag anghenion AAA.
- 3.24 Dywedodd llawer o awdurdodau lleol eu bod wedi tanwario neu'n debygol o danwario ar y grant hwn (er nad yw hynny'n wir ym mhob man). Dywedodd un awdurdod lleol mai dim ond un rhan o ddeg o'r gyllideb a oedd ar gael yr oedden nhw wedi'i gwario, ac roeddent o'r farn bod 'y canllawiau'n amwys iawn' felly eu bod wedi bod yn wylidwrus ac yn ansicr ynghylch sut y dylid defnyddio'r gyllideb. Roedd y diffyg sicrwydd hwn yn thema gyffredin, gydag awdurdodau lleol yn pryderu am osod cynsail o ran cyllid ar gyfer lefel o gymorth na fyddai'n gynaliadwy ar gyfer taith plentyn drwy addysg.
- 3.25 Lle mae'r grant AAA wedi cael ei hawlio, fe'i defnyddiwyd ar gyfer cymorth un i un a rhywfaint o waith hyfforddi cysylltiedig. Yn gynyddol, mae awdurdodau lleol yn mynd ati i ddefnyddio'r un trefniadau ag sydd ar waith ar gyfer Dechrau'n Deg ac addysg gynnar. Adroddodd llawer o awdurdodau eu bod yn cynnull panel i benderfynu ar y grant Gofal Plant AAA a chymorth AAA i'w hariannu o gyllidebau eraill. Roedd un awdurdod lleol yn croesawu'r cyfleoedd a ddaeth yn sgil cydweithio â'i awdurdod darparu, ac yn nodi eu bod wedi creu canlyniadau cadarnhaol o ran rhannu mwy o syniadau a phrofiadau ynglŷn â sut i ddefnyddio a dyrannu'r gyllideb AAA yn y ffordd fwyaf effeithiol.

³ Llywodraeth Cymru (2018). [Cyllid newydd i sicrhau bod plant ag AAA yn elwa o Gynnig Gofal Plant Cymru](#) [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2019].

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 3.26 Sylwodd llawer o awdurdodau lleol fod y cynnig wedi bod yn gadarnhaol i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardal. Mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio eu grantiau cyfalaf i fuddsoddi mewn darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar, gan ei ystyried fel cyfle i ymateb i fylchau a nodwyd mewn Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac i gysylltu â'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- 3.27 Nododd un ardal awdurdod lleol fod bron pob un o'u Cylchoedd Meithrin⁴ wedi cynyddu eu darpariaeth naill ai drwy agor am oriau hirach yn ystod y dydd neu agor yn ystod gwyliau ysgol, a nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill fod rhai o'u Cylchoedd wedi cynyddu eu horiau neu wedi mynd o ofal plant sesiynol i ofal dydd llawn. Effaith hyn oedd gwneud llawer o'r Cylchoedd hynny'n fwy cynaliadwy a chynyddu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, dywedodd cyfweleion awdurdodau lleol, er bod y capasiti a'r argaeledd wedi cynyddu yn rhai o'r lleoliadau cyfrwng Cymraeg, fod lleoliadau eraill wedi mynegi pryderon bod yr oriau estynedig yn y Cylchoedd, sy'n tueddu i fod â ffioedd is, yn creu cystadleuaeth ychwanegol a allai effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) sy'n bodoli eisoes.

Grant cyfalaf a chynlluniau grantiau bach

- 3.28 Yn ogystal â'r Cynnig, dyrannodd Llywodraeth Cymru raglen buddsoddi cyfalaf gofal plant gwerth £81 miliwn, i redeg am dair blynedd rhwng 2018 a 2021. Prif ddiben y rhaglen gyfalaf yw hwyluso a chefnogi'r gwaith o gydleoli darpariaeth FPN a darpariaeth gofal plant lle bynnag y bo'n bosib. Gwnaed ceisiadau ar sail awdurdodau lleol cyfan.
- 3.29 Mae pob lleoliad sy'n cynnig llefydd Gofal Plant drwy'r Cynnig, neu sy'n bwriadu cynnig llefydd, yn gymwys i wneud cais am Grant Cyfalaf Cynllun Grantiau Bach. Bwriad y grant hwn yw cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd lleoliadau, a gellir ei ddyfarnu i leoliadau i'w galluogi i gynyddu nifer y llefydd y maent yn gallu eu cynnig, i

⁴ Mae pob cyfeiriad at 'Gylch Meithrin' yn yr adroddiad hwn yn golygu cylch chwarae cyfrwng Cymraeg.

wella ansawdd y cyfleusterau sydd ganddynt, i ostwng ystod oedran eu darpariaeth i gynnwys plant tair a phedair oed ac i wneud gwaith cyfalaf amrywiol megis gwella'r cyfleusterau chwarae awyr agored ac atgyweirio neu adnewyddu gosodion a chyfarpar.

- 3.30 Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a gyfwelwyd wedi sicrhau grant cyfalaf. Gwnaethpwyd sylwadau mai ychydig o amser oedd i wneud cais, ond bod y sefydliad ambarél, sef Cwlwm, wedi cefnogi'r broses yn dda. Grantiau yw'r rhain ar gyfer ariannu llefydd gofal plant ychwanegol newydd mewn ysgolion a phrosiectau cyd-leoli amrywiol sydd, mewn rhai achosion, yn gysylltiedig â rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif ac yn cael eu cefnogi gan y rhaglen honno hefyd.
- 3.31 Mewn cyfweiliadau ag awdurdodau lleol yn ystod haf a hydref 2019, nodwyd mai dyddiau cynnar oedd hi o ran y cynllun grantiau bach a bod awdurdodau wedi cael cyllid ond nad oedd rhai wedi dyfarnu'r cylch ariannu cyntaf i'r cynlluniau yn eu hardal eto. I'r rheini a oedd wedi dyfarnu cyllid y cylch cyntaf, roedd hyn wedi'i ddefnyddio mewn sawl achos i gynyddu neu wella'r gofod awyr agored mewn meithrinfeydd i blant allu eu defnyddio, a dywedodd cyfweleion eu bod wedi gweithio'n agos gyda lleoliadau a phartneriaid i sicrhau bod ymwybyddiaeth dda o'r grantiau a bod ceisiadau wedi dod i law gan amrywiaeth o leoliadau o ran math a maint.
- 3.32 Yn ystod 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru ddau Grant Gofal Plant Busnes Cymru⁵ ar wahân hefyd. Mae'r Grant Busnes Gofal Plant newydd (hyd at £500) ar gael i gynnig rhywfaint o gymorth ariannol i dalu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â dechrau busnes gwarchod plant tra bod y grant gweithwyr newydd (hyd at £2,000 i bob gweithiwr) yn ceisio annog creu swyddi newydd yn y sector gofal plant. Mae gofyn i ymgeiswyr y ddau grant gofrestru gyda Busnes Cymru, ac maent yn ffordd i Fusnes Cymru gyrraedd a darparu cymorth busnes i'r sector.

Darpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen

- 3.33 Mae'r Cynnig yn cynnwys cyfuniad o'r ddarpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen (FPN) bresennol sy'n agored i bob plentyn rhwng tair a phedair oed o'r tymor ar ôl eu

⁵ Busnes Cymru. (2019). [Grant Gofal Plant](#). [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2019].

trydydd pen-blwydd, a gofal plant a ariennir yn ychwanegol. Mae cyflwyno'r Cynnig wedi amlygu materion sy'n ymwneud â'r ffordd mae'r FPN yn alinio ag elfen gofal plant y Cynnig:

- Y cyfraddau talu gwahanol ar gyfer darparu FPN;
- Yr amrywiaeth o ran yr oriau o ddarpariaeth FPN a ddarperir ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, yn ogystal ag ar draws gwahanol leoliadau yn yr un awdurdod lleol;
- Gwahaniaethau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol o ran yr oedran pan fydd plant yn gymwys i gael FPN;

- 3.34 O dan y Cynnig, dim ond am yr oriau sy'n weddill o'r 30 sydd heb eu cynnwys mewn darpariaeth FPN y mae plant yn gymwys i gael gofal plant a ariennir. O ganlyniad, mae rhai rhieni yn gymwys i gael 15 awr o ofal plant yr wythnos, eraill yn gymwys i gael 12.5 awr a rhai yn gymwys i gael cymaint ag 20 awr. Gall nifer yr oriau o ddarpariaeth FPN a ddarperir (ac felly nifer yr oriau o ofal plant a ariennir sydd ar gael) amrywio rhwng sesiynau bore a phrynhawn yn yr un lleoliad, a gall hefyd newid os yw plentyn yn symud o un lleoliad darparu FPN i un arall. Er enghraifft, gall plant gael 10 awr o FPN1 mewn Cylch Meithrin yn ystod tymor yr haf, ond yna gael 12.5 awr o ddarpariaeth FPN yn yr ysgol ym mis Medi. Gallant ddal i fod yn gymwys i gael y Cynnig gofal plant yn ystod yr holl amser hwn, ond bydd yr oriau o ofal plant y mae ganddynt hawl i'w cael yn wahanol.
- 3.35 Mae'n rhaid i bartneriaeth yr awdurdod lleol gadw golwg ar yr holl amrywiadau o ran y ddarpariaeth FPN a ddefnyddir gan blant a gefnogir gan y Cynnig er mwyn cyfrifo'r oriau o ofal plant a ariennir y mae ganddynt hawl iddynt. Mae hyn wedi bod yn wir erioed – fodd bynnag, mae cadw golwg ar wahaniaethau mewn darpariaeth FPN o bosib wedi dod yn fwy o her i awdurdodau darparu erbyn hyn gan fod angen iddynt wybod am y ddarpariaeth FPN mewn lleoliadau yn eu hawdurdod lleol eu hunain ond hefyd y ddarpariaeth FPN yn yr awdurdodau ymgysylltu maent yn eu cefnogi.
- 3.36 Yn ychwanegol i'r her hon, mae'r dyddiadau pan fydd plant yn dod yn gymwys ar gyfer FPN yn gallu amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol gall plentyn fod yn gymwys ar gyfer FPN ar 29 Ebrill os yw'n troi'n dair oed cyn 28 Ebrill neu ar y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, mewn awdurdod

lleol arall, os bydd plentyn yn troi'n dair oed ar ôl 15 Ebrill, rhaid iddo aros tan y mis Medi canlynol i gael mynediad i ddarpariaeth FPN.

- 3.37 Yn aml, mae'r gwahaniaethau cymharol fach mewn arferion a pholisïau darparu FPN rhwng darparwyr ac ardaloedd wedi arwain at heriau pellach i'r awdurdodau lleol darparu o ran gweinyddu elfen gofal plant y Cynnig. Mae'r enghreifftiau hyn hefyd yn tynnu sylw at yr her sy'n gysylltiedig â bod â pholisi cyson yn ymwneud ag elfen gofal plant y Cynnig i Gymru gyfan, a cheisio alinio hyn â pholisïau ac arferion gwahanol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth FPN. Mae hyn wedi golygu bod llawer o bartneriaethau awdurdodau lleol yn galw am ddull cyson i Gymru gyfan o ddarparu FPN.

'Fe gawson ni gytundeb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eleni - gan mai cynllun peilot yw e - ein bod ni'n cynnig 20 awr o ofal plant i bawb. Mae rhai aelodau o'r cynghorau lleol wedi herio hynny a bydd rhagor yn ei herio; ond does dim ffordd o nodi oriau ysgol a chyfnod sylfaen drwy system [yr Awdurdod Darparu] rydyn ni'n ei defnyddio, felly byddai'n rhaid i chi wirio pob plentyn yn unigol fel arall.' (*Awdurdod Ymgysylltu*)

- 3.38 Mae rhai awdurdodau lleol wedi cymryd y cam o ofyn i'w holl leoliadau FPN gysoni eu horiau, felly gofynnwyd i leoliadau sy'n cynnig 12.5 awr o ddarpariaeth FPN yr wythnos leihau eu horiau i 10 awr yr wythnos. Fodd bynnag, mae lleoliadau wedi bod yn amharod i wneud hyn, gan fod hyn yn ei hanfod yn golygu bod y plant hynny nad oes ganddynt hawl i gael y Cynnig yn colli 2.5 awr yr wythnos o ddarpariaeth FPN. Mae hyn yn effeithio'n benodol ar y plant hynny y mae eu rhieni'n ddi-waith, ac felly nad ydynt yn gymwys i gael y Cynnig.
- 3.39 Gofynnwyd i gyfweleion awdurdodau lleol hefyd p'un a oedd y gofal plant a ariennir yn cael ei ddefnyddio gan rieni yn lle'r ddarpariaeth FPN, ac felly'n disodli oriau FPN, ond heblaw am enghreifftiau unigol, doedd dim tystiolaeth gan awdurdodau lleol o rieni'n dewis cymryd oriau gofal plant ac yn hepgor yr oriau FPN.
- 3.40 Mae awdurdodau lleol yn parhau i fynegi pryderon na fydd darparwyr nas cynhelir sydd ar hyn o bryd wedi'u contractio ganddynt i gyflawni'r FPN yn parhau â'r ddarpariaeth hon yn y dyfodol oherwydd y baich gwaith mwy, mwy o graffu, ac mewn llawer o achosion, y cyfraddau ariannu is a dderbyniwyd ar gyfer FPN o gymharu â'r

elfen gofal plant a ariennir yn y Cynnig. Adroddodd awdurdodau lleol am enghreifftiau ynysig o leoliadau'n rhoi'r gorau i'w darpariaeth FPN, gan egluro ymhellach eu bod yn trafod â lleoliadau eraill i'w perswadio i barhau â'r ddarpariaeth FPN.

- 3.41 Cyfeiriodd awdurdodau lleol at y prosiect peilot presennol yn Sir y Fflint sy'n profi effaith cyfradd ariannu gyson ar gyfer darpariaeth FPN a gofal plant. Roedd y rhan fwyaf yn chwilfrydig i weld a fyddai cyfradd ariannu gyson yn annog darpariaeth FPN fwy cyson ymysg lleoliadau nas cynhelir.

4. Dylanwad y Cynnig ar ddarparwyr


- 4.1 Roedd y gwerthusiad o flwyddyn gyntaf y Cynnig yn adolygu sut clywodd darparwyr gofal plant am y Cynnig. Roedd hefyd yn edrych ar sut roedd cymryd rhan mewn darparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn effeithio ar berfformiad presennol busnesau darparwyr a'u perfformiad yn y dyfodol. Roedd y gwerthusiad o'r ail flwyddyn yn ail-ymweld â nifer o'r pwyntiau hyn, ynghyd â materion ychwanegol fel darparu gofal cofleidiol, recriwtio, dargadw a hyfforddi staff. Mae canfyddiadau'r ail flwyddyn, a gyflwynir isod, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg gan 869 o ddarparwyr, ac ymatebion pellach a gynigiwyd gan 46 o ddarparwyr a gymerodd ran mewn cyfweiliad ffôn un i un.
- 4.2 Mae'r adran hon yn amlinellu sut, os o gwbl, mae'r Cynnig wedi dylanwadu ar ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. Mae'r meysydd a ystyriwyd yn cynnwys gofal cofleidiol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac AAA, effaith y Cynnig ar ddarpariaeth FPN mewn lleoliadau nas cynhaliwyd, ynghyd â chapasiti i ddarparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r adran hon hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar ddwy thema:
- Dylanwad y Cynnig ar gapasiti'r gweithlu gofal plant, o ran cymwysterau gofynnol, i ddarparu'r ddarpariaeth ofynnol;
 - Dylanwad y Cynnig ar hyfywedd masnachol darparwyr sy'n darparu'r Cynnig
- 4.3 Yn rhai o'r paragraffau dilynol, caiff canfyddiadau o'r gwerthusiad o'r ail flwyddyn eu cymharu â'r rhai a gasglwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae angen bod yn ofalus wrth wneud y cymariaethau hyn, gan fod canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf yn seiliedig ar gyfweiliadau ansoddol gyda 150 o ddarparwyr ar draws y chwe ardal beilot, a bod canfyddiadau'r ail flwyddyn yn seiliedig ar 869 ymateb i'r arolwg a gasglwyd gan ddarparwyr ar draws 22 awdurdod lleol Cymru.

Dylanwad y Cynnig ar ddarparwyr – Canfyddiadau allweddol


Darparwyr gofal plant




Adroddodd cynnydd yn
nifer y plant ers y
flwyddyn flaenorol



Yn cytuno bod y **£4.50**
yr awr yn fasnachol
hyfyw



Yn adrodd gwell
proffidioldeb



Yn adrodd gwell
cynaliadwyedd

Hefyd

20%



Wedi cyflwyno
taliadau
ychwanegol am
fwyd a diod



Defnydd
cymharol isel
o'r **gyllideb**
AAA



Dim newid amlwg yn
y ddarpariaeth gofal
plant yn ystod
gwyliau ysgol

Ffynhonell: Arolwg y Cynnig Gofal Plant i Ddarparwyr 2019. N=869

Lefel y galw

- 4.4 Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a holwyd (60 y cant) bod nifer y plant yn eu lleoliad wedi aros yr un fath ag yr oedd cyn cyflwyno'r Cynnig. Mewn llawer o achosion, roedd hyn gan eu bod eisoes yn darparu i'w llawn gapasiti, ac felly nad oedd modd cynnig lle i fwy o blant. Fodd bynnag, adroddodd dros draean (36 y cant) gynnydd yn nifer y plant, ac adroddodd 3 y cant gwmp mewn niferoedd – yn aml o ganlyniad i fwy o

gystadleuaeth gan ddarparwyr eraill. Roedd dros hanner y darparwyr a holwyd (59 y cant) o'r farn bod y newidiadau hyn wedi'u dylanwadu o leiaf yn rhannol gan y Cynnig.

- 4.5 Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg iawn i'r rhai a gofnodwyd yn ystod y gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf, lle adroddodd 40 y cant o'r 150 darparwr a gyfwelwyd yn y flwyddyn gyntaf gynnydd, a lle nododd 56 y cant ddim newid yn nifer y plant yn eu lleoliad ar ôl cyflwyno'r Cynnig.
- 4.6 Nododd bron i hanner y darparwyr a holwyd yn ystod yr ail flwyddyn (47 y cant) eu bod wedi profi o leiaf rywffaint o gynnydd yn y galw am ofal plant yn eu lleoliad ers i'r Cynnig gael ei gyflwyno – roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gyfuniad o gynnydd yn nifer y plant mewn rhai lleoliadau a / neu gynnydd yn nifer yr oriau a ddefnyddid gan blant a oedd eisoes yn eu lleoliad. Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r gwerthusiad o'r ail flwyddyn, fel canfyddiadau'r gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf, yn awgrymu bod y Cynnig wedi creu cynnydd cymharol yn y galw am ofal plant ffurfiol.
- 4.7 Yn ystod y flwyddyn gyntaf o ddarparu'r Cynnig, roedd darparwyr yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo'r Cynnig i rieni. Roedd hyn i raddau helaeth o ganlyniad i'r ffaith nad oedd modd cynnal ymgyrch hyrwyddo genedlaethol, gan mai dim ond mewn rhai ardaloedd peilot roedd y Cynnig ar gael. Erbyn mis Ebrill 2019, roedd y Cynnig ar gael i blant cymwys ym mhob ardal yng Nghymru; fodd bynnag, nid oedd hyn yn gadael llawer o amser cyn diwedd y flwyddyn academiaidd i gynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth cenedlaethol. O ganlyniad i hyn, cafodd y rhan fwyaf o'r gweithgarwch codi ymwybyddiaeth a gynhaliwyd yn ystod yr ail flwyddyn eu darparu ar lefel leol. Adlewyrchir hyn yn y ffaith i'r rhan fwyaf o ddarparwyr (82 y cant o'r rhai a holwyd) nodi eu bod yn dal i hyrwyddo'r Cynnig i rieni.
- 4.8 Fodd bynnag, mae canfyddiadau o'r arolygon gwerthuso a'r cyfweiliadau gydag awdurdodau lleol yn awgrymu bod ymwybyddiaeth rhieni o'r Cynnig wedi cynyddu yn ystod yr ail flwyddyn o gymharu â'r flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn debygol o gynyddu ymhellach yn dilyn ymgyrchoedd cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth a lansiwyd gan y tîm Cyfathrebu yn Llywodraeth Cymru yn ystod hydref 2019. Fodd bynnag, o ystyried anghenion ac amgylchiadau amrywiol rhieni a phlant unigol, ynghyd â threfniadau cyflenwi amrywiol y darparwyr unigol, ymddengys yn anochel bod angen darparu

gwybodaeth benodol, yn ymwneud â sut gellir defnyddio'r Cynnig yn ymarferol, wrth gyfathrebu'n uniongyrchol rhwng rhieni a darparwyr.

Newidiadau o ran darparu gofal plant

4.9 Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a holwyd (81 y cant) ac a gyfwelwyd (35 o 46) nad oeddent wedi newid eu horiau agor na'u dulliau darparu gofal plant o ganlyniad i'r Cynnig. Fodd bynnag, nododd 20 y cant o ymatebwyr yr arolwg, ac 11 o 46 darparwr a gyfwelwyd, eu bod un ai wedi, neu'n bwriadu, newid eu strwythur gweithredu o ganlyniad i'r Cynnig. Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn ymwneud â chynnig mwy o oriau o ofal plant bob dydd, un ai drwy agor yn gynt yn y bore a / neu'n hwyrach yn y prynhawn. Roedd newidiadau eraill yn cynnwys cynnig gofal cofleidiol yn ystod amser cinio ac agor yn ystod gwyliau'r haf.

4.10 Y darparwyr a oedd wedi cyflwyno neu'n bwriadu cyflwyno'r newidiadau hyn oedd lleoliadau gofal plant sesiynol (cylchoedd chwarae a Chylchoedd Meithrin) a oedd â'r capasiti (gofod ac aelodau o staff) i gynyddu neu newid natur eu darpariaeth.

4.11 Adroddwyd canfyddiadau tebyg gan rai cynrychiolwyr awdurdodau lleol, a nododd fod argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd wedi cynyddu'n sylweddol (gweler adran 3) o ganlyniad i Gylchoedd Meithrin mewn rhai achosion yn ymestyn eu horiau agor o ddarpariaeth sesiynol i ofal diwrnod llawn.

'Rydyn ni wedi penderfynu cynnal clwb gwyliau. Roedden ni wedi ei gynnal o'r blaen, ond fe stopion ni gan nad oedd yn fforddiadwy, ond gyda'r Cynnig Gofal Plant mae'n fforddiadwy unwaith eto.'

(Gofal dydd llawn - cyfrwng Cymraeg)

4.12 Nododd un awdurdod darparu eu bod yn ymwybodol, drwy dystiolaeth anecdotaidd, bod rhai lleoliadau yn eu hardal erbyn hyn yn cynnig mwy o ddarpariaeth i blant tair a phedair oed, a llai i blant dwy oed o ganlyniad i'r Cynnig. Nododd yr un cynrychiolydd awdurdod lleol, fodd bynnag, eu bod hefyd yn ymwybodol o gynnydd yn narpariaeth gofal plant i blant rhwng 0 a dwy oed ar draws lleoliadau eraill, ac felly roedden nhw'n tybio bod hyn yn gwneud yn iawn am y lleihad mewn darpariaeth mewn llefydd eraill. Er ei bod yn bosib bod y lleihad a'r cynnydd hwn mewn darpariaeth wedi cael effaith niwtral ar y cyfan ar ddarpariaeth ar draws yr ardal gyfan, nid yw'n glir a yw'r

newidiadau hyn wedi effeithio ar argaeledd darpariaeth ar gyfer plant rhwng 0 a 2 oed mewn rhai wardiau neu ardaloedd lleol yn ardal yr awdurdod lleol.

- 4.13 Nododd lleiafrif bach o'r darparwyr hefyd eu bod un ai wedi gwneud, neu'n bwriadu gwneud, newidiadau i'w model cyflenwi busnes er mwyn cynyddu darpariaeth ar gyfer rhai grwpiau oedran drwy leihau darpariaeth i eraill. Nododd un darparwr eu bod wedi lleihau nifer y plant roeddent yn eu derbyn yn eu hystafell fabanod er mwyn derbyn mwy o blant tair oed. Nododd un arall eu bod yn raddol gael gwared â'r ddarpariaeth i blant dros 5, ac yn hytrach yn canolbwyntio ar ddarparu llefydd ar gyfer plant oed cyn ysgol. Nid lleihau darpariaeth ar gyfer plant hŷn neu iau er mwyn cynnig mwy o lefydd i blant tair a phedair oed yw diben yr holl newidiadau presennol ac arfaethedig i'r ddarpariaeth. Nododd un gwarchodwr plant eu bod yn bwriadu cymryd mwy o blant iau, gan nad oedd modd darparu ar gyfer cymaint o blant tair a phedair oed a oedd yn defnyddio gofal plant ganddyn nhw, ac FPN mewn lleoliad arall.

'Bydda i'n edrych tuag at gymryd plant llawn amser sydd angen mwy na 15 awr. Gyda phlant a gaiff eu hariannu [gan y Cynnig], rwy'n treulio'r diwrnod cyfan yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.' (Gwarchodwr plant).

'Oherwydd yr anhawster o ddarparu gofal i blant sy'n mynd i'r ysgol yn rhan amser, ni fydd fy ngwasanaethau'n cynnig gofal i blant o dan dair oed. Bydd y newid yma'n dechrau ym mis Ionawr 2020. Rydw i wedi gwneud y penderfyniad yma gan nad oedd modd i fi ddarparu'r amgylchedd a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar blant o dan dair oed i ddatblygu, o ganlyniad i'r gwasanaeth mae'n rhaid i fi ei ddarparu i blant tair a phedair oed sy'n cael addysg ran amser yn yr ysgolion cynradd lleol.' (Gwarchodwr plant)

- 4.14 Dylid nodi mai dim ond lleiafrif bach o'r darparwyr a holwyd yw'r enghreifftiau y cyfeirir atynt uchod. At hynny, nid y Cynnig yn unig wnaeth gymell darparwyr i wneud y newidiadau hyn ym mhob achos. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, er efallai nad yw'r newidiadau hyn yn y ddarpariaeth wedi cael effaith sylweddol ar lefel gyffredinol a math y ddarpariaeth sydd ar gael ar draws ardaloedd daearyddol ehangach, gall newidiadau o'r fath gael effaith fawr ar argaeledd darpariaeth mewn rhai ardaloedd lleol lle nad oes dewis amgen ar gael o reidrwydd.

Darparu gofal cofleidiol

- 4.15 Roedd dros draean y darparwyr a holwyd (78 y cant) yn cynnig rhyw fath o ofal cofleidiol fel rhan o'u darpariaeth gofal plant. Mae hyn yn cynnwys brecwast a chlybiau ar ôl ysgol, gofal cofleidiol amser cinio, a chludo plant i ac o wahanol leoliadau gofal plant ac FPN.
- 4.16 Nododd bron i ddau draean y darparwyr (65 y cant) eu bod yn darparu gwasanaeth casglu a gollwng i blant yn eu lleoliad, ac roedd bron i dri chwarter y rhain (73 y cant) yn darparu cludiant er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn. Nododd y rhan fwyaf o'r darparwyr (88 y cant) a oedd yn darparu'r gwasanaeth hwn eu bod yn ei weld yn hawdd iawn neu o leiaf yn gymharol hawdd ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd ychydig dros un mewn deg o'r darparwyr hyn (12 y cant) yn gweld cludo plant rhwng lleoliadau yn weddol heriol, ac roedd lleiafrif (3 y cant) yn gweld hyn yn heriol iawn.
- 4.17 Roedd rhai o'r prif heriau o ran darparu gwasanaethau casglu a gollwng a nodwyd gan ddarparwyr yn ymwneud â chynnal cyfraddau staff yn eu lleoliadau wrth ryddhau'r staff i gludo plant i leoliad arall. Nododd rhai darparwyr eu bod yn cludo plant i ac o ddau leoliad gwahanol neu fwy, a all fod yn heriol o ran amseru ynghyd ag adnoddau staff a gofynion cludiant. Nododd rhai gwarchodwyr mai nhw yw'r unig ddarparwr gofal plant yn eu lleoliad. O ganlyniad, mae'r holl blant yn eu gofal, waeth beth yw eu hoedran, yn dod yn y car yn ystod y teithiau casglu a gollwng hyn. Roedd hyn, yn eu tyb nhw, yn gweithio'n dda, er eu bod yn cydnabod bod paratoi'r holl blant ar gyfer pob taith yn cymryd llawer o amser ar adegau.

Proffidioldeb a chynaliadwyedd

- 4.18 Nododd bron i ddau draean (62 y cant) o'r darparwyr a holwyd yn ystod yr ail flwyddyn bod y Cynnig wedi cael effaith gadarnhaol ar eu proffidioldeb, gyda 65 y cant yn nodi bod y Cynnig wedi cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd eu lleoliad. Mae hyn yn cymharu â 72 y cant a 76 y cant, yn y drefn honno, o ddarparwyr a adroddodd yr un fath yn ystod y flwyddyn gyntaf⁶.

⁶ Fel y nodwyd yn gynharach, mae angen rhywfaint o ofal wrth gymharu canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf â chanfyddiadau'r ail flwyddyn, o ganlyniad i feintiau sampl a dulliau casglu data gwahanol yn ystod y ddwy flwyddyn.

- 4.19 Nododd bron i draean (30 y cant) nad oedd y Cynnig wedi gwneud dim gwahaniaeth i broffidioldeb na chynaliadwyedd eu lleoliad. Fodd bynnag, nododd bron i un mewn deg (8 y cant) o'r darparwyr a holwyd bod y Cynnig wedi cael effaith negyddol ar broffidioldeb eu lleoliad. Roedd y rhesymau y cyfeiriwyd atynt yn ymwneud â'r gyfradd a delir i ddarparwyr gofal plant i ddarparu'r Cynnig, gan nad oedd yn hyfyw yn fasnachol yn eu barn nhw. Hynny yw, roedd y gyfradd yn is na'u cyfradd fasnachol arferol.

Costau cyflawni a strwythurau codi tâl

- 4.20 Nododd un ymhob pump o'r darparwyr (20 y cant) a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cyflwyno taliadau ychwanegol yn eu lleoliad ers i'r Cynnig gael ei gyflwyno; yn bennaf ar gyfer byrbrydau a phrydau. Nododd 15 y cant o'r darparwyr i'r taliadau ychwanegol hyn gael eu cyflwyno o ganlyniad uniongyrchol i'r Cynnig. Gellir cymharu hyn â'r canfyddiadau a gofnodwyd yn ystod y gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf, lle nododd 15 y cant o'r darparwyr a gyfwelwyd eu bod wedi cyflwyno taliadau ychwanegol ers i'r Cynnig gael ei gyflwyno.
- 4.21 Nododd nifer o'r ymatebwyr a oedd wedi cyflwyno taliadau ychwanegol bod y taliadau ychwanegol hyn wedi'u cyflwyno er mwyn adennill rhywfaint o'r refeniw roeddent wedi'i golli gan fod cyfradd y Cynnig yn is na'u cyfradd arferol.
- 'Rydyn ni'n codi tâl am fyrbryd erbyn hyn, er mwyn gwneud yn iawn am y lleihad yn y ffi fesul awr.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)
- 'Mae'n rhaid ni godi tâl am fwyd fel cymhorthdal i'r hyn rydych chi [y Cynnig] yn ei dalu.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)
- 4.22 Nid oedd yn glir ym mhob achos a weithredwyd a oedd y taliadau hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru⁷.
- 4.23 Nododd rhai o'r darparwyr fod y cyfraddau maen nhw'n eu codi ar gwsmeriaid sy'n talu ffioedd llawn yn cynnwys prydau a byrbrydau, er nad ydynt wedi'u heitemeiddio yn yr anfonebau a anfonir. O'u safbwynt nhw, gan nad yw cyfradd ariannu'r Cynnig yn cynnwys prydau a byrbrydau, dylent godi tâl ychwanegol am yr eitemau hyn ar

⁷ Llywodraeth Cymru (2019) [Canllawiau Cynnig Gofal Plant i Awdurdodau Lleol mis Hydref 2019](#) – Adran 8 tudalen 21. [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2019].

gwsmeriaid sy'n cael eu cefnogi gan y Cynnig er mwyn sicrhau y codir tâl ar eu holl gwsmeriaid yn yr un ffordd. Nododd darparwyr eraill eu bod wedi dechrau eitemeiddio taliadau am brydau, byrbrydau a chlodiant mewn anfonebau a anfonir i blant sy'n talu ffioedd ac sy'n cael eu hariannu gan y Cynnig, hyd yn oed os nad yw hyn yn effeithio ar y gyfradd ddyddiol y mae cwsmeriaid sy'n talu ffioedd yn eu talu. Fodd bynnag, nododd rhai o'r darparwyr hyn hefyd fod hyn wedi annog rhai o'r cwsmeriaid sy'n talu ffioedd i ddarparu pecynnau bwyd i'w plentyn, a'u bod wedi gofyn i fyrbrydau a phrydau gael eu tynnu oddi ar eu bil.

- 4.24 Nododd bron i 17 y cant o'r darparwyr eu bod wedi cynyddu eu ffioedd gofal plant ers cyflwyno'r Cynnig yng Nghymru ond dim ond 2 y cant o'r ymatebwyr a nododd fod y cynnydd hwn o ganlyniad uniongyrchol i'r Cynnig. Gwnaeth rhai o'r darparwyr a nododd eu bod yn arfer codi llai na'r gyfradd £4.50 / yr awr, sydd ar gael drwy'r Cynnig, benderfynu cynyddu eu cyfraddau ar gyfer y rhieni i gyd er mwyn bod yn gyson â'r gyfradd hon. Nodwyd mai'r rheswm dros wneud hyn yn aml iawn oedd er mwyn sicrhau bod cyfraddau'n dryloyw ac yn gyson i'r holl rieni.
- 4.25 Fodd bynnag, nododd darparwyr eraill eu bod wedi cynyddu eu cyfraddau i'r plant i gyd er mwyn gwneud yn iawn am y diffyg incwm o ganlyniad i'r Cynnig. Gallai hyn godi pryderon am y sgil-ffaith bosib y mae'r Cynnig yn ei chael ar gostau gofal plant rhai rhieni nad ydynt yn gymwys. Er hynny, dylid nodi hefyd ei bod yn ymddangos bod yr enghreifftiau hyn yn berthnasol i nifer gymharol fach o leoliadau.

'Rydyn ni wedi cynyddu'r ffioedd ar gyfer ein babanod a'n plant bach er mwyn gallu darparu'r Cynnig Gofal Plant yn ein meithrinfa. Hynny yw, mae'r ffioedd gan y plant iau yn ategu incwm y Cynnig fel ei fod yn fwy hyfyw.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

- 4.26 Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn awgrymu bod darparwyr mewn rhai achosion unigol yn dal i godi ffioedd ychwanegol ar rieni.

'Mae fy nghyfradd yr awr yn fwy [na chyfradd y Cynnig], felly mae'n rhaid i fi godi tâl ar y rhieni ar wahân am y taliad sydd ddim yn cael ei ddarparu gan yr oriau a ariennir'. (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

'Mae'r rhiant yn cael eu bilio ar ddiwedd y mis, a chaiff y swm a dderbynnir gan oriau'r Cynnig eu tynnu oddi ar y bil.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

- 4.27 Nododd darparwyr fod unrhyw daliadau ychwanegol a oedd yn ymwneud â darparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn deillio'n bennaf o'r gwaith gweinyddol ychwanegol a oedd ei angen. Gofynnwyd i'r darparwyr a holwyd nodi tua faint o amser ychwanegol maen nhw'n ei dreulio'n fisol ar dasgau gweinyddol yn ymwneud â'r Cynnig. Nododd bron i 1 ymhob 10 (9 y cant) o'r ymatebwyr eu bod yn treulio mwy na phump awr y mis yn gwneud tasgau gweinyddol yn ymwneud â'r Cynnig, sy'n cynnwys adrodd ar nifer yr oriau a archebir ac a ddefnyddir gan bob plentyn sy'n cael eu cefnogi gan y Cynnig. Ar y llaw arall, nododd cyfran debyg (11 y cant) o'r darparwyr nad ydynt yn treulio bron dim amser ychwanegol ar dasgau gweinyddol y Cynnig Gofal Plant. Nododd y gyfran uchaf o ymatebwyr (39 y cant) eu bod yn treulio hyd at awr y mis yn cyflawni'r tasgau gweinyddol hyn.
- 4.28 Roedd yr amser a dreulir ar dasgau gweinyddol yn amrywio yn unol â nifer y plant a gefnogwyd gan y Cynnig ym mhob lleoliad, a nifer yr awdurdodau darparu roedd pob lleoliad yn ymwneud â nhw. Mae gan rai darparwyr blant o sawl awdurdod lleol gwahanol yn eu lleoliad. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae'n rhaid i'r lleoliadau hyn yn ddarparu gwybodaeth (yn aml mewn gwahanol fformatau) i nifer o awdurdodau darparu gwahanol. Mae'n anochel bod hyn yn ychwanegu at yr amser sydd ei angen i gyflwyno'r wybodaeth bob mis. Awgrymodd sawl darparwyr a gyfwelwyd ac a oedd yn y sefyllfa hon y byddai system neu borth canolog, y gallai darparwyr gyflwyno eu data misol iddo, yn lleihau'r baich weinyddol yma. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd â nhw.

Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)


- 4.29 Ni nododd llawer o'r darparwyr a gyfwelwyd neu a holwyd unrhyw newid yn y galw am ofal plant i blant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) nac yn lefel y ddarpariaeth. Nododd adroddiad gwerthuso'r flwyddyn gyntaf bod defnydd cymharol isel o'r gyllideb ychwanegol a oedd ar gael i awdurdodau lleol gefnogi plant sydd ag AAA oherwydd ansicrwydd o ran sut dylid defnyddio'r gyllideb. Yn ogystal, ychydig iawn o enghreifftiau oedd o'r effaith roedd y cyllid hwn yn ei chael ar ddarparwyr o ganlyniad i'r nifer fach o blant ag AAA a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ystod yr adeg honno.

- 4.30 Mae canfyddiadau'r ail flwyddyn yn debyg iawn i rai'r flwyddyn gyntaf, gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn nodi tanwariant yn eu cyllideb AAA a darparwyr yn nodi ychydig iawn o newid yn y galw am ddarpariaeth AAA ac yn lefel y ddarpariaeth.
- 4.31 Fodd bynnag, cyfeiriodd un darparwr at achos lle roedd rhieni plentyn ag anabledd motor wedi cysylltu â nhw er mwyn cael mynediad at ofal plant a ariennir gan y Cynnig. Byddai'r darparwr wedi gallu bodloni anghenion y plentyn pe bai'r cyllid ychwanegol ar gael. Fodd bynnag, roedd un o'r rhieni yn ofalwr llawn amser ar gyfer y plentyn, ac felly nid oeddent mewn swydd gyflogedig. O ganlyniad, nid oedd y rhieni a'r darparwyr yn siŵr a oeddent yn bodloni'r cymhwysedd cyflogaeth sydd ei angen i fanteisio ar y Cynnig, ac adroddodd y darparwr bod yr awdurdod lleol yn ymddangos yn ansicr hefyd. Gofynnodd yr awdurdod lleol am gyngor pellach gan Lywodraeth Cymru, ond symudodd y teulu o Gymru cyn i'r mater gael ei ddatrys. Nododd y darparwr eu bod yn dal i fod yn ansicr beth ddylent ei wneud a sut i gynghori rhieni pe bai sefyllfa debyg yn codi yn y dyfodol.
- 4.32 Mae gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad clir o ran sut gellir cefnogi sefyllfaoedd fel yr enghraifft uchod gyda'r gyllideb AAA sydd ar gael. Felly nid yw'r enghraifft hon yn adlewyrchu unrhyw fylchau neu ddiffyg yn y math o ofal y gellir ei gefnogi gan y cyllid AAA sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'n dangos diffyg dealltwriaeth parhaus mewn rhai awdurdodau lleol, er gwaethaf y canllawiau sydd ar gael, o ran sut gellir ac y dylid defnyddio cyllid AAA. Mae hyn, yn ei dro, yn debygol o adlewyrchu o leiaf rai o'r rhesymau dros danwariant yn y gyllideb AAA a adroddir gan nifer o awdurdodau lleol.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 4.33 Disgrifiodd bron i un ymhob pump (17 y cant) o'r darparwyr a ymatebodd i'r arolwg mai'r brif iaith a ddefnyddiwyd yn eu lleoliad gofal plant oedd Cymraeg; disgrifiodd 9 y cant arall eu hunain fel lleoliad dwyieithog lle roedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio ochr yn ochr.

Ffigur 4.1: Prif iaith y lleoliadau gofal plant a holwyd



Ffynhonnell: Arolwg o'r darparwyr 2019

N=839

- 4.34 O'r 125 o ddarparwyr a holwyd a ddisgrifiodd eu hunain fel lleoliad cyfrwng Cymraeg, roedd y gyfran fwyaf (55 o 125, sef 44 y cant) yn lleoliadau gofal dydd sesiynol (Cylchoedd Meithrin yn bennaf). Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr cyfrwng Cymraeg a ymatebodd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd a gefnogir gan awdurdodau darparu Gwynedd ac Ynys Môn a Cheredigion (sydd hefyd yn cynnwys Conwy, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys).
- 4.35 Nododd dros draean y darparwyr cyfrwng Cymraeg a holwyd eu bod wedi neu'n bwriadu ymestyn eu horiau agor yn dilyn cyflwyno'r Cynnig. Mae hyn yn cymharu ag 16 y cant o'r holl ddarparwyr a holwyd a nododd eu bod wedi neu'n bwriadu ymestyn eu horiau agor yn dilyn cyflwyno'r Cynnig. Mae hyn yn cefnogi'r safbwyntiau a fynegwyd gan nifer o gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a holwyd, a nododd hefyd eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg, yn enwedig Cylchoedd Meithrin, sydd wedi ymestyn eu horiau agor ers i'r Cynnig gael ei gyflwyno.
- 4.36 Byddai hyn yn awgrymu bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cynyddu o ganlyniad i'r Cynnig. Roedd y rhan fwyaf o rieni a holwyd a oedd am gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w plant yn gallu ei chael. Fodd bynnag, fel y nodir yn adran 6.39 isod,

nododd cyfran fach o'r rhieni a holwyd nad oedd modd iddynt gael mynediad at y gofal plant cyfrwng Cymraeg yr oedd arnynt ei eisiau.

- 4.37 Yn gyffredinol felly, er bod y Cynnig yn ymddangos fel petai'n annog cynnydd mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn nifer o leoliadau, mae diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dal i fod mewn rhai ardaloedd.

Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN)

- 4.38 Nododd ychydig dros chwarter (28 y cant) o'r 791 darparwr a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi'u hariannu i ddarparu addysg FPN. Lleoliadau gofal dydd llawn (31 y cant) a chylchoedd chwarae sesiynol a Chylchoedd Meithrin cyfrwng Cymraeg (37 y cant) oedd y rhain yn bennaf.

- 4.39 Nododd deuddeg o'r 223 darparwr a holwyd (5 y cant) a oedd wedi bod yn darparu FPN, eu bod un ai'n bwriadu, neu wedi, dod â'u darpariaeth FPN i ben yn ddiweddar. Cyfeiriodd y rhai a roddodd resymau dros hyn at y cyfraddau ariannu cymharol isel, ynghyd â'r pwysau ar staff a'r amser sy'n gysylltiedig ag FPN.

'Mae cyllid [ar gyfer darpariaeth FPN] yn rhy isel ac mae'r galw'n rhy uchel. Mae newidiadau i'r fframwaith yn golygu mwy o hyfforddiant staff, a dydy hyn ddim yn gost-effeithiol.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

'Mae cynnig [darpariaeth FPN] wedi'i brofi i gynyddu llwyth gwaith ac mae'n cymryd gormod o amser.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

'Wedi rhoi rhybudd o flwyddyn. Gormod o bwysau. Ddim yn hyfyw yn ariannol.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

- 4.40 Nid yw'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod symudiad sylweddol oddi wrth darpariaeth FPN – yn enwedig gan nad ydynt yn ystyried darparwyr sydd un ai'n bwriadu cofrestru i ddechrau darparu FPN yn eu lleoliad neu wedi gwneud hynny'n ddiweddar iawn (gweler isod). Fodd bynnag, maent yn cynnig cefnogaeth i'r pryderon a fynegwyd gan gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol bod rhai darparwyr FPN nas cynhaliwyd wedi lleihau eu darpariaeth FPN neu'n ystyried gwneud hynny; yn aml er mwyn darparu mwy o ofal plant a gaiff ei ariannu'n well a gefnogir drwy'r Cynnig.

- 4.41 Ar y llaw arall, nododd wyth o'r darparwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg fod diddordeb ganddynt mewn darparu FPN am y tro cyntaf, a'u bod wrthi'n chwilio

am gyfleodd i wneud hynny. Nododd pum darparwr arall y byddent yn croesawu'r cyfle i ddarparu FPN ond nad oedd modd iddynt wneud hynny, un ai oherwydd na all darparwyr nas cynhelir ddarparu FPN yn ardal eu hawdurdod lleol neu gan nad oedd digon o gyllid lleol ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth hon mewn lleoliadau nas cynhelir.

'Mae rhieni'n gofyn i ni os gwnawn ni [ddarparu darpariaeth FPN] fel bod dim rhaid iddyn nhw fforffedu elfen addysgol y Cynnig Gofal Plant.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

- 4.42 Nododd rhai o'r darparwyr a gyfwelwyd y byddent yn croesawu'r cyfle i ddarparu FPN, gan y byddai hyn yn eu galluogi i gadw plant tair a phedair oed yn eu lleoliad drwy'r dydd. Nid yn unig y byddai hyn yn lleihau'r angen i gludo plant rhwng lleoliadau, ond o bosib byddai'n annog rhieni i fanteisio ar fwy o oriau gofal plant gan y darparwyr hyn, yn lle clybiau cofleidiol ar ôl ysgol.

'Mewn byd delfrydol, byddai cyfle i warchodwyr plant gael eu hachredu i ddarparu addysg FPN. Byddai hynny'n golygu y byddai modd i blant gael mynediad at eu holl oriau a ariennir gan gynnal gofal parhaus ar yr un pryd.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant).

'Rydyn ni wedi bod yn trafod [cofrestru i ddechrau darparu FPN] ers 18 Ionawr [2019]. Rydyn ni'n credu y byddai [darpariaeth FPN] yn werthfawr i'r plant yn ein gofal. Yn anffodus, rydyn ni ar restr aros oherwydd diffyg ariannu yn yr awdurdod lleol.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

- 4.43 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, yn gyffredinol, bod symudiad oddi wrth ddarpariaeth FPN mewn rhai lleoliadau gofal plant nas cynhelir yn cael ei wrthbwysu, i ryw raddau o leiaf, gan symudiad tuag at sefydlu darpariaeth FPN mewn lleoliadau eraill. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ein galluogi i ddod i unrhyw gasgliadau o ran i ba raddau y mae'r newidiadau hyn yn cael effaith bositif neu negyddol net ar argaeledd darpariaeth FPN mewn rhai ardaloedd lleol.
- 4.44 Nododd rhai darparwyr, ac awdurdodau darparu, eu bod yn ei gweld yn anodd gwybod faint o oriau o FPN mae plant yn eu derbyn, yn enwedig os caiff FPN a gofal plant eu darparu mewn dau leoliad gwahanol. Adroddodd darparwyr ac awdurdodau

lleol ei bod yn debygol felly bod rhai plant yn cael mwy na'r 30 awr o ddarpariaeth a ariennir y mae hawl ganddynt i'w cael bob mis.

Darpariaeth gwyliau

- 4.45 Nododd tri chwarter y darparwyr a holwyd eu bod yn cynnig darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol. Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r galw ychwanegol am ofal plant a grëwyd gan y Cynnig yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd dros draean (38 y cant) o'r darparwyr a holwyd yn disgwyl cynnydd yn y galw am lefydd yn ystod gwyliau'r ysgol o ganlyniad i'r Cynnig. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf hefyd o'r farn y gallent ymdopi â'r cynnydd hwn yn y galw. Nododd rhai darparwyr (31 o'r 869 darparwr a ymatebodd i'r arolwg) eu bod wedi ymestyn oriau agor eu lleoliad yn ystod gwyliau'r ysgol o ganlyniad i gyflwyno'r Cynnig.

'Rydyn ni ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol - dyma lle mae'r cynnydd mwyaf yn y galw wedi bod. Yr un plant sy'n mynychu, ond mae mwy ohonyn nhw'n defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau [ers cyflwyno'r Cynnig] yn lle dibynnu ar ofal plant anffurfiol gyda nain a taid.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

- 4.46 Ni wnaeth yr holl ddarparwyr a holwyd ac a gyfwelwyd nodi eu bod wedi gweld cynnydd yn y galw am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, er bod rhai o'r rhain wedi disgwyl y byddai:

Rydw i wedi hysbysebu fy narpariaeth gwyliau mewn lleoliadau eraill sy'n darparu'r 30 awr [Cynnig Gofal Plant] ond ddim yn ystod y gwyliau, ond dydyn ni heb gael dim diddordeb, er fy mod wedi disgwyl y bydden ni. (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

[Dydyn ni] ddim ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol gan nad yw'n hyfyw - dydy hi ddim yn ymddangos fel pe bai galw. (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

- 4.47 Mater cyffredin a nodwyd gan ddarparwyr, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a rhieni yw'r dryswch a'r diffyg dealltwriaeth parhaus ynglŷn â'r broses, ynghyd â'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â chael mynediad at ddarpariaeth a ariennir gan y Cynnig yn ystod gwyliau'r ysgol. Nid yw rhai rhieni, na lleiafrif o'r darparwyr, yn deall mai dim ond

9 o'r 13 wythnos o wyliau ysgol bob blwyddyn ar gyfer plant sy'n manteisio ar y Cynnig o fis Medi bob blwyddyn y mae'r Cynnig yn ei ariannu.

- 4.48 Mae hawl plant sy'n dechrau defnyddio'r Cynnig yn hwyrach yn y flwyddyn academiaidd i gael cyllid yn berthnasol am lai o wythnosau yn ystod gwyliau'r ysgol; chwech ar gyfer y rhai sy'n dechrau ym mis Ionawr, a thair ar gyfer y rhai sy'n dechrau ar ôl gwyliau'r Pasg. Mae'r amrywiadau hyn yn ymddangos fel petaent yn peri rhagor o ddryswch.
- 4.49 Mae awdurdodau lleol a llawer o ddarparwyr wedi ceisio mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno rhagor o wybodaeth a chanllawiau. Fodd bynnag, mae rhai rhieni a darparwyr yn dal i synnu pan maen nhw'n clywed nad yw'r cyllid yn cynnwys holl wythnosau gofal plant gwyliau'r ysgol y mae rhieni'n eu defnyddio a'r darparwyr yn eu darparu.
- 4.50 Nododd ychydig o'r darparwyr a gyfwelwyd nad oedd rhai rhieni'n fodlon bod gofyn iddynt dalu am ofal plant yn ystod y pedair wythnos o wyliau ysgol nas ariennir gan y Cynnig. Er mwyn osgoi talu am yr wythnosau hyn, mae'r rhieni hyn wedi dod â'u contract 12 mis i ben gyda'r darparwr fis yn gynnar (ar ddiwedd mis Gorffennaf) ac wedi gofyn am contract newydd ym mis Medi. Nododd y darparwyr bod hyn wedi arwain at gostau sylweddol o ran refeniw a gollwyd ym mis Awst.

Capasiti'r sector i fodloni'r galw am ofal plant a grëir gan y Cynnig

- 4.51 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad o ail flwyddyn y Cynnig yng Nghymru yn awgrymu cynnydd cymharol yn y galw am lefydd gofal plant. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn yn y galw wedi deillio o blant sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig yn defnyddio mwy o oriau gofal plant gyda'u darparwyr presennol, ynghyd â mwy o oriau o'r ddarpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol.
- 4.52 Nododd bron i bob darparwr a holwyd fod ganddynt y capasiti o ran staff a gofod yr oedd eu hangen arnynt i ddarparu'r Cynnig ar hyn o bryd, er i oddeutu chwarter nodi eu bod yn gweithredu ar gapasiti llawn neu'n agosáu at hynny. Fodd bynnag, roedd oddeutu eu hanner o'r farn fod ganddynt y capasiti hefyd i ddarparu rhagor o lefydd gofal plant pe bai galw'n cynyddu yn y dyfodol agos.

- 4.53 Fel y nodwyd yn flaenorol, nododd 20 y cant o'r darparwyr a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cynyddu eu capasiti i ddarparu gofal plant un ai drwy agor am oriau hirach neu ymestyn eu darpariaeth i ddarparu gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Nododd chwech o'r 46 darparwr a gyfwelwyd eu bod wedi gwneud cais am gynllun grantiau cyfalaf bach ar gyfer darparwyr gofal plant, a nododd 14 arall nad oeddent wedi gwneud hynny eto ond eu bod yn bwriadu gwneud. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y darparwyr, ar adeg yr arolwg (haf 2019), yn dal i aros i gael clywed am y penderfyniad ynglŷn â'u cais. Roedd rhai o'r ceisiadau hyn ar gyfer offer neu gyllid i wella'r lleoliad, er enghraifft datblygu ardal chwarae awyr agored er mwyn gwella'r amgylchedd presennol ac ansawdd y lleoliad. Fodd bynnag, nododd dau o'r darparwyr eu bod yn bwriadu defnyddio'r grant i gynyddu capasiti fel y gallent ddarparu mwy o lefydd gofal plant.
- 4.54 Yn gyffredinol, ymddengys fod gan ddarparwyr gapasiti o ran gofod i ddarparu ar gyfer y galw presennol a galw'r dyfodol ar gyfer gofal plant a grëir gan y Cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r darlun yn gyson ar draws yr holl leoliadau, gan fod rhai eisoes yn llawn, ac eraill yn ei chael yn anodd cael y nifer o gwsmeriaid gofal plant sydd ei angen arnynt i sicrhau bod eu lleoliad yn aros yn hyfyw yn fasnachol.

Cynaliadwyedd i Ddarparwyr


- 4.55 Roedd yr arolwg a'r cyfweiliadau gyda darparwyr hefyd yn canolbwyntio ar ddwy brif thema sy'n elfennau hanfodol o gynaliadwyedd darparwyr sy'n darparu gofal plant a gefnogir gan y Cynnig. Y rhain yw:
- capasiti'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol, a'r cymwysterau sydd ar gael ynddynt, i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw am ofal plant ar ôl i'r Cynnig gael ei gyflwyno.
 - i ba raddau y mae'r gyfradd ariannu sydd ar gael i ddarparwyr sy'n darparu gofal plant a gefnogir gan y Cynnig yn hyfyw yn fasnachol i'r busnes.

Cymwysterau'r gweithlu gofal plant

- 4.56 Gofynnwyd i'r darparwyr a gyfwelwyd ac a holwyd p'un a oeddent yn credu bod ganddynt ddigon o staff cymwys yn eu lleoliad i fodloni'r gofynion presennol a gofynion y dyfodol ar gyfer gofal plant ar ôl i'r Cynnig gael ei gyflwyno.
- 4.57 Mae gofyn i bob gweithiwr gofal plant cofrestredig yng Nghymru fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol i warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd i blant hyd at 12 mlwydd oed. Bydd y cynnydd arfaethedig yn y galw am ofal plant, yn dilyn cyflwyno'r Cynnig yng Nghymru a pharhau i'w gyflwyno fesul cam, yn gofyn am gyflenwad digonol o ddarpariaeth gofal plant. Mae hyn, yn ei dro, yn awgrymu bod angen cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol cymwys sy'n gweithio yn y sector.
- 4.58 Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd i'r arolwg (71 y cant) o'r farn bod gan eu lleoliad ddigon o staff cymwys i fodloni'r galw am ofal plant o ganlyniad i'r Cynnig. Gweler Ffigur 4.2 isod. Ail-adroddwyd y safbwynt hwn ymhlith y darparwyr a gyfwelwyd, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt hefyd o'r farn eu bod yn cyflogi nifer ddigonol o staff cymwys ar hyn o bryd i fodloni'r galw presennol a grëir gan y Cynnig. Yn y sector gofal plant yn gyffredinol yng Nghymru, codwyd llawer o broblemau recriwtio a dargadw⁸.

⁸Gweler er enghraifft, adroddiad Llywodraeth Cymru ar oblygiadau Brexit ar y gweithlu gofal plant: Hutcheson, L; Ormston, R (2019). [Ymchwil ar Goblygiadau Brexit ar y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 14/2019. [Cyrchwyd: 16eg Rhagfyr 2019]

Ffigur 4.2: I ba raddau y mae darparwyr yn cytuno neu'n anghytuno gyda datganiadau'n ymwneud â recriwtio, dargadw a lefel cymhwyster staff yn eu lleoliad.



Ffynhonnell: Arolwg o'r darparwyr 2019 N=738

- 4.59 Roedd un darparwyr yn teimlo, er bod ganddynt y capasiti staff cymwys yr oedd ei angen arnynt y rhan fwyaf o'r amser, y gall hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau lle mae mwy nag un aelod o staff yn absennol ar fyr rybudd

'Mae tîm o 14 ganddon ni ar hyn o bryd - sy'n iawn pan fo pawb ar gael i weithio, ond mae'n aml yn anodd dod o hyd i bobl i weithio yn ystod absenoldeb salwch. Mae hefyd yn anodd recriwtio pobl sydd â'r cymwysterau Gofal Plant cywir, ynghyd â'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen arnon ni'. (Darparwr meithrinfa dydd llawn)

- 4.60 Roedd y rhan fwyaf (60 y cant) o'r darparwyr a ymatebodd i'r arolwg hefyd yn cytuno bod modd iddynt fel arfer ddargadw staff cymwys yn eu lleoliad, a chytunodd 76 y cant o leiaf i ryw raddau y gallent gael mynediad at yr hyfforddiant staff oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, nododd llawer o'r darparwyr hyn hefyd pan fo angen aelodau o staff newydd arnynt, y gall fod yn eithaf anodd.

'Rydyn ni'n gallu cadw staff yn eithaf da. Ond rydyn ni'n dibynnu ar ewyllys da - yn aml mae gofyn i staff fynd yr ail filltir o gymharu â'r hyn maen nhw'n cael ei dalu amdano. Byddai recriwtio staff yn anodd iawn gan fod angen staff cymwys sydd ddim yn cael llawer o gyflog yn y swyddi.' (Darparwr gofal plant sesiynol)

- 4.61 Cytunodd llai na hanner y darparwyr a holwyd (47 y cant) hyd yn oed i ryw raddau y gallent recriwtio'r staff cymwys yr oedd eu hangen arnynt pan fo angen.

[Rydyn ni] 'wedi bod yn hysbysebu swyddi fel rolau cynorthwyol ond dydy pobl ddim yn ymgeisio - does ar neb eu heisiau, gan ei bod yn debygol o fod yn swydd dros dro ac yn agos at yr isafswm cyflog'. (Darparwr meithrinfa dydd llawn)

'Roedd hi'n hawdd recriwtio'r tro yma oherwydd dechreuon ni hysbysebu'n gynnar (ym mis Gorffennaf). Rydyn ni wedi bod yn lwcus y tro yma, ond yn aml mae'n hunllef a dydy'r bobl sy'n gwneud ceisiadau ddim yn ddigon cymwys.' (Darparwr gofal plant sesiynol)

- 4.62 Mae'r canfyddiadau a amlinellir uchod yn dangos bod y rhan fwyaf o ddarparwyr a holwyd neu a gyfwelwyd yn optimistaidd fod ganddyn nhw'r nifer o staff cymwys sydd ei angen arnynt i fodloni'r galw am ofal plant a grëir gan y Cynnig. Fodd bynnag, mae hefyd angen ystyried y safbwyntiau hyn yng nghyd-destun y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o'r darparwyr (80 y cant) a ymatebodd i'r arolwg wedi newid eu strwythur darparu nac oriau agor, ac felly nad oedd angen iddynt newid nifer eu staff.
- 4.63 Roedd y darparwyr a holwyd ac a gyfwelwyd yn llai optimistaidd am y syniad o recriwtio staff a oedd â chymwysterau addas pe bai angen. Felly, pe bai'r galw am ofal plant yn parhau i dyfu o ganlyniad i'r Cynnig, byddai angen mwy o staff cymwys i fodloni'r galw hwn. Mae'r canfyddiadau felly'n awgrymu y gallai hyn fod yn her.
- 4.64 Nododd rhai darparwyr eu bod yn recriwtio staff nad ydynt yn gymwys gyda'r nod o'u cefnogi i gael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyrraedd y safonau cymhwyster angenrheidiol. Nododd ychydig dros 75 y cant o'r darparwyr a holwyd un ai eu bod nhw a / neu aelodau eraill o staff yn eu lleoliad wedi cyflawni cymhwyster yn ymwneud â gofal plant yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. O'r rhain, roedd y mwyafrif (62 y cant) wedi cyflawni hyfforddiant Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 2 neu lefel 3, ac roedd bron i draean (32 y cant) wedi cyflawni hyfforddiant Gwaith Chwarae

lefel 2 neu lefel 3. Roedd bron i hanner (53 y cant) wedi cyflawni hyfforddiant a arweiniodd at ffurfiau eraill o gymwysterau, yn amrywio o hyfforddiant diogelu a Chymorth Cyntaf i hyfforddiant Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 5.

Hyfywedd masnachol y Cynnig

- 4.65 Nododd y rhan fwyaf o'r darparwyr a holwyd (79 y cant) bod y gyfradd o £4.50 am elfen gofal plant y Cynnig yn dal i fod yn hyfywedd yn fasnachol iddyn nhw. Mae hyn ychydig yn is na'r 88 o ddarparwyr a nododd yr un peth yn ystod y gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf⁹.
- 4.66 Yn achos llawer o'r darparwyr, roedd y gyfradd am ofal plant a oedd wedi'i chynnwys yn y Cynnig yn uwch na'r oedden nhw'n ei chodi fel arfer, ac felly roedd yn hyfywedd yn syth i'w busnes. I eraill, roedd y gyfradd yn is na chyfradd y ffi fasnachol. Mewn rhai achosion, roedd y gyfradd is yr awr a ddarparwyd drwy'r Cynnig yn cael ei chydbwyso gan y nifer o oriau gofal plant roedd y plant a oedd yn cael eu cefnogi gan y Cynnig yn eu defnyddio.

'Mae [cyfradd o £4.50 yr awr y Cynnig] yn is nag ydw i'n ei godi fel arfer, ond dw i hefyd yn cael mwy oriau o'i herwydd, felly rydw i bron yn gwneud yn iawn amdano.'
(Darparwr gofal plant)

- 4.67 Fodd bynnag, yn achos rhai ymatebwyr i'r arolwg, nid yn unig roedd y gyfradd gofal plant yn is na'r hyn y byddent yn ei godi fel arfer, ond roedd y galw am lefydd yn eu lleoliad hefyd wedi cwmpo; yn aml o ganlyniad i gynnydd yn y ddarpariaeth gofal, yn enwedig gofal cofleidiol yn cael ei gynnig yn rhywle arall. Roedd y darparwyr hyn o'r farn fod y Cynnig wedi ysgogi lleoliadau eraill, yn enwedig ysgolion lleol, i ddarparu clybiau ar ôl ysgol i blant a fyddai wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon ganddyn nhw o'r blaen. Nododd y darparwyr hyn hefyd eu bod yn teimlo bod yn rhaid iddynt gynnig y ddarpariaeth a ariennir gan y Cynnig, er gwaethaf y ffaith nad oedd yn hyfyw yn

⁹ Mae angen cymryd rhywfaint o ofal wrth gymharu canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf (a oedd yn seiliedig ar gyfweiliadau ansoddol gyda 150 o ddarparwyr ar draws y chwe ardal beilot) â chanfyddiadau'r ail flwyddyn a oedd yn seiliedig ar 869 ymateb i'r arolwg a gasglwyd gan ddarparwyr ar draws 22 ardal awdurdod lleol Cymru.

fasnachol iddyn nhw, gan y byddai'n arwain at leihad pellach yn y defnydd o lefydd gofal plant yn eu lleoliad pe na baen nhw'n gwneud hynny.

'Doedd e [cyfradd y Cynnig o £4.50 yr awr] ddim yn ymarferol mewn gwirionedd - rydyn ni ar ein colled gan ein bod ni fel arfer yn codi mwy. Ond os nad oedden ni'n cofrestru ar ei gyfer, bydden ni'n colli rhai plant o bosib, a byddai hynny'n waeth.'
(Darparwr gofal plant)

'Fy nghyfradd i yw £5 yr awr, felly mae hyn yn golygu fy mod i'n colli 50c yr awr am bob un o'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth yma, sy'n annheg, yn enwedig gan ein bod ni eisoes ar gyflog is na'r isafswm cyflog.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

'Rydyn ni'n gweld y gwahaniaeth go iawn yn ein hanner diwrnodau. Mae'r bore'n 5.5 awr, ac rydyn ni'n codi £29.90, ond rydyn ni'n derbyn £24.75 [drwy'r Cynnig], sy'n gadael diffyg o £5.15 a bydd [y diffyg] hwn yn cynyddu pan fydd cyflogau byw ac isafswm cyflog yn cynyddu.' (Ymatebydd i'r arolwg darparwyr gofal plant)

- 4.68 Roedd hefyd rhywfaint o amrywiaeth rhanbarthol yn y gyfradd o ymatebwyr oedd o'r farn nad oedd y Cynnig yn hyfyw yn fasnachol. Mynegodd 756 o'r darparwyr farn ar hyfywedd masnachol y Cynnig, a nododd 155 ohonynt (21 y cant) nad oeddent yn ystyried bod y gyfradd yn hyfyw. O'r rhain, roedd bron i draean (46 o 155 - 31 y cant) wedi'u lleoli yn ardal ddarparu Casnewydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg; ychydig o dan chwarter (34 o 155 - 23 y cant) yng Nghaerdydd, a 29 (20 y cant) yn ardal Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Roedd bron i hanner o'r rhain (47 y cant) yn feithrinfeydd gofal dydd llawn, ac roedd cyfran debyg (44 y cant) yn warchodwyr plant.
- 4.69 Ymddengys felly bod y rhan fwyaf o ddarparwyr nad oedd yn ystyried bod y Cynnig yn opsiwn hyfyw yn fasnachol iddyn nhw, wedi'u lleoli yn awdurdodau lleol y de ddwyrain, lle yn y mwyafrif o achosion, 2018-19 oedd y flwyddyn gyntaf i'r Cynnig gael ei ddarparu.
- 4.70 Er i'r rhan fwyaf o ddarparwyr a ymatebodd i'r arolwg nodi eu bod yn ystyried bod cyfradd yr awr y Cynnig yn hyfyw yn fasnachol, roedd nifer o'r rhain a fynegodd y safbwynt y dylid adolygu'r gyfradd gyda'r nod o'i chynyddu yn y dyfodol agos iawn.

Clywyd y safbwynt hwn gan nifer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach yr ymgynghorwyd â nhw hefyd.

'Mae'n hyfyw yn fasnachol ar hyn o bryd. Ond os yw'n aros yn sefydlog, yna ni fydd yn hyfyw yn fasnachol pan fydd y lleiafswm cyflog yn cynyddu ym mis Ebrill.'
(Darparwr gofal dydd llawn)

5. Dylanwad y Cynnig ar rieni

- 5.1 Mae'r adran hon yn archwilio'r effaith y mae'r Cynnig wedi'i chael, hyd yma, ar gyflogadwyedd ac agweddau tuag at waith rhieni sydd wedi manteisio ar y Cynnig, p'un a oes gan deuluoedd fwy o incwm gwario o ganlyniad i'r Cynnig, a ph'un a yw rhieni wedi gallu cael mynediad at y lefel a'r math o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r Cynnig yr oeddent yn ei ddymuno. Caiff darpariaeth gwyliau'r ysgol hefyd ei harchwilio, gyda gwybodaeth yn ymwneud â defnydd o ofal plant, a ph'un a oedd digon o ddarpariaeth ar gael i fodloni anghenion rhieni.
- 5.2 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg ar-lein a gasglwyd gan 3,890 o rieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig a 18 cyfweliad ansoddol gyda rhieni a oedd wedi manteisio ar y Cynnig. Caiff y canfyddiadau hefyd eu llywio gan y dadansoddiad a gynhaliwyd o'r data monitro a gyflwynwyd gan bob awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru.

Dylanwad y Cynnig ar rieni - Canfyddiadau allweddol

Defnyddio'r Cynnig

-  Clywodd mwyafrif y rieni (51%) am y Cynnig **gan eu darparwyr gofal plant presennol**
-  Defnyddiodd y mwyafrif (92%) o rieni'r **un darparwr gofal plant** ag yr oeddent wedi'i wneud cyn defnyddio'r Cynnig
-  Fe wnaeth 65% o rieni ddefnyddio **gofal plant anffurfiol** ochr yn ochr â'r Cynnig




Adroddwyd bod ymgeisio am y Cynnig yn **'hawdd iawn'** neu'n **'weddol hawdd'** gan 90% o rieni a wnaeth gais llwyddiannus

Cymraeg

Fe wnaeth 39% o rieni ddefnyddio gofal plant **iaith Gymraeg** neu **ddwyieithog** (r)



Fe wnaeth 71% o rieni ddefnyddio'r gofal plant **yn ystod gwyliau'r ysgol**




Arolwg y Cynnig Gofal Plant i Rieni 2019. N=3890

(r) Testun a ddiwygiwyd ar 07 Chwefror 2020

Ymwybyddiaeth rhieni o'r Cynnig

- 5.3 Er mwyn i'r rhieni gael budd llawn o'r Cynnig, mae'n rhaid iddyn nhw glywed amdano i ddechrau a gwybod sut i wneud cais am y cymorth. Fel y dangoswyd yn Ffigur 5.1, roedd rhieni'n fwyaf tebygol o glywed am y Cynnig gan eu darparwr gofal plant presennol (51 y cant o'r rhieni a holwyd). Wedi hyn, y ffyrdd mwyaf cyffredin oedd ar lafar gwlad (oddeutu 30 y cant) ac ar y we neu'r cyfryngau cymdeithasol (20 y cant).

Ffigur 5.1 Sut clywodd rhieni am y Cynnig (%)



N = 3324

Ffynhonnell: Arolwg o'r rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2019)

- 5.4 Felly, mae darparwyr gofal plant wedi parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth rhieni o'r Cynnig. Roedd rhieni wedi bod yn cael gwybodaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn perthynas â'r Cynnig gan ddarparwyr gofal plant, ac roedd llawer o'r rhieni wedi'u targedu wrth ollwng a chasglu eu plant. Caiff hyn ei gadarnhau gan ddarparwyr gofal plant, gyda dros 82 y cant o ddarparwyr yn nodi eu bod wedi parhau i hyrwyddo'r Cynnig i rieni. Nododd rhai rhieni y byddent wedi dymuno cael rhagor o wybodaeth ar bapur, a allai fod wedi'u cynorthwyo i ddeall y Cynnig yn fanylach. Nododd un rhiant y gallai fod yn anodd cofio'r wybodaeth a ddarperir ar lafar, ac y

byddai cael y wybodaeth ar bapur yn rhoi mwy o amser iddynt ddarllen ac ymchwilio'r Cynnig ymhellach.

- 5.5 Clywodd y rhan fwyaf o'r rhieni am y Cynnig drwy eu darparwr gofal plant (dros 50 y cant). O'r rhieni hyn, aeth lleiafrif bach (13 y cant) ati i chwilio am ragor o wybodaeth ar wefan eu hawdurdod lleol. Roeddent yn teimlo bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth oedd ar gael, os nad y cyfan, wedi'i darparu gan eu hawdurdod lleol drwy eu gwefannau. Roedd gan rai rhieni ymholiadau pellach, ac fe'u cyfeiriwyd at dîm yr awdurdod lleol. Nid oedd rhai rhieni yn sicr eu bod yn gymwys, ac roedd angen sicrwydd arnynt bod y Cynnig yn berthnasol iddyn nhw fel rhieni sy'n gweithio.
- 5.6 Roedd rhai rhieni'n teimlo bod diffyg gwybodaeth ac eglurder ynghylch y Cynnig. Perodd hyn i un rhiant oedi cyn gwneud cais, a arweiniodd at beidio â chael y Cynnig o'r dyddiad cymwys:

'Petawn i'n gwybod mwy am y Cynnig, baswn i wedi gwneud cais ynghynt. Ches i ddim o'r Cynnig tan fis Hydref/Tachwedd yn lle mis Medi. Mae system Lloegr yn ymddangos yn llawer mwy syml. Pam oedd hi mor anodd i fi gael mynediad at y Cynnig, a pham ces i fy nghosbi am beidio â chael y wybodaeth gywir?' (Rhiant)

- 5.7 Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan ddarparwyr gofal plant a'u hawdurdod lleol yn ddryslyd ac yn aneglur i rai. Roeddent yn teimlo bod y Cynnig wedi'i gam-gyfathrebu fel 30 awr o ofal plant "am ddim", heb gynnwys oriau darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen.

'I fi, y prif beth sy'n mynd ar fy nerfau yw ei fod yn esgus bod yn rhywbeth nad yw e. Dim 30 awr o ofal plant am ddim yw e. 20 awr o ofal plant am ddim yw e, gyda 10 awr o addysg wedi'i ychwanegu. Pe bai'r gofal plant yn cael ei ddangos mewn hanner diwrnodau a diwrnodau cyfan yna byddai'n llawer cliriach.' (Rhiant)

Roedd nifer fach o rieni hefyd yn teimlo y gallai defnyddio'r Cynnig fod yn fwy cymhleth oherwydd yr angen i drefnu gofal cofleidiol ar gyfer eu plant rhwng yr oriau FPN.

5.8 Roedd y themâu eraill a godwyd gan rieni yn cynnwys cam-gyfathrebu faint o wythnosau'r flwyddyn a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynnig. Dywedodd dau riant eu bod wedi cael bil yn ystod gwyliau'r haf o ganlyniad, a bod hynny'n 'dipyn o sioc i'r system'.

'Do'n i ddim yn teimlo bod nifer yr oriau a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynnig yn ddigon clir. Bydden ni wedi rhoi ychydig o arian i'r naill ochr pe baen ni'n gwybod nad oedd un mis wedi'i gynnwys. Beth am rannu'r wythnosau gyda gweddill y flwyddyn, i'w gwneud yn haws ei reoli i rieni?' (Rhiant)

Dangos Cymhwysedd

5.9 Mae gofyn i rieni sy'n dymuno cael mynediad at y Cynnig wneud cais amdano drwy eu hawdurdod lleol. Mae'r cais yn gofyn i rieni ddarparu tystiolaeth eu bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

5.10 Roedd nifer o rieni yn ansicr a oeddent yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn fanteisiol egluro'r meini prawf cymhwysedd yn fanylach mewn ymgyrchoedd cyfathrebu a hysbysebu. Roedd rhieni'n teimlo'n gyfforddus yn siarad gyda'u hawdurdodau lleol neu eu darparwyr gofal plant ynghylch eu cwestiynau am gymhwysedd. Fodd bynnag, roedd rhai rhieni'n teimlo bod darparwyr hefyd yn ansicr ynghylch rhai o'r manylion yn ymwneud â'r Cynnig. Roedd y rhain yn cynnwys ystod o gwestiynau am gymhwysedd eu plentyn, megis pryd roedd y Cynnig ar gael i'w plentyn, ar gyfer pa ddarpariaeth roedd eu plentyn yn gymwys yn ystod y gwyliau, a phu'n a oedd rhieni hunangyflogedig yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Crybwyllwyd yr holl bwyntiau hyn gan rieni yn yr arolwg ar-lein.


'Mae gofal plant yn ystod y gwyliau yn hanfodol er mwyn cadw rhyw lefel o normalrwydd i ni. Fodd bynnag, mae llawer o ddryswch unrhyw bryd y byddwn ni'n siarad â rhywun yn y cyngor am beth ydyn ni'n gymwys ar ei gyfer. Rydw i wedi'i ddefnyddio cymaint â phosib, ond dydy'r ddarpariaeth dros y gwyliau ddim yn mynd ddigon pell os ydych chi wedi'ch geni yn y mis anghywir.' (Rhiant)

- 5.11 Crybwyllodd nifer fach o rieni eu bod yn cael gofal plant di-dreth ynghyd â'r Cynnig. Roedd rhieni a oedd yn hawlio gofal plant di-dreth a'r Cynnig yn teimlo bod y cynlluniau amrywiol yn anodd eu deall, yn enwedig sut roedd eu biliau gofal plant yn cael eu cyfrifo a sut roedd y ddau gynllun yn cydweithio.
- 'Dw i ddim yn siŵr, gan ei bod yn anodd iawn deall fy mil, yn enwedig gan fod gen i blentyn arall yn yr un lleoliad sy'n rhy hen ar gyfer talebau gofal plant, ac rydyn ni'n talu rhywfaint o'n bil gyda'n cyflog. Mae gen i MSc, ond alla i ddim datrys faint mae fy nhalebau gofal plant yn ei dalu o'r bil, nac o ble daeth y ffigurau.' (Rhiant)
- 5.12 Roedd rhai o'r rhieni'n ansicr i ddechrau p'un a fyddai ymgeisio am y Cynnig yn cael effaith ar y credydau treth plant roeddent eisoes yn eu hawlio cyn gwneud cais am y Cynnig.
- 'Mae'n rhaid i fi ddal i hawlio credydau treth am bedair wythnos o'r flwyddyn, gan mai dim ond nawr rydw i'n clywed bod rhieni sy'n cael y Cynnig yn gorfod talu am bedair wythnos y flwyddyn. Roedd hi'n hollol ddi-bwrpas i fi hawlio'r Cynnig os yw hyn yn wir. Waeth i fi fod wedi aros ar y credydau treth, llai o drafferth a llai dryslyd!' (Rhiant)
- 5.13 Mae'r dryswch yn y cyfathrebu â rhieni yn awgrymu bod angen gwybodaeth gliriach mewn perthynas â sut mae'r cynlluniau amrywiol yn cydweithio. Gallai rhagor o gyfathrebu â rhieni sy'n gymwys am ystod o gynlluniau gynorthwyo rhieni i ddeall eu bil misol yn llawn a sut caiff ei gyfrifo. Byddai hyn yn darparu rhagor o eglurder i rieni ar filiau'r dyfodol a faint o arian a delir y mis ar gyfer gofal plant, er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Y broses ymgeisio

- 5.14 Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo bod y broses o ymgeisio am y Cynnig yn hawdd iawn neu'n gymharol hawdd (90 y cant). Roedd lleiafrif bach (8 y cant) yn teimlo bod y broses ymgeisio'n gymharol anodd, gyda 2 y cant o'r rhieni'n ystyried bod y broses yn anodd iawn.
- 5.15 Anogwyd y rhieni a oedd yn teimlo bod y broses ymgeisio am y Cynnig yn anodd i egluro pam ei bod mor anodd iddynt (Ffigur 5.2).

Ffigur 5.2: Rhesymau pam fod y rhieni'n gweld y broses o ymgeisio am y Cynnig yn anodd



N = 320

Ffynhonnell: Arolwg o'r rhieni sy'n manteisio ar y Cynnal Gofal Plant yng Nghymru (2019)

- 5.16 O blith y lleiafrif o rieni (10 y cant) oedd yn gweld y broses ymgeisio un ai yn gymharol anodd neu'n anodd iawn, dywedodd eu hanner bod casglu'r dogfennau oedd eu hangen yn anodd. Dywedodd hanner y rhieni hyn hefyd bod y cais yn cymryd llawer o amser.

'Roedd yn rhaid i fi gysylltu gydag adran y gyflogres yn y gwaith i gael slipiau cyflog a gwaith papur, felly roedd yn rhaid i fi ganslo'r cais a dechrau eto. Byddai wedi bod yn dda cael gwybod beth i'w ddisgwyl er mwyn gallu paratoi'n llawn.' (Rhiant)

- 5.17 Cafodd dros draean y bobl a oedd yn cael y cais yn anodd anawsterau technegol wrth gwblhau'r broses ymgeisio ar-lein. Roedd oddeutu chwarter y rhieni hyn yn teimlo bod meini prawf cymhwysedd y Cynnal yn aneglur (24 y cant) a'i bod yn anodd dod o hyd i'r ffurflen gais (29 y cant).

'Rhoddais i'r holl wybodaeth, roedd yn rhaid i fi anfon 16 slip cyflog, gan fod fy mhartner yn cael slipiau wythnosol, ac yna dywedon nhw nad o'n i wedi darparu'r atodiadau. Doedd yr atodiadau ddim yn gweithio felly roedd yn rhaid i fi eu hanfon drwy e-bost. Fe gollon nhw'r llwybr e-bost, felly yn y pen draw roedd yn rhaid i fi dalu am chwe wythnos gyntaf y gofal plant fy hun, er bod ffrindiau wedi ymgeisio ar

fy ôl i ac wedi cael ymateb mewn cwpl o ddyddiau. Roedd yn rhaid i fi eu ffonio eto cyn iddyn nhw ddod o hyd i fy nghais a'r gwahanol atodiadau e-bost. Wedyn, fe wnaethon nhw gam-gyfrif nifer yr oriau roedd gen i hawl iddyn nhw, ac roedd yn rhaid diwygio.' (Rhiant)

Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol

5.18 Yn ystod tymor yr ysgol, mae gan blant a gefnogir gan y Cynnig hawl i o leiaf 10 awr o FPN a hyd at 20 awr o ofal plant a ariennir. Mae'r cyfuniad o ddarpariaeth FPN a gofal plant a ariennir yn dod i 30 awr y Cynnig. Yn ystod naw wythnos o'r 13 wythnos o wyliau ysgol bob blwyddyn, pan nad oes darpariaeth FPN, mae 30 awr y Cynnig yn cynnwys gofal plant a ariennir yn unig.

5.19 Canfu'r arolwg o'r rhieni a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019 fod oddeutu tri chwarter y rhieni (71 y cant) wedi defnyddio neu'n bwriadu defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Nododd 20 y cant o'r rhieni nad oedden nhw am ddefnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, a nododd lleiafrif bach o'r rhieni (6 y cant) nad oeddent yn defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol ar hyn o bryd, gan nad oedd ar gael iddynt.

'Sefyllfa gymhleth gan nad oes gan yr ysgol mae fy mab yn mynd iddi glwb gwyliau ac felly mae'n rhaid i fi yrru fy mhlentyn filltiroedd i ffwrdd i glwb mewn ysgol wahanol nad yw'n gyfarwydd â hi. Dw i ddim yn gwybod beth i'w wneud ac mae e'n dal i fod mor ifanc.' (Rhiant)

5.20 O'r rhieni a ddywedodd eu bod wedi defnyddio neu'n bwriadu defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn gallu cael mynediad at yr holl ofal plant yr oedd ei angen arnynt yn ystod gwyliau'r ysgol (59 y cant). Nododd dros draean y rhieni eu bod wedi gallu cael mynediad at rywfaent o'r gofal plant oedd ei angen arnynt yn ystod y gwyliau (36 y cant). Nododd lleiafrif bach, 4 y cant, nad oedd modd iddynt gael mynediad at unrhyw ofal plant addas yn ystod gwyliau'r ysgol.

- 5.21 O'r 18 cyfweiliad â rhieni a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn, roedd 11 o'r rhieni wedi defnyddio neu'n bwriadu defnyddio'r gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Ar gyfer un rhiant, mae defnyddio'r Cynnig yn ystod gwyliau'r ysgol wedi golygu mwy o amser o ansawdd gyda'i phlentyn arall, fel y dangosir yn astudiaeth achos 1.



Astudiaeth Achos 1

Mae'r rhiant yn fam sengl sydd wedi mabwysiadu dau blentyn. Ers defnyddio'r Cynnig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd modd iddi ddefnyddio'r ddarpariaeth gwyliau gyda'i phlentyn ieuengaf. Roedd hyn yn rhoi mwy o amser o ansawdd iddi gyda'i phlentyn hynaf, ac roedd modd iddynt ganolbwyntio ar waith therapiwtig, gan helpu â iechyd meddwl y plentyn. Mae defnyddio'r Cynnig wedi golygu bod y fam wedi gallu treulio amser un i un gyda'i merch, sydd, yn ei dro, wedi helpu i gryfhau'r uned deuluol.

- 5.22 Roedd pump o'r 18 rhiant a gyfwelwyd yn dymuno defnyddio'r Cynnig yn ystod gwyliau'r ysgol, ond nid oedd ar gael gan nad oedd eu darparwr o ddewis ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol, neu roeddent ar agor am ran o'r gwyliau yn unig. Roedd rhieni'n dueddol o gymryd absenoldeb di-dâl, gweithio oriau gwrthgyferbyniol i'w partneriaid, a gofyn am ofal plant anffurfiol gan deulu a ffrindiau. Roedd un rhiant a gyfwelwyd yn cael trafferth rheoli eu sefyllfa: 'dim ond am un diwrnod yr wythnos roedd y feithrinfa ar agor yn ystod y gwyliau, yn ystod gweddill yr amser ro'n i'n gweithio o adre gyda nhw'n rhedeg o gwmpas.'
- 5.23 Roedd llawer o'r rhieni a gyfwelwyd yn teimlo bod y wybodaeth yn ymwneud â gwyliau'r ysgol yn aneglur ar adegau. Pan fo lleoliadau ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r Cynnig yn cynnwys 30 awr o ofal plant a ariennir, am dair wythnos y tymor (cyfanswm o 9 wythnos y flwyddyn). Roedd dealltwriaeth y rhieni o'u hawl yn ystod gwyliau'r ysgol yn amrywio. Doedd rhai ddim yn gwybod bod darpariaeth ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol, ac eraill ddim yn deall yn iawn faint o wythnosau o ofal plant sydd wedi'u hariannu y byddai modd iddynt eu cael.

'Mae'r ffaith mai dim ond tair wythnos y gallwch eu defnyddio ar gyfer cyfnod gwyliau bob tymor yn gyfyngedig iawn i ni, yn enwedig gan fod gwyliau'r haf yn 6 wythnos. Gan mai dim ond o'r tymor ar ôl y Pasg ymlaen roedd modd i fy mhlentyn gael y cyllid. Felly, eleni fyddwn ni heb dderbyn 48 wythnos o gyllid, siomedig iawn.' (Rhiant)

'Ro'n i wedi fy synnu'n fawr i gael biliau gofal dydd o £800+ y mis yma, gan nad o'n wedi sylweddoli bod y cyllid yn rhedeg allan ar ôl yr haf (er, mae'n siŵr bod hyn wedi'i egluro mewn rhyw destun mân yn rhywle).' (Rhiant)

5.24 Eglurodd rhiant arall ei bod wedi cymryd ar y dechrau y byddai ganddi hawl i 13 wythnos lawn, a chafodd wybod mai dim ond naw wythnos fyddai'n cael eu hariannu gan y Cynnig, yn hwyrach nag y bydden nhw wedi'i obeithio. Arweiniodd hyn, yn ei dro, at fil mawr ar ddiwedd yr haf, ac nid oedd hi wedi cynilo na rhoi arian o'r neilltu i'w dalu.

5.25 Roedd llawer o'r rhieni'n teimlo y gallai fod mwy o eglurder o ran yr oriau gofal plant yr oedd gan eu plentyn hawl iddynt. Roedd rhai rhieni'n teimlo bod y system hefyd yn annheg yn ystod y gwyliau oherwydd argaeledd amrywiol, gyda rhai darparwyr ar agor a rhai ar gau.

'Doedd e heb ei nodi'n glir bod hawl gen i i gael chwe wythnos, a gan nad oedd un o fy narparwyr yn rhedeg yn ystod y gwyliau ar y pryd, rydw i wedi colli allan ar oriau na alla i eu hawlio drwy gydol gwyliau'r ysgol.' (Rhiant)

5.26 Adroddodd awdurdodau lleol hefyd fod rhywfaint o ddryswch yn dal i fod ymhlith rhai rhieni a darparwyr am y ddarpariaeth gwyliau, a'u bod yn parhau i fireinio eu geiriad a'u dulliau o gyfathrebu gwybodaeth am y ddarpariaeth gwyliau.

Pwy sy'n gwneud defnydd o'r Cynnig?

5.27 Mae'r adran hon yn adolygu proffil enillion rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig. Cesglir data ar fandiau cyflog y rhieni sy'n cymryd rhan drwy ffurflenni monitro tymhorol y mae'r holl awdurdodau lleol yn eu darparu i Lywodraeth Cymru. Mae'r data a gyflwynir yn Nhabl 5.1 isod yn seiliedig ar y wybodaeth am gyflog a gyflwynwyd ar gyfer tymor haf 2019, ar ôl cyflwyno'r Cynnig yn llawn. Mae angen rhywfaint o ofal wrth ddehongli'r ffigurau hyn, gan fod bylchau yn y data. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyfyngiadau,

mae'r data monitro sydd ar gael yn cynnig cynrychiolaeth resymol o fandiau cyflog rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig yn ystod tymor haf 2019¹⁰.

- 5.28 Mae'r data'n dangos mai tua £21,000 y flwyddyn yw lefel cyflog canolrifol rhieni a gaiff eu cefnogi gan y Cynnig. Mae hyn yn is na lefel y cyflog cyfartalog cenedlaethol, sef £25,896 y flwyddyn, fel y cofnodwyd gan yr Arolwg Blynnyddol Oriau ac Enillion (y Swyddfa Ystadegau Gwladol)¹¹. Mae'r data hefyd yn dangos bod dau draean (66 y cant) y rhieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ystod tymor yr haf 2019 yn ennill cyflog cyfwerth neu is na lefel y cyflog cyfartalog cenedlaethol blynnyddol.
- 5.29 Mae'r cyflog canolrifol a amcangyfrifwyd ar gyfer rhieni a oedd yn defnyddio'r Cynnig yn 2019 hefyd yn gymaradwy â'r band cyflog gros blynnyddol canolrifol £20,800 - £25,999 a gofnodwyd ar gyfer rhieni unigol a oedd yn defnyddio'r Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu cynnar y Cynnig.
- 5.30 Mae lleiafrif o rieni unigol sy'n defnyddio'r Cynnig (4 y cant) yn ennill cyflogau blynnyddol sy'n uwch na £52,000. Fodd bynnag, mae hyn yn cyferbynnu â'r ffaith fod bron i chwarter (22 y cant) o'r rhieni yr oedd data cyflog ar gael iddynt yn ennill llai na £10,400 y flwyddyn.
- 5.31 Mae'r data'n awgrymu felly y caiff y Cynnig ei ddefnyddio'n bennaf gan rieni sy'n dod o dan y grwpiau incwm canolig i isel. Mae hyn yn debyg i'r canfyddiadau a nodwyd yn ystod y gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf.

¹⁰ Nid oes data gan Rongdd Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad hwn, oherwydd cafwyd problemau yn cael eu data o system gyfrifiadurol yr Awdurdodau Lleol. Mae'n rhaid trin y ffigurau â gofal, oherwydd amcangyfrifir bod dros 100 o gofnodion plant ar goll o setiau data tymor yr haf 2019 Caerdydd, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Ynys Môn a Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Wrecsam .

¹¹ [Enillion wythnosol gros cyfartalog \(canolrif\) StatsCymru yn ôl gwlad yn y DU - rhanbarth yn Lloegr a blwyddyn.](#)

Tabl 5.1. Cyfran y rhieni sy'n cymryd rhan yn y Cynnig o fewn pob band cyflog gros blyneddol yn ystod tymor yr haf 2019

Bandiau cyflog gros blyneddol	Cyfran manylion y rhieni a ddychwelwyd ar gyfer tymor yr haf 2019 (%)
Hyd at £5100	2.3
£5,200 - £10,399	19.9
£10,400 - £15,599	17.1
£15,600 - £20,799	14
£20,800 - £25,999	12.5
£26,000 - 31,199	10.2
31,200 - 36,399	7.7
36,400 - 51,999	12.4
52,000 ac uwch	4

N = 12,392

Ffynhonnell: Ffurflenni monitro data tymhorol Cynnig Gofal Plant Cymru.

Y math o ofal plant a ddefnyddiwyd

5.32 Mae'r adran hon yn adolygu'r math o ofal plant a ddefnyddiwyd drwy'r Cynnig. Mae'n disgrifio'r i ba raddau y mae symud o ofal plant anffurfiol i ofal plant ffurfiol wedi'i ddylanwadu gan y Cynnig. Mae'r adran hefyd yn ystyried ac yn egluro'r math o ofal plant ffurfiol a ddefnyddir drwy'r Cynnig.

Symud o ofal plant anffurfiol i ofal plant ffurfiol

- 5.33 Ceisiodd y gwerthusiad ddeall y newidiadau yn y galw gan rieni am ddarpariaeth gofal plant ffurfiol ymhlith y rhai oedd yn manteisio ar y Cynnig. Dangosodd canfyddiadau'r gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf¹² bod bron yr holl rieni a holwyd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig (94 y cant). Gofynnwyd i'r rhieni eto yn yr arolwg ar-lein a oeddent wedi defnyddio gofal plant ffurfiol cyn dechrau manteisio ar y Cynnig. Dywedodd mwyafrif helaeth y rhieni (89 y cant) eu bod wedi defnyddio gofal plant ffurfiol cyn y Cynnig. Cefnogir hyn gan y cyfweiliadau ansoddol gyda rhieni, gyda 15 o'r 18 rhiant yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn y Cynnig.
- 5.34 Roedd yr arolwg ar-lein hefyd yn gofyn i rieni p'un a fydden nhw'n defnyddio eu lleoliad presennol pe na bai'r Cynnig ar gael iddyn nhw. Dywedodd lleiafrif o'r ymatebwyr (wyth y cant) na fyddent yn defnyddio gofal plant ffurfiol pe na bai ganddynt fynediad at y Cynnig, gan nodi na fyddent yn gallu fforddio'r gost fel y prif reswm. Eglurodd rhai o'r rhieni hyn y byddai'n rhaid iddynt ddibynnu ar aelodau o'r teulu am ofal plant, ac eglurodd eraill y byddai'n rhaid iddynt leihau eu horiau gwaith i ofalu am eu plentyn gan na allent fforddio cost gofal plant ffurfiol. Mae hyn yn awgrymu bod y Cynnig wedi helpu rhieni i gynnal nifer yr oriau maen nhw'n eu gweithio.
- 5.35 Gofynnwyd i rieni yn yr arolwg ar-lein a ydynt yn talu unrhyw daliadau ar wahân neu daliadau ychwanegol yn eu darpariaeth gofal plant. Dywedodd dros hanner y rhieni (56 y cant) eu bod yn talu taliadau ychwanegol, gan gynnwys bwyd, byrbrydau a chludiant. Roedd y taliadau ychwanegol fel arfer yn cael eu hychwanegu at eu biliau fel swm llawn ar gyfer y mis. Bu i rai rhieni grybwyll bod ffioedd ychwanegol yn cael eu codi arnynt ar y diwrnodau roeddent yn defnyddio'r Cynnig, ond ar y dyddiau lle nad oedd cyllid wedi'i gynnwys, nad oedd taliadau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y ddarpariaeth. Dywedodd rhai o'r rhieni y gallai'r broses o ychwanegu taliadau fod yn gliriach, drwy eitemeiddio'r taliadau hyn yn ôl diwrnod, er

¹² Glover, A., Harries, S., Lane, J., Lewis, S., (2018) [Gwerthuso Gweithredu Cynnar Cynnig Gofal Plant Cymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 61/2018. [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2019]

mwyn i rieni wneud penderfyniadau gwell ac i ddeall yn llawn beth oedd y taliadau.

Eglurodd un rhiant:

'Rydw i wedi gofyn i fy narparwr preifat dorri hwn i lawr i fi, ac rydw i wedi mynd â hyn ymhellach at berchennog y feithrinfa, ond does dim dadansoddiad o'r taliadau wedi'i roi. Mae'r feithrinfa'n parhau i feio'r Cyngor am beidio â gallu rhoi manylion. Fodd bynnag, rydw i wedi clywed rhieni eraill sy'n defnyddio'r feithrinfa'n dweud eu bod wedi cael ffigurau amrywiol am fyrbrydau, 'cludiant', ac ati' (Rhiant)

- 5.36 Nododd rhai rhieni eu bod yn aml yn defnyddio gofal plant anffurfiol ar gyfer gofal cofleidiol rhwng darpariaeth FPN a'r gofal plant ffurfiol a ddarperir gan y Cynnig. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni a holwyd yn defnyddio'r un nifer o oriau o ofal plant anffurfiol (65 y cant) â'r hyn a ddefnyddid cyn y Cynnig er mwyn darparu ar gyfer y gofal cofleidiol sydd ei angen yn ystod y dydd. Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod rhieni wedi gallu lleihau eu dibyniaeth ar ofal plant anffurfiol, gydag oddeutu chwarter (27 y cant) y rhieni yn defnyddio llai o oriau o ofal plant anffurfiol ers manteisio ar y Cynnig. Mae canfyddiadau o arolwg eleni'n dangos cynnydd o 10 y cant yn y rhieni sy'n defnyddio llai o ofal plant anffurfiol (gyda'r gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf yn nodi 16 y cant).

'Yn ein hachos ni, bysw'n i wedi gollwng un diwrnod o waith yr wythnos, a fysw'n i heb gael yr un cyfleoedd. Byddai wedi bod yn llawer mwy o waith jyglo a phroblemau gyda chasglu'r plant. Mae wedi rhoi tawelwch meddwl i ni, yn enwedig gyda'u neiniau a'u teidiau'n sâl. Heb y Cynnig, byddai wedi bod yn broblem fawr i ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.' (Rhiant)

- 5.37 Roedd rhieni hefyd yn defnyddio gofal plant ffurfiol am fwy o oriau, gyda 30 y cant o'r rhieni yn defnyddio gofal plant ffurfiol am fwy o oriau o ganlyniad i'r Cynnig. Nododd y cyfweiliadau gyda rhieni a thystiolaeth ansoddol o arolwg y rhieni enghreifftiau o rieni'n defnyddio mwy o oriau o ofal plant ffurfiol, fel y dangosir yn astudiaeth achos 2.



Astudiaeth Achos 2

Mae'r teulu wedi bod yn defnyddio gofal plant ffurfiol ers i'w plentyn droi'n 10 mis oed. Cyn hynny, doedden nhw ddim yn gallu fforddio costau gofal plant ffurfiol, ac o ganlyniad roedd y rhieni'n cael eu dyddiau i ffwrdd am yn ail i leihau'r costau cymaint â phosib. Roedd hyn yn cael effaith niweidiol ar eu bywyd teuluol a'u llesiant emosiynol yn eu perthynas, gan nad oedd modd iddynt dreulio eu diwrnodau i ffwrdd o'r gwaith fel teulu.

Maen nhw wedi bod yn defnyddio diwrnod yn fwy yr wythnos o ofal plant ffurfiol o ganlyniad i'r Cynnig. Maen nhw wedi bod yn defnyddio'r 30 awr o ofal plant ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y teulu. Mae un rhiant wedi gallu parhau i weithio drwy gydol y gwyliau, sy'n helpu gyda'u llesiant, drwy beidio â gorfod cymryd gwyliau blynyddol o'r gwaith.

Mae'r Cynnig gofal plant hefyd wedi galluogi'r rhiant arall yn y teulu i fod yn fwy hyblyg yn eu swydd, gyda'r gallu i weithio pan fo angen yn hytrach na glynu at batrwm sifftiau llym. Mae nhw hefyd wedi gallu gweithio oriau ychwanegol / goramser o ganlyniad i lai o straen ar y teulu.

'Mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod yn fanteisiol i lesiant emosiynol fy nheulu mewn ffordd llawer mwy nag ariannol yn unig.'

Hyblygrwydd gofal plant

- 5.38 Ceisiodd y gwerthusiad weld a oedd darpariaeth gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig yn ddigon hyblyg i fodloni gofynion rhieni. Gofynnwyd i rieni p'un a oedd modd iddynt gael mynediad at y math o ofal plant, nifer yr oriau ac amser o'r dydd oedd orau ganddynt drwy'r Cynnig. Dywedodd y rhan fwyaf (62 y cant) o'r rhieni bod rhyddid iddynt ddewis pryd fydd eu plentyn yn mynychu'r ddarpariaeth gofal plant. Dywedodd dros chwarter (27 y cant) y rhieni eu bod yn gallu dewis pryd gallai eu plentyn fynychu, ond gyda rhai cyfyngiadau. Datgelodd cyfweiliadau gyda rhieni eu bod hefyd yn hapus yn gyffredinol gyda hyblygrwydd y ddarpariaeth, a'i bod yn bodloni eu hanghenion. Bu i rai rhieni grybwyll y byddai mwy o hyblygrwydd gyda'u darparwyr yn eu helpu â hyblygrwydd yn eu swyddi.

'Byddai'n wych pe baen ni'n gallu dewis pa ddyddiau sydd orau i'r teulu, ac yna gallwn i ddewis ar ba ddyddiau i weithio. Byddai'n golygu y gallen ni drefnu o gwmpas oriau gwaith neu oriau'r feithrinfa.' (Rhiant)

- 5.39 Roedd rhai rhieni'n teimlo, gan fod y Cynnig yn cael ei ddarparu yn ôl oriau, ond bod realiti gofal plant fel arfer yn cael ei archebu fel sesiynau neu ddiwrnodau / hanner diwrnodau, ei fod yn cyfyngu ar faint o ddiwrnodau roedd modd defnyddio'r gofal plant. Er enghraifft, dywedon nhw nad oedd modd mynd â'u plentyn at ddarparwyr am ychydig oriau, fel y bydden nhw'n ei ddymuno – roedd yn rhaid iddo fod mewn slotiau hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn. Gallai hyn achosi anhawster i deuluoedd a oedd yn gobeithio defnyddio'r 30 awr gyfan, gan y byddai eu diwrnodau gwaith yn gorffen yn gynnar – nid oedd modd i'r oriau ychwanegol hynny nas defnyddiwyd gael eu cario i ddiwrnod arall, gan eu bod yn cyfrif fel hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn.

'Mae'r 30 awr yn swnio'n wych – ond does dim o'r meithrinfeydd yn gweithio yn ôl oriau, maen nhw'n gweithio yn ôl dyddiau, felly mewn gwirionedd – dydy cael 20 awr ddim mor ddefnyddiol â hynny.' (Rhiant)

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ariennir gan y Cynnig

- 5.40 Archwiliodd y gwerthusiad p'un a oedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a ariennir gan y Cynnig yn bodloni gofynion rhieni. Gofynnwyd i rieni drwy'r arolwg ar-lein a oeddent wedi gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog ers defnyddio'r Cynnig.
- 5.41 Dywedodd 44 y cant o'r rhieni a holwyd fod arnynt eisiau gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. O'r gweddill, nid oedd ar 37 y cant eisiau gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ac nid oeddent yn ei ddefnyddio, a dywedodd bron i bumed (19 y cant) nad oedden nhw'n gwybod a oeddent yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
- 5.42 O'r rhai yr oedd arnynt eisiau gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, nid oedd modd i 11 y cant gael mynediad ato. Roedd amrywiadau yn yr ymatebion yn ôl awdurdod lleol, gyda nifer a chyfran isel iawn o'r rhieni'n methu â chael mynediad ato yng Ngwynedd, Ynys Môn a Cheredigion (o dan 2 y cant neu un neu ddau riant). Mewn llefydd eraill, roedd pumed neu fwy o'r rhieni yr oedd arnynt eisiau mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn methu â chael hynny mewn pedair ardal awdurdod lleol (gyda 25 y cant o'r ymatebwyr yng Nghaerdydd, 21 y cant o'r ymatebwyr yn Abertawe, 21 y cant o'r ymatebwyr ym Mro Morgannwg, a 20 y cant o'r ymatebwyr ym Mhowys yn methu â chael mynediad ato). Doedd dim gwahaniaethau sylweddol yn y mathau o leoliadau gofal plant a ddefnyddiwyd gan y rhieni hynny a oedd yn adrodd nad oedd modd iddynt gael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
- 5.43 Roedd yr arolwg yn gofyn hefyd p'un a oedd y rhieni wedi defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog cyn defnyddio'r Cynnig, ac atebodd cyfran debyg o'r rhieni (12 y cant) nad oeddent wedi gallu cael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog cyn manteisio ar y Cynnig. Er bod y cyfrannau'n debyg, nid yr un rhieni yw'r rhain i gyd. Mae ymatebion ansoddol y rhieni i'r arolwg yn egluro patrwm o newid darparwyr o gwmpas adeg dechrau FPN a'r Cynnig, gyda rhai rhieni'n symud i (neu'n defnyddio gofal plant mewn) lleoliad cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gydag eraill yn adrodd eu bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio Cylch Meithrin (Cymraeg) neu leoliad arall. Cyfeiriwyd yn aml at ddiffyg gofal cofleidiol

gyda'u dewis nhw o FPN neu oriau anaddas fel rhesymau, fel y dywedodd un rhiant a nododd, pe bai eu plentyn yn mynd i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, y byddai trefnu i gasglu a gollwng eu plant eraill yn anodd yn ymarferol, gan nad oedd y darparwr yn lleol iddyn nhw fel teulu.

'Alla i ddim casglu a gollwng sawl gwaith, ac rydw i ar fin cael ail blentyn a fydd angen gofal baban. Mae angen iddyn nhw fod yn yr un lleoliad mewn gwirionedd er mwyn gweithio gyda'n hanghenion ni, a dydw i ddim yn gwybod am ofal plant [cyfrwng] Cymraeg ar gyfer babanod a phlant bach yn yr ardal.' (Rhiant)

Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

- 5.44 Archwiliodd y gwerthusiad p'un a oedd darparwyr gofal plant wedi gallu rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar blant ag anghenion addysgol arbennig drwy'r Cynnig.
- 5.45 O'r ymatebion i arolwg y rhieni, dywedodd 2.5 y cant fod gan eu plentyn/plant anghenion addysgol arbennig, ac o'r rhain, darparodd 79 rhiant fwy o fanylion ynghylch a oeddent yn teimlo bod eu darparwr (neu ddarparwyr) gofal plant wedi gallu rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar eu plentyn. O'r 79 rhiant hyn, atebodd chwarter (20 rhiant) nad oedd modd i'r darparwr roi'r gefnogaeth yr oedd ei hangen iddynt.
- 5.46 Doedd dim un o'r 79 rhiant hyn wedi defnyddio gwarchodwr plant, ond o ran y mathau eraill o ddarparwyr gofal plant, doedd dim cydberthynas rhwng derbyn cefnogaeth a'r math o ddarparwr. Roedd darlun cymysg ar lefel awdurdodau lleol, ond o ganlyniad i'r niferoedd bach sydd dan sylw, doedd dim gwahaniaethau a oedd yn ystadegol nodedig rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, na'r mathau o ddarparwyr o ran argaeledd cefnogaeth.
- 5.47 Roedd enghreifftiau o gefnogaeth gadarnhaol, er enghraifft lleoliadau'n cael cyllid i gael cymorth un i un, prynu eitemau i gadw plentyn yn ddiogel, cyfathrebu'n effeithiol gydag addysg gynnar a hyfforddiant ychwanegol i staff. Fodd bynnag, rhoddodd rhieni eraill enghreifftiau o ddarparwyr gofal plant ac awdurdodau lleol 'ddim yn bod yn sympathetig', yn bod yn 'anhyblyg', ac adroddwyd darlun cymhleth o aros am asesiadau a diagnosis. Eglurodd un rhiant, er iddynt gael cyllid ar gyfer 5 awr yr

wythnos o gymorth un i un ar gyfer y lleoliad, nad oedd dim aelodau staff ychwanegol i ddarparu'r gwasanaeth arbenigol hwn.

'mae'n rhaid i'r darparwyr gofal plant ddarparu staff ychwanegol i ymdrin â hyn. Yn anffodus, doedd hyn ddim yn bosib yn y feithrinfa yma oherwydd diffyg staff. Ces argymhelliad am feithrinfa a allai ddarparu hyn, ond gan fod awtistiaeth gan fy mhlentyn, byddai symud darparwr wedi bod yn anodd iawn iddo. Serch hynny, darparwyd grant i'r feithrinfa brynu deunyddiau a allai helpu fy mhlentyn gyda'i gyfathrebu. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac o gymorth'. (Arolwg rhieni)

- 5.48 Cafodd rhiant arall, a drafodir yn astudiaeth achos 3, anhawster sylweddol yn dod o hyd i ofal plant yn eu dalgylch a fyddai'n derbyn eu plentyn oherwydd eu hawtistiaeth difrifol.



Astudiaeth Achos 3

Mae gan rhieni ddau o blant, ac mae gan yr hynaf awtistiaeth ddifrifol. Cyn defnyddio'r Cynnig, roedd y ddau riant yn gweithio sifftiau gwrthgyferbyniol er mwyn gofalu am y ddau blentyn. Wrth ystyried defnyddio'r Cynnig, eglurodd y feithrinfa leol nad oedd modd iddynt gefnogi eu plentyn oherwydd eu hanghenion AAA. Roedden nhw hefyd wedi cael eu troi i ffwrdd gan wyth crèche arall. Golygodd hyn bod y fam yn haneru ei horiau gweithio, a mynd yn ôl i weithio oriau gwrthgyferbyniol i'w gŵr er mwyn gofalu am ei phlentyn ei hun. Mae eu plentyn wedi troi'n bedair erbyn hyn, ac yn mynd i ysgol arbennig. Maen nhw wedi bod yn defnyddio'r Cynnig ar gyfer eu plentyn ieuengaf, sy'n golygu bod y tad wedi gallu newid swyddi. Mae hyn yn golygu y gall y teulu dreulio mwy o amser gyda'i gilydd.

'Rwy'n deall nad ydyn ni'n deulu cyffredin – ond rwy'n teimlo y gallen ni fod wedi cael ein cefnogi yn fwy.'

Effaith y Cynnig ar gyflogadwyedd

- 5.49 Un o brif amcanion y Cynnig yw gwella rhagolygon cyflogadwyedd presennol rhieni nawr ac yn y dyfodol, drwy leihau costau gofal plant fel rhwystr i gyflogaeth. Roedd y gwerthusiad felly'n canolbwyntio ar y graddau y mae'r Cynnig wedi cefnogi gwelliannau yn rhagolygon cyflogadwyedd rhieni nawr ac yn y dyfodol. Mae'r adran hon yn archwilio effaith y Cynnig ar gyflogaeth rhieni, ac unrhyw benderfyniadau roeddent wedi'u gwneud sy'n ymwneud â'u cyflogaeth.

Dylanwad ar oriau gwaith

- 5.50 Gofynnwyd i rieni fel rhan o'r arolwg ar-lein a oeddent yn gweithio'r un nifer o oriau nawr eu bod nhw wedi dechrau defnyddio'r Cynnig. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (81 y cant) eu bod yn gweithio'r un faint o oriau ag yr oeddent cyn cyflwyno'r Cynnig. Dywedodd lleiafrif o'r rhieni (14 y cant) eu bod erbyn hyn yn gweithio mwy o oriau ers cael y Cynnig.

'Rydw i wedi gallu gweithio oriau ychwanegol yn lle gorffen yn y gwaith yn gynnar i gasglu fy mhientyn. Mae'r Cynnig wedi gwneud gwahaniaeth gan y byddai wedi bod yn rhaid i fi ffonio a dibynnu ar aelodau fy nheulu pe bawn i'n hwyr ac angen i rywun gasglu fy mhientyn.' (Rhiant)

- 5.51 Roedd y rhieni a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad hefyd wedi cadw eu horiau gwaith ar y cyfan, gyda rhai achosion o rieni un ai'n cynyddu eu horiau gwaith, yn newid swyddi, yn cael dyrchafiad, neu'n newid eu rôl yn eu gweithle presennol.


'Rydw i wedi gallu dechrau swydd newydd gyda'r un cyflogwr o ganlyniad i'r Cynnig. O'r blaen, roeddwn i'n methu fforddio cost gofal plant, a gan fod angen i fi deithio gyda fy swydd newydd, ni fyddai wedi bod yn werth ei wneud i fi.' (Rhiant)

- 5.52 Mae canlyniadau arolwg y rhieni yn dangos bod gwahaniaeth yn yr oriau a weithiwyd ar ôl dechrau'r Cynnig ymhlith dynion a menywod (gweler Ffigur 5.3). Tra bod 7 y cant o'r 366 dyn a ymatebodd i'r arolwg yn gweithio mwy o oriau ers dechrau defnyddio'r Cynnig, nododd 15 y cant o'r 2,806 o fenywod eu bod yn gweithio mwy o oriau o ganlyniad i'r Cynnig, gyda rhai enghreifftiau yn yr ymatebion ansoddol o groesawu'r gefnogaeth er mwyn gallu cynyddu oriau,

'Mae'n teimlo'n braf cael eich cefnogi i fynd i weithio. Rwy'n teimlo Llywodraeth Cymru yn poeni am rieni sy'n gweithio. Mae'r fenyw wastad yn camu'n ôl, ac mae'n anodd mynd yn ôl i weithio ar ôl hynny. Rydw i'n teimlo nad yw cael plentyn wedi tynnu fy sgiliau oddi arna i, ac rwy'n teimlo bod y system yma wedi bod yn decach gyda fi'. (Rhiant)

Mae hyn yn awgrymu bod y Cynnig wedi bod yn fwy tebygol o effeithio ar allu menywod i weithio mwy o oriau.

Ffigur 5.3: Newid mewn oriau gwaith yn ôl rhywedd



N = 3,172 (Menywod = 2,806, Dynion = 366)

Ffynhonnell: Arolwg o'r rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2019)

5.53 Mae'r dylanwad y mae'r Cynnig wedi'i gael ar yr oriau y mae rhieni sy'n cymryd rhan yn eu gweithio yn amrywio yn ôl lefelau incwm. Nododd ychydig o dan chwarter (23 y cant) o ymatebwyr yr arolwg yr oedd eu lefel incwm unigol yn £10,400 y flwyddyn neu'n is, eu bod yn gweithio mwy o oriau ers iddynt fanteisio ar y Cynnig. Roedd tri chwarter (75 y cant) ymatebwyr yr arolwg a adroddodd eu bod wedi cynyddu eu horiau yn ennill £26,000 y flwyddyn neu lai – hynny yw, roeddent yn ennill swm cyfwerth â chyflog cyfartalog blyneddol gwledydd Prydain neu'n is. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod y Cynnig wedi cefnogi cyfran uwch o rieni incwm is i weithio mwy o oriau.

5.54 Dywedodd llawer o rieni, er y byddai eu trefniadau gofal plant wedi bod yr un peth heb y Cynnig (gan adlewyrchu'r ffaith bod 89 y cant o'r teuluoedd eisoes yn defnyddio

gofal plant ffurfiol cyn defnyddio'r Cynnig) eu bod eisoes wedi bod yn ystyried lleihau eu horiau gwaith, neu beidio â gweithio o gwbl, pe na bai'r Cynnig ar gael, gan nad oedd costau gofal plant yn gynaliadwy yn ariannol i'r teulu.

'Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ni. Fyddwn i heb fynd yn ôl i'r gwaith gan na fydden ni wedi gallu ei fforddio. Gyda chostau gofal plant ar gyfer y ddau blentyn yn £850 y mis, ac ro'n i'n dod â £910 i mewn y mis, doedd e ddim yn werth peidio treulio amser gyda fy mhlant i ennill cyn lleied. Ni fyddai wedi bod yn werth ei wneud.' (Rhiant)

Dylanwad ar hyblygrwydd wrth wneud penderfyniadau am waith

- 5.55 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oeddent yn teimlo bod defnyddio'r Cynnig wedi rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt wrth wneud penderfyniadau am waith. Roedd dros hanner ymatebwyr yr arolwg (57 y cant) o'r farn bod y Cynnig wedi cynyddu eu hyblygrwydd o ran penderfyniadau gwaith. Mae hyn ychydig yn is na'r 66 y cant o rieni a holwyd fel rhan o'r gwerthusiad o flwyddyn gynaf y Cynnig a fynegodd yr un safbwynt.
- 5.56 Yn debyg i'r canfyddiadau yn ymwneud â dylanwad y Cynnig ar nifer yr oriau a weithiwyd, mae dylanwad y Cynnig ar hyblygrwydd mewn penderfyniadau am waith hefyd yn wahanol yn ôl lefel incwm yr ymatebwyr unigol. Roedd bron i ddau draean (63 y cant) yr ymatebwyr a holwyd a oedd yn ennill £26,000 y flwyddyn neu lai o'r farn bod y Cynnig wedi cynyddu eu hyblygrwydd mewn penderfyniadau gwaith. Roedd y gyfran hon yn cynyddu i 75 y cant ymhlith rhieni a oedd yn ennill £10,400 y flwyddyn neu lai. Mae hyn eto'n awgrymu bod y Cynnig yn cael mwy o ddylanwad ar hyblygrwydd gwaith unigolion incwm is.
- 5.57 Gofynnwyd i rieni hefyd p'un a oedd y Cynnig wedi arwain at unrhyw newidiadau eraill mewn perthynas ag amgylchiadau gwaith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys rhieni'n teimlo llai o straen o ran eu cydbwysedd gwaith / bywyd, rhieni'n gweithio mwy o oriau, yn teimlo'n fwy diogel yn eu swydd ac felly'n cynyddu cynaliadwyedd eu swydd, a rhieni'n gwella cydberthnasau gwaith ar ôl gallu newid o waith rhan amser i waith llawn amser.

Dylanwad ar gynyddu cyfleoedd dysgu a datblygu

- 5.58 Yn gyffredinol, roedd ychydig o dan hanner (45 y cant) ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod manteisio ar y Cynnig wedi darparu mwy o gyfleoedd iddynt i gael hyfforddiant yn y gwaith, cyfleoedd dysgu a datblygu, ac roedd ychydig dros hanner y rhieni a holwyd (56 y cant) yn teimlo bod y Cynnig wedi rhoi potensial iddynt gynyddu eu henillion gwaith. Roedd un rhiant yn teimlo'n gyfforddus yn parhau â'i hastudiaethau o ganlyniad i'r Cynnig:
- 'Galla i fynd yn ôl a chael gradd nawr, heb boeni am geisio gweithio digon i dalu'r biliau a chostau gofal plant. Dim ond 16 awr yr wythnos sydd angen i fi weithio nawr, a fydd yn helpu tuag at y biliau, ac mae hefyd yn golygu fy mod i'n gymwys ar gyfer y Cynnig yma.' (Rhiant)
- 5.59 Roedd ychydig dros hanner (52 y cant) yr ymatebwyr a oedd yn ennill £26,000 neu lai yn teimlo bod y Cynnig wedi cynyddu eu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad yn y gwaith, ac roedd y gyfran hon yn cynyddu rhywfaint i 60 y cant ymhlith rhieni a oedd yn ennill £10,400 neu lai. Mewn perthynas â dylanwadu ar enillion – roedd 61 y cant o'r rhieni a holwyd a oedd yn ennill £26,000 neu lai o'r farn bod y Cynnig wedi gwella eu potensial enillion swydd; roedd cyfran ychydig yn uwch (69 y cant) o'r rhai a oedd yn ennill £10,400 y flwyddyn o'r un farn.
- 5.60 Mae'r cyfrannau hyn ychydig yn is na'r rhai a gofnodwyd o'r arolwg o'r Cynnig a gynhaliwyd fel gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf. Cofnododd arolwg 2017-18 fod 60 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y Cynnig wedi rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt wrth wneud penderfyniadau'n ymwneud â gwaith, ac roedd 67 y cant o'r farn bod y Cynnig wedi gwella eu potensial enillion swydd. Fodd bynnag, nid oes modd dod i gasgliadau cadarn mewn perthynas â'r canfyddiadau a nodwyd ar draws y ddau arolwg, gan nad oedd y flwyddyn gyntaf ond yn cofnodi safbwynt rhieni a oedd yn cymryd rhan yn yr ardaloedd peilot gweithredu cynnar ledled Cymru, a bod arolwg yr ail flwyddyn yn cyfleu safbwyntiau rhieni ar draws ardal ddaearyddol llawer yn fwy. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r ddau arolwg yn dangos bod y Cynnig yn cael mwy o ddylanwad ar botensial enillion a chyflogadwyedd rhieni incwm is.

Effaith y Cynnig ar incwm gwario

- 5.61 Roedd y gwerthusiad yn archwilio a oedd gan deuluoedd fwy o incwm gwario drwy gynilo arian ar eu costau gofal plant o ganlyniad i'r Cynnig. Mae bron yr holl deuluoedd wedi gweld gostyngiad yn eu costau gofal plant o ganlyniad i'r Cynnig. Mae hyn wedi golygu bod modd i deuluoedd arbed arian ar gyfer y dyfodol, gyda mwy o sefydlogrwydd ariannol a gallu tretio'r teulu yn amlach. Yn achos ychydig yn llai na chwarter y rhieni (24 y cant), mae'r Cynnig wedi'u galluogi i gael llawer mwy o arian, ac yn achos dros hanner y rhieni (60 y cant) mae wedi galluogi teuluoedd i gael rhywfaint o arian ychwanegol, a nododd y lleiafrif o rieni sy'n weddill (14 y cant) nad oedd y Cynnig wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w hincwm gwario.
- 5.62 Cefnogir y canfyddiadau hyn gan y cyfweiliadau ansoddol â rhieni a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad. Nododd dros hanner y rhieni a gyfwelwyd (10 rhiant) bod eu costau gofal plant wedi'u lleihau o ganlyniad i'r Cynnig. At hynny, nododd 5 rhiant a gyfwelwyd bod eu costau gofal plant wedi'i lleihau gan £100-250 y mis, dywedodd 5 rhiant arall bod eu costau wedi'u lleihau gan £250-360 y mis, a dywedodd un rhiant bod eu costau gofal plant wedi'u lleihau gan o leiaf £500 yr wythnos, £3,000 y mis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni yn y cyfweiliadau ansoddol (12 o 18) hefyd eu bod wedi gallu elwa ar arian a gafwyd gan gostau gofal plant a/neu newidiadau mewn incwm cyflogaeth o ganlyniad i'r Cynnig.
- 5.63 Gofynnwyd i rieni roi enghreifftiau o sut defnyddiwyd yr arian ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i'r Cynnig. Roedd yr enghreifftiau hyn yn cynnwys talu am glybiau a gweithgareddau ychwanegol i'r plant, rhoi mwy o ryddid i'r teulu'n ariannol i gynilo neu wario yn ôl yr angen, helpu gyda chostau tŷ (rhent neu forgais), a'r enghraifft fwyaf poblogaidd oedd gallu tretio'r teulu.

'Roedd fy ngŵr yn gweithio oriau ychwanegol i allu fforddio anrhegion Nadolig y llynedd. Doedd dim angen gwneud hynny eleni o achos y Cynnig. Mae llai o straen arnon ni'n gyffredinol, ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr o gwmpas y gwyliau.' (Rhiant)

6. Casgliadau

- 6.1 Yn ystod yr ail flwyddyn o barhau i gyflwyno'r Cynnig yn ystod 2018 a 2019, mae'r Cynnig wedi'i ymestyn y tu hwnt i'r saith awdurdod peilot cychwynnol i 22 awdurdod lleol Cymru. Mae hyn wedi'i gyflwyno gam wrth gam, gyda'r Cynnig yn cael ei lansio mewn rhai awdurdodau lleol newydd ym mis Medi 2018, eraill ym mis Ionawr 2019, a'r gweddill ym mis Ebrill 2019. Mae'r broses gyflwyno wedi bod yn foddhaol ar y cyfan ar gyfer yr holl awdurdodau lleol.

Darparu'r Cynnig

- 6.2 Yn ystod ail flwyddyn y Cynnig, cyflwynwyd model darparu newydd, lle mae dau awdurdod lleol neu fwy yn cydweithio i ffurfio ardal ddarparu gofal plant sy'n lledaenu y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol. Mae'r model hwn wedi golygu bod angen i awdurdodau lleol ymgymryd â rôl partneriaid darparu, gan fod yn gyfrifol am gefnogi a gweinyddu darpariaeth y Cynnig ar draws yr ardal ddarparu ehangach. Mae awdurdodau lleol eraill yn yr ardal ddarparu wedyn yn ymgymryd â rôl awdurdodau ymgysylltu, sydd â chyfrifoldeb dros ymgysylltu â rhieni a darparwyr i godi ymwybyddiaeth o argaeledd y Cynnig ymhlith darparwyr a rhieni cymwys.
- 6.3 Mae'r broses hon wedi gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o achosion. Daeth rhai problemau cychwynnol i'r amlwg yn ymwneud â chydawnsedd systemau a phrosesau rhannu data ar draws rhai ardaloedd awdurdodau lleol. Bu hefyd rhai achosion o ddiffyg dealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau awdurdodau darparu ac awdurdodau ymgysylltu.
- 6.4 Un her gyffredin o ran darparu y daethpwyd ar ei thraws yn ystod yr ail flwyddyn oedd y gwahaniaethau mewn polisïau a phrosesau FPN ar draws ardaloedd – ac o fewn ardaloedd ar adegau. Nodwyd hefyd bod oriau gwahanol o ddarpariaeth FPN mewn lleoliadau gwahanol o fewn awdurdodau lleol unigol wedi bod yn her yn ystod y flwyddyn gyntaf o'i weithredu, ond mae gweithredu'r ail flwyddyn wedi cynyddu'r broblem mewn rhai achosion, gan fod yn rhaid i awdurdodau darparu fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn mewn darpariaeth FPN yn eu hawdurdod eu hunain ynghyd â'u hawdurdodau ymgysylltu cysylltiedig.

- 6.5 Mae hefyd wedi amlygu heriau gweinyddol pellach yn ymwneud â gwahanol bolisiâu sydd ar waith mewn rhai awdurdodau lleol cyfochrog, o ran y dyddiadau ym mhob blwyddyn academiaidd y mae plant tair oed yn dod yn gymwys am gyllid FPN gyntaf. O ganlyniad, mae rhai plant a anwyd ar yr un diwrnod yn gymwys i gael darpariaeth FPN ar ddyddiadau gwahanol, yn dibynnu ym mha awdurdod lleol maen nhw. Mae hyn wedi achosi heriau sylweddol o ran gweinyddu a chyfathrebu â rhieni ar gyfer awdurdodau darparu ac ymgysylltu.
- 6.6 Mae rhai awdurdodau lleol wedi ceisio cyflwyno rhagor o gysondeb yn nifer yr oriau o FPN a ddarperir ar draws lleoliadau, drwy annog yr holl ddarparwyr yn eu hardal i ddarparu'r un nifer o oriau FPN yr wythnos. Mae gwneud hynny wedi lleihau rhywfaint ar yr heriau gweinyddol ac atebolrwydd a gafwyd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae hefyd wedi arwain at leihad yn nifer yr oriau FPN a ddarperir i blant nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig yn yr ardaloedd hynny.
- 6.7 Mae rhai o'r heriau a oedd yn ymwneud â phrofi cymhwysedd rhieni, a nodwyd yn ystod y gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf, wedi parhau yn ystod yr ail flwyddyn. Yn bennaf, heriau'n ymwneud â dangos cymhwysedd cyflogaeth neu unigolion hunangyflogedig yw'r rhain, ynghyd â phobl sydd wedi'u cyflogi ar gontractau dim oriau.
- 6.8 Un o'r heriau mwyaf y daeth awdurdodau lleol ar eu traws oedd codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith rhieni a darparwyr o nifer yr wythnosau o ddarpariaeth gofal plant y mae gan blant a gefnogir gan y Cynnig hawl iddynt yn ystod gwyliau'r ysgol.

Effaith ar y sector gofal plant

- 6.9 Yn gyffredinol, mae darparwyr gofal plant wedi gweld y broses o gofrestru a chymryd rhan yn y Cynnig yn gymharol syml, ac yn werthfawr yn y rhan fwyaf o achosion. Mae llawer o ddarparwyr wedi profi cynnydd cymedrol yn y galw, sydd yn ei dro wedi annog ychydig dros 20 y cant o'r darparwyr a holwyd i gynyddu eu horiau agor er mwyn cynyddu capasiti eu darpariaeth.
- 6.10 Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr (79 y cant o'r rhai a holwyd) yn ystyried bod y gyfradd safonol o £4.50 / yr awr am ofal plant a oedd yn rhan o'r Cynnig yn hyfyw yn fasnachol ar hyn o bryd, roedd dros 62 y cant o'r darparwyr a holwyd o'r farn bod y

Cynnig yn cael effaith bositif net ar broffidioldeb, ac roedd 65 y cant o'r farn bod y Cynnig wedi gwella cynaliadwyedd eu lleoliad.

- 6.11 Fodd bynnag, roedd gan lawer o ddarparwyr safbwyntiau gwahanol iawn. Ar gyfer y darparwyr hyn, roedd y gyfradd gofal plant o £4.50 yn is na'r gyfradd maen nhw'n ei chodi fel arfer. Nododd y darparwyr hyn hefyd eu bod yn teimlo bod rheidrwydd arnynt i gofrestru i ddarparu'r Cynnig ar y gyfradd is hon neu beryglu colli cwsmeriaid. Yn yr achosion hyn, roedd y Cynnig yn aml yn cael effaith negyddol ar broffidioldeb a chynaliadwyedd y lleoliadau.
- 6.12 Mae un ymhob pump darparwr wedi cyflwyno taliadau ychwanegol, yn aml i wneud yn iawn am y gyfradd gofal plant ostyngol a dderbynnir gan y Cynnig. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r taliadau hyn wedi'u cyflwyno'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae rhai achosion unigol o daliadau gwahaniaethol a ffioedd ychwanegol wedi'u targedu at rieni sydd wedi'u cefnogi gan y Cynnig yn dal i fod.

Effaith ar rieni

- 6.13 Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhieni yn croesawu'r Cynnig, ac adroddwyd eu bod wedi elwa ohono, un ai drwy fod mewn sefyllfa well yn ariannol, neu eu bod yn gallu fforddio mwy o ofal plant ffurfiol a / neu wella eu rhagolygon gyrfaol.
- 6.14 Mae'r Cynnig ar gael i bob rhiant plant tair a phedair oed sy'n gweithio, ac sy'n ennill o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw am 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd a llai na £100,000 y flwyddyn. Yn ystod yr ail flwyddyn, roedd y rhan fwyaf o'r rhieni a fanteisiodd ar y Cynnig yn rhieni sy'n ennill cyfwerth neu lai na'r lefel cyflog cenedlaethol cyfartalog blyneddol.
- 6.15 Roedd dros hanner y rhieni a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod y Cynnig wedi cynyddu hyblygrwydd eu trefniadau gweithio, ac roedd bron i hanner (45 y cant) o'r farn bod y Cynnig wedi'u galluogi i gael mynediad at fwy o hyfforddiant yn ymwneud â gwaith. Roedd dros hanner hefyd o'r farn bod y Cynnig yn debygol o wella eu potensial enillion yn y dyfodol. Yn achos rhai rhieni (14 y cant), roedd y Cynnig eisoes wedi'u galluogi i weithio mwy o oriau bob wythnos. Roedd manteision incwm a chyflogadwyedd a grëwyd gan y Cynnig ar eu huchaf ymhlith rhieni a oedd yn ennill cyflogau is.

- 6.16 Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhieni bod y broses o ddod o hyd i wybodaeth a chofrestru ar gyfer y Cynnig yn syml. Roedd llawer eisoes wedi clywed am y Cynnig yn dilyn cyfnod gweithredu peilot y Cynnig yn y flwyddyn gyntaf. Gallai eraill gael y wybodaeth yn eithaf hawdd gan eu hawdurdod lleol a ffynonellau ar-lein eraill. Fodd bynnag, roedd llawer o rieni'n dal i ddibynnu ar eu darparwyr gofal plant i roi'r wybodaeth fanwl oedd ei hangen arnynt.
- 6.17 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y wybodaeth roedd ei hangen arnynt yn glir ac yn hawdd ei chanfod. Un maes o wybodaeth a oedd yn fwy heriol i rieni ddod o hyd iddo oedd manylion yn ymwneud â'u hawl am ofal plant a ariennir yn ystod gwyliau'r ysgol. Nododd rhai rhieni nad oeddent yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt dalu am ofal plant ar gyfer rhai wythnosau yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd rhywfaint o'r dryswch hwn yn deillio o'r ffaith fod y darparwyr hefyd yn ansicr o ran yr hyn roedd y rhieni'n gymwys i'w gael.

Darpariaeth FPN

- 6.18 Daeth nifer fach o achosion i'r amlwg yn ystod y gwaith maes gwerthuso lle gwelwyd darparwyr yn penderfynu peidio â pharhau â'u darpariaeth addysg FPN, yn aml er mwyn gallu darparu'r hyn y tybiant ei fod yn ofal plant sydd wedi'i ariannu'n well ac sy'n llai beichus. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi'u gwrthbwysu mewn rhai achosion, gydag enghreifftiau o ddarparwyr yn cofrestru i ddarparu FPN am y tro cyntaf.
- 6.19 Mae ail flwyddyn y Cynnig wedi amlygu ymhellach y gwahaniaethau rhwng lefel y ddarpariaeth FPN sydd ar gael ar draws lleoliadau. Mae'r ail flwyddyn hefyd wedi amlygu ymhellach y gwahaniaeth yn y ffordd y caiff FPN ei weinyddu ar draws awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas ag amrywiadau o ran y dyddiadau a'r oedrannau y mae plant yn dod yn gymwys ar gyfer y ddarpariaeth. Mae hyn wedi achosi rhai heriau gweinyddol ar gyfer awdurdodau lleol darparu sydd wedi gorfod cyfrifo nifer yr oriau o ofal plant a ariennir y mae hawl gan blant unigol iddynt, yn seiliedig ar nifer yr oriau o FPN sydd ar gael iddynt. Mae hyn wedi arwain at alw am fwy o gysondeb ar draws ardaloedd awdurdodau lleol o ran sut caiff FPN ei weinyddu ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae cynigion awdurdodau lleol i gyflwyno mwy o gysondeb mewn darpariaeth FPN ar

draws lleoliadau wedi arwain at leihad net yng nghyfanswm yr oriau o ddarpariaeth FPN a ddarperir i bob plentyn.

Darpariaeth gwyliau

- 6.20 Ymddengys fod y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y galw am ofal plant a gynhyrchwyd gan y Cynnig yn ystod gwyliau'r ysgol. Ymddengys fod cyflenwad digonol wedi bod i ateb y cynnydd hwn yn y galw.
- 6.21 Nid lefel y galw nac argaeledd cyflenwad yw'r brif her sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth yn ystod y gwyliau, ond lefel y ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, ynghyd â rhai darparwyr, ynghylch nifer yr wythnosau o ddarpariaeth y mae hawl gan blant cymwys iddynt.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 6.22 O'r darparwyr hynny a adroddodd eu bod wedi cynyddu eu darpariaeth, ymddengys mai lleoliadau sesiynol cyfrwng Cymraeg oedd y gyfran fwyaf (Cylchoedd Meithrin yn bennaf), a oedd un ai'n agor am oriau hirach neu'n ymestyn eu darpariaeth i wyliau'r ysgol. Mae hyn yn cefnogi arsylwadau a adroddwyd gan rai cynrychiolwyr awdurdodau lleol eu bod wedi gweld cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i'r Cynnig, yn bennaf o ganlyniad i Gylchoedd Meithrin yn ymestyn eu horiau agor.
- 6.23 Roedd modd i'r rhan fwyaf o rieni a nododd eu bod am gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gael mynediad ati. Serch hyn, nid oedd modd i 11 y cant o ymatebwyr yr arolwg yr oedd arnynt eisiau'r math hwn o ddarpariaeth gofal plant gael mynediad ato. Roedd y gyfran o rieni nad oedd modd iddynt gael mynediad at eu dewis nhw o ofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ac roedd ar ei uchaf mewn un ardal awdurdod lleol lle roedd chwarter y rhieni'n methu â chael mynediad at eu dewis o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Er bod y gwaith maes gyda darparwyr a staff awdurdodau lleol yn dangos bod cynnydd wedi bod yn nifer yr oriau sydd ar gael yn y lleoliadau hyn a buddsoddiad parhaus yn y sector, mae pocedi o ardaloedd yn dal i fod ledled Cymru lle nad yw'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael ei fodloni.

Darpariaeth AAA

- 6.24 Yn debyg i'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn adroddiad gwerthuso'r flwyddyn gyntaf, adroddwyd tanwariant cyffredinol yn y gyllideb grant AAA oedd ar gael yn ystod yr ail flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y defnydd cymharol isel o ofal plant a ariennir gan y Cynnig ymhlith rhieni sydd â phlant y mae arnynt angen cymorth AAA. Mae hefyd yn adlewyrchu rhywfaint o barhad yn yr ansicrwydd ymhlith rhai awdurdodau lleol o ran sut dylid defnyddio a dyrannu'r cyllid hwn. Nid oedd lleiafrif (20 y cant) o rieni'r arolwg a atebodd fod gan eu plentyn anghenion addysgol arbennig yn credu bod eu darparwr wedi gallu rhoi'r gefnogaeth oedd ei hangen ar eu plentyn. Er y cyfeiriwyd at sawl rheswm dros hyn, a llawer ohonynt y tu hwnt i gwmpas y Cynnig, mae rhai rhieni nad ydynt yn teimlo bod eu darparwr gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig wedi gallu cefnogi anghenion eu plant.

7. Argymhellion

- 7.1 Mae'r argymhellion canlynol wedi'u llywio gan ganfyddiadau sydd wedi dod i'r amlwg o'r gwerthusiad o'r ail flwyddyn o weithredu cynnar Cynnig Gofal Plant Cymru.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ystyried annog cysondeb pellach ym mholisiâu addysg y blynyddoedd cynnar ledled Cymru, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a hyfywedd y Cynnig Gofal Plant ehangach. Dylid ystyried hyn mewn perthynas â chyfraddau cyllido ar gyfer FPN a gofal plant, ynghyd â'r dyddiadau dechrau ar gyfer darpariaeth FPN ran amser ac amser llawn, gyda'r nod o alluogi cysondeb pellach rhwng dwy elfen y Cynnig.
 - Wrth ystyried polisiâu'r dyfodol yn ymwneud â darparu'r Cynnig, a datblygu'r weledigaeth ar gyfer system Gofal ac Addysg Plentynodod Cynnar integredig, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o symleiddio darpariaeth y Cynnig. Gallai hyn gynnwys safoni nifer yr oriau yn un neu ddwy elfen y Cynnig, gan ystyried anghenion datblygiadol y plant hynny nad oes hawl ganddynt i'r Cynnig. Wrth edrych ar hyn, dylid ystyried sut gallai unrhyw newidiadau roi eglurder pellach i rieni a darparwyr, a lleihau'r tasgau gweinyddol i awdurdodau lleol.
 - Mae dryswch ynghylch nifer yr wythnosau o ddarpariaeth a ariennir y mae hawl gan blant i'w chael yn ystod gwyliau'r ysgol. Dylid rhoi rhagor o wybodaeth, canllawiau a sefyllfaoedd enghreifftiol i rieni a darparwyr mewn perthynas ag argaeledd gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig yn ystod gwyliau'r ysgol.
 - Mae'n bosib bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried ymhellach y ffordd y caiff gofal plant a ariennir yn ystod gwyliau'r ysgol ei gynnwys yn y Cynnig; yn enwedig mewn perthynas â nifer yr wythnosau o ofal plant a ariennir sydd ar gael, y ffordd y caiff yr wythnosau hyn eu dyrannu, a'r ffordd y caiff y wybodaeth yn ymwneud â darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol ei rhannu.
 - Dylid adolygu'r gyfradd ariannu bresennol a delir i ddarparwyr sy'n darparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn y dyfodol agos, gyda'r nod o'i chynyddu o bosib.
 - Dylid rhoi rhagor o wybodaeth ac arweiniad i awdurdodau lleol a darparwyr, er mwyn galluogi dealltwriaeth well o sut y gellid neu y dylid defnyddio'r gyllideb anghenion addysgol arbennig; yn enwedig mewn perthynas â'r hyn y dylid ei defnyddio ar ei gyfer a phwy fyddai'n gymwys amdani.
 - Yng ngoleuni enghreifftiau unigol o ddarparwyr yn cyflwyno taliadau gwahaniaethol a ffioedd ychwanegol ar gyfer plant yn eu lleoliad a gefnogir gan y Cynnig, mae'n bosib y

bydd angen rhagor o wybodaeth a chanllawiau'n ymwneud â thaliadau ychwanegol ar awdurdodau lleol ynghyd â darparwyr. Ochr yn ochr â hyn, gellid darparu enghreifftiau o gontractau ac anfonebau sampl, o bosib ochr yn ochr â gwybodaeth yn ymwneud â chwestiynau cyffredin, fel bod modd i rieni ddeall yn well sut caiff taliadau a ffioedd eu cyfrifo.

- Dylid canolbwyntio'n barhaus ar fwy o wybodaeth a gwybodaeth gliriach i rieni ar ystod yr opsiynau cyllido sydd ar gael i helpu â chostau gofal plant, gan gynnwys credydau treth plant, a sut maent yn gweithredu gyda'i gilydd, fel bod modd i rieni wneud penderfyniad gwybodus i'w helpu i gyfrifo costau gofal plant, gan ystyried credyd treth plant.
- Mae'r holl awdurdodau lleol yn casglu data monitro'r Cynnig Gofal Plant y maen nhw wedyn yn ei rannu gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw ansawdd ac argaeledd y data a ddarperir yn gyson ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, ac mae wedi arwain at ddiffyg gwybodaeth monitro glir ar gyfer yr ail flwyddyn o weithredu cynnar. Felly, dylid ystyried cyflwyno system weinyddu ganolog yn genedlaethol cyn gynted â phosib. Yn y cyfamser, mae'n bosib y bydd angen cymorth ac arweiniad pellach i gefnogi ac annog awdurdodau lleol i gasglu a chyflwyno data monitro cyson o ansawdd.
- Dylai fod canllawiau gwybodaeth a chymorth parhaus ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â nodi a gwirio cymhwysedd cyflogaeth rhai rhieni hunangyflogedig.

Atodiad 1: Cwestiynau a chanfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno cwestiynau ymchwil a chanfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf, a sut y dylanwadodd y rhain ar gwestiynau ymchwil gwerthusiad yr ail flwyddyn.

Roedd gwerthusiad y flwyddyn gyntaf o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru (y Cynnig) yn cynnwys dwy ran – gwerthusiad o'r broses a gwerthusiad o'r effaith – ac roedd y naill a'r llall yn ceisio archwilio cwestiynau ymchwil penodol, sydd wedi'u cyflwyno yn Nhabl A1 isod. Ategir y cwestiynau ymchwil yn nhabl A1 hefyd gan nodiadau cryno iawn sy'n amlinellu'r prif ganfyddiadau sy'n ymwneud â phob un, yn ogystal â sut y bu'r canfyddiadau hyn yn sail i ffocws ymchwil gwerthusiad yr ail flwyddyn.

Tabl A.1. Cwestiynau ymchwil a gynhwyswyd yng ngwerthusiad y flwyddyn gyntaf o weithrediad cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Y Broses Werthuso: Darparu

- A oes digon o gapasiti i ddarparu'r Cynnig ac unrhyw gynnydd yn y galw sy'n digwydd o ganlyniad?
 - Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwerthusiad y flwyddyn gyntaf fod y Cynnig wedi arwain at gynnydd cymedrol yn y galw am elfen gofal plant y Cynnig, ac felly roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr o'r farn bod ganddynt ddigon o gapasiti ar hyn o bryd i ateb y galw hwnnw.
 - ✓ Gan fod y Cynnig yn cael ei gyflwyno mewn ardaloedd newydd yn ystod 2018-19, roedd hwn yn faes yr oedd angen parhau i ymchwilio iddo yn ystod gwerthusiad yr ail flwyddyn.
- A yw'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig mewn ffordd hyblyg i fodloni gofynion rhieni (e.e. yn unol â phatrymau gweithio, gan gynnwys gofal cofleidiol)?
 - Roedd canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf yn awgrymu y gallai rhai rhieni ei chael hi'n anodd cael mynediad at FPN a'r gofal plant a ariennir o'u dewis os nad oedd digon o ofal cofleidiol ar gael.
 - ✓ Cynhwyswyd gofal cofleidiol fel maes ymchwil penodol yn ystod gwerthusiad yr ail flwyddyn.
- A yw rhieni yn fodlon â'r lefel o hyblygrwydd sydd ar gael iddynt?
- Pa mor hygyrch a hawdd ydyw i rieni fanteisio ar y Cynnig?
- Pa mor hygyrch a hawdd ydyw i ddarparwyr ddarparu'r Cynnig?
 - ✓ Dangosodd canfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf nad oedd gan y rhieni a gymerodd ran ar y pryd unrhyw bryderon mawr am hyblygrwydd a hygyrchedd y Cynnig, gan fod y math o ofal plant a faint o ofal plant roedd rhieni yn ei ddefnyddio yr un fath cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cynnig yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd yr un peth yn wir hefyd am y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir gan y Cynnig.

-
- ✓ Roedd hyblygrwydd a hygyrchedd y ddarpariaeth yn parhau i fod yn ffocws ymchwil ar gyfer gwerthusiad yr ail flwyddyn wrth i'r Cynnig gael ei gyflwyno mewn ardaloedd newydd o Gymru.
 - A oes capasiti digonol yn y sector ar gyfer plant â gofynion AAA?
 - A yw'r Cynnig yn arwain at unrhyw rwystrau neu gyfleoedd ar gyfer plant â gofynion AAA?
 - Nododd gwerthusiad y flwyddyn gyntaf danwariant net o'r gyllideb AAA a oedd ar gael, sy'n awgrymu nad oedd awdurdodau lleol yn glir ynghylch sut y dylid defnyddio'r cyllid.
 - ✓ Felly, parhaodd gwerthusiad yr ail flwyddyn i ganolbwyntio ar y mater hwn.
 - A yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog bresennol yn bodloni gofynion rhieni?
 - Dangosodd canfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf fod y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cyd-fynd â'r galw yn y rhan fwyaf o achosion. Un o'r rhesymau pennaf dros hyn oedd y newidiadau cymharol fach yn natur y galw am ofal plant a'r ddarpariaeth cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cynnig.
 - ✓ Gan fod y Cynnig wedi'i gyflwyno i ardaloedd newydd o Gymru yn ystod yr ail flwyddyn, roedd cwestiynau gwerthuso'n ymwneud â'i ddylanwad ar y cyflenwad a'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn dal i fod yn ddilys.
 - A yw'r Cynnig yn arwain at unrhyw rwystrau neu gyfleoedd ar gyfer darparwyr gofal plant?
 - A yw lefel y cyllid a delir i ddarparwyr yn llwyddiannus o safbwynt sicrhau capasiti digonol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, a sicrhau bod darparwyr gofal plant yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy?
 - A yw dulliau talu Awdurdodau Lleol i ddarparwyr gofal plant yn llwyddo i sicrhau llif arian digonol i ddarparwyr a thaliadau prydlon?
 - Dangosodd canfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf fod y rhan fwyaf (ond nid pob un) o'r darparwyr gofal plant a gymerodd ran yn fodlon ar y gyfradd ariannu a oedd ar gael. Cafwyd rhai problemau cychwynnol gyda'r dulliau talu, ond cafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu datrys yn gymharol gyflym. Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr a gyfwelwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf yn tybio bod cyflwyno'r Cynnig yn gyfle i wella cynaliadwyedd eu busnes.
 - ✓ Gan fod y Cynnig wedi'i gyflwyno i ardaloedd newydd o Gymru yn ystod yr ail flwyddyn, roedd cwestiynau gwerthuso'n ymwneud â lefel y cyllid a dalwyd i ddarparwyr, yn ogystal â'r cyfleoedd a'r rhwystrau a wynebai'r darparwyr a gymerodd ran, yn parhau i fod yn ffocws yn y cwestiynau ymchwil a gafodd eu cynnwys yng ngwerthusiad yr ail flwyddyn.
 - I ba raddau y mae'r Cynnig Gofal Plant wedi cynyddu'r baich gweinyddol ar gyfer darparwyr?
 - Yn ystod y flwyddyn gyntaf, nododd rhai darparwyr fod delio â gofynion gweinyddu'r Cynnig, yn enwedig pan oedd ganddynt blant o wahanol
-

awdurdodau lleol yn yr un lleoliad, yn ychwanegu cryn dipyn at eu baich gwaith misol.

- ✓ Gan fod y Cynnig wedi'i gyflwyno i ragor o ardaloedd awdurdodau lleol yn ystod yr ail flwyddyn, roedd y gwerthusiad yn awyddus i asesu'r dylanwad yr oedd hyn yn ei gael ar faich gweinyddol darparwyr. Felly, parhaodd y cwestiwn ymchwil hwn yn rhan allweddol o'r cwestiynau ymchwil a gynhwyswyd yng ngwerthusiad yr ail flwyddyn.
-

Y Broses Werthuso: Alinio

- A oes cynnydd neu ostyngiad yn y defnydd o gyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar?
- Sut mae'r Cynnig Gofal Plant yn llwyddo i bontio rhwng Dechrau'n Deg a PaCE ar gyfer rhieni sy'n gweithio?

Y Broses Werthuso: Canlyniadau anfwriadol

- A yw'r Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar broffidioldeb a chynaliadwyedd darparwyr?
 - Nododd canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf fod 72% o'r darparwyr a gyfwelwyd wedi nodi bod y Cynnig wedi cynyddu eu proffidioldeb, a nododd 76% bod eu cynaliadwyedd wedi gwella.
 - ✓ Bydd hwn yn faes ymchwilio parhaus yn ystod gwerthusiad yr ail flwyddyn.
 - Beth yw effaith y Cynnig Gofal Plant ar blant nad ydynt yn gymwys?
 - Yn ystod gwerthusiad y flwyddyn gyntaf, cysylltwyd â sampl fechan o rieni cymwys nad oeddent wedi cymryd rhan i ofyn pam nad oeddent wedi manteisio ar y Cynnig a'r effaith y gallai hyn fod wedi'i chael arnynt. Y prif resymau a roddwyd dros beidio â chymryd rhan oedd dryswch ynghylch sut y byddai'n effeithio ar gredydau treth plant a'r heriau o ran darparu'r dystiolaeth angenrheidiol am gymhwysedd cyflogaeth – yn enwedig os oedd y rhiant yn hunangyflogedig.
 - ✓ Ni fydd yr ail flwyddyn yn cynnwys cwestiynau ymchwil sydd wedi'u hanelu'n benodol at rieni nad ydynt wedi manteisio ar y Cynnig gan mai'r bwriad oedd canolbwyntio ar hyn mewn darn o waith ymchwil ar wahân. Fodd bynnag, roedd gwerthusiad yr ail flwyddyn yn canolbwyntio ar gwestiynau ymchwil wedi'u hanelu at dimau Cynnig awdurdodau lleol, a ph'un a oedd ansicrwydd ynghylch credydau treth plant a darparu tystiolaeth o gyflogaeth yn dal i fod yn rhwystr i rai rhieni fanteisio ar y Cynnig.
 - A yw'r Cynnig Gofal Plant wedi effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd gofal plant ar gyfer plant nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig (e.e. plant o oedran arall)?
 - Dangosodd gwerthusiad y flwyddyn gyntaf fod rhai achosion ynysig o ddarpariaeth gofal plant yn cael eu disodli ar gyfer plant o grwpiau oedran eraill er mwyn cynnig darpariaeth i blant tair a phedair oed oedd yn cael ei hariannu gan y Cynnig.
-

-
- ✓ Mae hwn yn parhau i fod yn faes o ddiddordeb, ac felly mae wedi'i gynnwys fel un o'r cwestiynau ymchwil yng ngwerthusiad yr ail flwyddyn.
 - A yw nifer y darparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru wedi cynyddu o ganlyniad i awydd i gymryd rhan yn y Cynnig Gofal Plant?
 - A yw'r dull talu ar gyfer y Cynnig wedi arwain at drosglwyddo taliadau ychwanegol i rieni?
 - Dangosodd gwerthusiad y flwyddyn gyntaf fod 15% o ddarparwyr wedi cyflwyno taliadau ychwanegol i rieni ar ôl i'r Cynnig gael ei lansio.
 - ✓ Mae hwn yn parhau i fod yn faes o ddiddordeb, ac felly mae wedi'i gynnwys fel un o'r cwestiynau ymchwil yng ngwerthusiad yr ail flwyddyn.
 - A oes effaith (gadarnhaol neu negyddol) wedi bod ar ansawdd canfyddedig gofal plant o ganlyniad i'r Cynnig Gofal Plant?
 - Cafodd hwn ei gynnwys fel cwestiwn ymchwil yng ngwerthusiad y flwyddyn gyntaf, er y cydnabuwyd bod adolygu ansawdd gofal plant y tu hwnt i brif gylch gwaith y gwerthusiad.
 - ✓ Mae hwn yn parhau fel cwestiwn ymchwil gwerthuso ar gyfer yr ail flwyddyn, er mai ei fwriad yw adlewyrchu unrhyw safbwyntiau'n ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth sy'n cael eu codi gan rieni, darparwyr a/neu randdeiliaid ehangach yn hytrach nag unrhyw asesiad o ansawdd a gynhelir gan y tîm gwerthuso.

Gwerthusiad o'r Effaith: Cyflogaeth

- A oes unrhyw effaith ar gyflogaeth rhieni wedi deillio o'r ffaith bod y Cynnig Gofal Plant yn dileu rhwystrau i weithio?
 - Beth yw'r effaith ar agweddau rhieni at waith a'u canfyddiad o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt?
 - Nododd canfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf fod 10 y cant o'r rhieni a holwyd wedi cynyddu nifer yr oriau yr oeddent yn eu gweithio o ganlyniad uniongyrchol i'r Cynnig; nododd 67 y cant fod ganddynt fwy o hyblygrwydd o ran amodau gwaith ac roedd gan 60 y cant fynediad at fwy o hyfforddiant.
 - ✓ Mae cyflogaeth a chyflogadwyedd yn sbardun polisi allweddol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig, ac felly bydd yn parhau i fod yn ffocws yn ystod gwerthusiad yr ail flwyddyn.
-

Gwerthusiad o'r Effaith: Incwm a Chyfoeth

- A oes gan deuluoedd fwy o incwm gwario o ganlyniad i'r Cynnig Gofal Plant?
 - I ba raddau, os o gwbl, y mae'r Cynnig Gofal Plant wedi helpu i leihau tlodi ar gyfer rhieni/teuluoedd sy'n gweithio?
 - Nododd gwerthusiad y flwyddyn gyntaf fod 88% o'r rhieni a ymatebodd i'r arolwg wedi nodi bod y Cynnig wedi cynyddu incwm gwario eu haelwyd.
 - ✓ Mae effaith y Cynnig ar incwm yr aelwyd yn parhau i fod yn ffocws yn ystod gwerthusiad yr ail flwyddyn.
 - Beth yw'r effaith (os o gwbl) ar lesiant rhieni a phlant?
 - Nododd gwerthusiad y flwyddyn gyntaf rai enghreifftiau o astudiaethau achos byr a ddangosodd yr effaith yr oedd y Cynnig yn ei chael ar deuluoedd unigol.
 - ✓ Mae enghreifftiau o effaith y Cynnig ar incwm gwario aelwydydd a'r gwahaniaeth y mae hyn yn ei wneud i deuluoedd hefyd yn ffocws yng ngwerthusiad yr ail flwyddyn.
-

Tabl A.2: Cwestiynau gwerthuso'r ail flwyddyn

Darparu:
• A oes digon o gapasiti o ran gweithlu a lleoliad ffisegol i ddarparu'r Cynnig ac unrhyw gynnydd yn y galw sy'n digwydd o ganlyniad? • A yw'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig mewn ffordd hyblyg i fodloni gofynion rhieni, e.e. yn unol â phatrymau gweithio/ gan gynnwys gofal cofleidiol? • Pa mor hygyrch a hawdd ydyw i rieni fanteisio ar ddwy elfen y Cynnig – FPN a gofal plant? A yw mynediad at ofal cofleidiol yn dylanwadu ar hyn? • Pa mor hygyrch a hawdd ydyw i ddarparwyr ddarparu'r Cynnig? • A oes capasiti digonol yn y sector i blant â gofynion AAA fanteisio ar y Cynnig? • Pa mor effeithlon yw'r broses ar gyfer nodi anghenion AAA plant sy'n cael y Cynnig? • A yw rhieni plant ag AAA yn fodlon â'r cymorth y maent yn ei gael o ran gofal plant ac addysg gynnar? • A yw'r Cynnig yn arwain at unrhyw rwystrau neu gyfleoedd ar gyfer plant â gofynion AAA? • A yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog bresennol yn bodloni gofynion rhieni? • I ba raddau y mae rhieni sy'n bwriadu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn ei defnyddio yn y pen draw? • A yw'r Cynnig yn arwain at unrhyw rwystrau neu gyfleoedd ar gyfer darparwyr gofal plant? • A yw'r Cynnig yn arwain at unrhyw rwystrau neu gyfleoedd ar gyfer darparwyr FPN? • A yw lefel y cyllid a delir i ddarparwyr a/neu'r lwfans i godi taliadau ychwanegol yn llwyddiannus o safbwynt sicrhau capasiti digonol ar gyfer y Cynnig, a sicrhau bod darparwyr gofal plant yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy? • A yw dulliau talu Awdurdodau Lleol i ddarparwyr gofal plant yn llwyddo i sicrhau llif arian digonol i ddarparwyr a thaliadau prydlon? • I ba raddau y mae'r Cynnig wedi cynyddu'r baich gweinyddol ar gyfer darparwyr? • A yw'r grant cyfalaf yn hwyluso ac yn cefnogi'r Cynnig? A yw'r cynllun grantiau bach yn hygyrch, ac yn cefnogi darparwyr yn effeithiol?
Alinio
• A oes cynnydd neu ostyngiad yn y defnydd o Gyfnod Sylfaen y blynyddoedd cynnar? • A oes cynnydd neu ostyngiad wedi bod yn nifer y darparwyr gofal plant sy'n cynnig FPN hefyd? • Sut mae'r Cynnig yn llwyddo i bontio rhwng Dechrau'n Deg a PaCE ar gyfer rhieni sy'n gweithio? • A yw'r grant cyfalaf yn cefnogi aliniad cynaliadwy rhwng FPN a'r Cynnig Gofal Plant?

Canlyniadau anfwriadol

- Beth, os o gwbl, fu canlyniadau anfwriadol y Cynnig?
- A yw'r Cynnig wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar broffidioldeb a chynaliadwyedd darparwyr? A yw'r Cynnig wedi effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd gofal plant ar gyfer plant nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig (e.e. plant o oedran arall)?
- A oes unrhyw ddarparwyr wedi lleihau eu darpariaeth o elfen FPN y Cynnig er mwyn cynyddu elfen gofal plant y Cynnig?
- A yw nifer y darparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru wedi cynyddu o ganlyniad i awydd i gymryd rhan yn y Cynnig?
- A fu effaith ar strwythurau ffioedd/codi tâl darparwyr? A oes effaith (gadarnhaol neu negyddol) wedi bod ar ansawdd canfyddedig gofal plant o ganlyniad i'r Cynnig?
- A yw'r canlyniadau anfwriadol hyn wedi cael effaith fwy negyddol/cadarnhaol ar rai grwpiau economaidd-gymdeithasol? (i rieni a phlant)
- Beth yw profiadau rhieni a darparwyr o ran gofal cofleidiol a chludo plant rhwng lleoliadau?

Cyflogaeth ac incwm

- A oes unrhyw effaith ar gyflogaeth rhieni wedi deillio o'r ffaith bod y Cynnig yn dileu rhwystrau i weithio?
- Faint o rieni sydd wedi dychwelyd i'r gwaith neu wedi cynyddu eu horiau er mwyn cael y Cynnig?
- A oes unrhyw rieni wedi newid eu horiau gwaith neu eu swydd ar ôl iddynt gael mynediad at y Cynnig?
- Beth yw'r effaith ar agweddau rhieni at waith a'u canfyddiad o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt?

Tlodi

- A oes gan deuluoedd fwy o incwm gwario o ganlyniad i'r Cynnig?